



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/25

CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n rhoi gwybodaeth am Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Bydd yn rhoi gwybodaeth i'r darlennydd am ein gwasanaethau, y gofal a ddarparwn a'r hyn a wnawn i gynllunio, darparu a gwella'r gwasanaethau hynny. Yn ogystal, bydd yn rhoi manylion i'r darlennydd am berfformiad yr Ymddiriedolaeth a sut y gwnaethom ymateb i ofynion a heriau newidiol yn 2024/25.

Yn unol â Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2024/25 a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF, mae ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 yn cynnwys: -

Rhan 1: Adroddiad Perfformiad sy'n manylu ar berfformiad yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn a sut y gwnaethom addasu ac ymateb i'r pwysau ar y system sy'n effeithio ar ein cleifion a'n pobl ar hyn o bryd.

Rhan 2: Adroddiad Atebolrwydd sy'n manylu ar y gofynion atebolrwydd allweddol a'n Datganiad Llywodraethu, sy'n darparu gwybodaeth am sut mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli adnoddau a risgiau, ac yn cydymffurfio â threfniadau llywodraethu.

Rhan 3: Datganiadau Ariannol sy'n manylu ar sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwario ei harian a chyflawni ei rhwymedigaethau. Mae'r cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 wedi'u paratoi i gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) Trysorlys EF, gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru o dan atodlen 9 adran 178 Para 3 (1) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) yn y ffurf y cyfarwyddodd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Ar gyfer 2024/25, mae Adroddiad Dyletswydd Ansawdd ar wahân wedi'i baratoi a bydd y datgeliadau sy'n ofynnol yn unol â'r adroddiadau Dyletswydd Gonestrwydd yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol Gweithio i Wella ar gyfer 2024/25 (a gyhoeddir ddiwedd 2025 ac yn cael ei adrodd drwy strwythurau llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth).

Er bod acronymau'n cael eu hesbonio'n llawn pan gânt eu defnyddio gyntaf, cynhwysir rhestr termau ar dudalen 8 er hwylustod. Os oes angen fersiwn printiedig o'r Adroddiad Blynyddol arnoch, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd yn Trish.Mills@wales.nhs.uk.

GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

Croeso i Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar gyfer 2024/25. Gobeithiwn y bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol wrth fyfyrio ar y flwyddyn, yr heriau a'r newidiadau, yn ogystal â rhoi cyfle i edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod.

Mae'r GIG yn "fusnes pobl" i raddau helaeth, ac mae hynny'n sicr yn wir am y gwasanaeth ambiwlans, nad yw'n ddim byd heb y bobl eithriadol rydym yn eu cyflogi ac sy'n gwirfoddoli i ni, mewn amrywiaeth o rolau sy'n wynebu cleifion ac yn eu cefnogi, a hebddynt ni fyddai'r sefydliad yn gallu gweithredu.

Mae'n wir dweud bod pawb yn chwarae rhan enfawr wrth ddarparu'r gorau posibl i'n cleifion, waeth beth fo'u rôl. Fel bob amser, nid yw 2024/25 wedi bod heb ei heriau ac mae'n dyst i'n pobl ein bod wedi gallu cyflawni cymaint yn wyneb galw di-baid, pwysau wrth ddrws ffrynt adrannau brys a ffyrdd newydd o weithio, sy'n cymryd amser a gwydnwch i addasu iddynt.

Eleni, rydym wedi canolbwyntio'n helaeth ar weithio gyda'n partneriaid ar draws GIG Cymru a chyda'r llywodraeth i fynd i'r afael yn fanwl â'r hyn sydd angen ei newid er mwyn i gleifion gael eu gwasanaethu'n well gan y gwasanaeth ambiwlans, boed hynny o ran gofal wyneb yn wyneb neu ofal o bell.

Gwnaed llawer iawn o waith gan staff ar draws ein sefydliad i ddatblygu system newydd i gefnogi ein gwasanaeth 111 yn gynnar yn y flwyddyn, a aeth o'r cam dylunio i gael ei weithredu o fewn chwe mis. Yn yr un modd, mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i brofi dulliau newydd o gefnogi cleifion, yn enwedig dros y gaeaf, a fydd bellach yn llywio datblygiad ein model clinigol yn y dyfodol.

Yn hydref 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol adolygiad o'n targed "COCH" hirsefydlog, yn dilyn argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd.

Roedd hyn yn cynnwys sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu priodoldeb clinigol y targed, gan arwain at gyhoeddiad ym mis Mawrth 2025, o 1 Gorffennaf 2025 ymlaen, y bydd fframwaith perfformiad newydd yn cael ei weithredu am gyfnod prawf o flwyddyn, gyda ffocws ar fesur canlyniadau clinigol, yn hytrach nag ymateb yn seiliedig ar amser yn unig. Y nod cyfan yw sicrhau bod mwy o bobl yn goroesi digwyddiad sy'n peryglu bywyd, gan gynnwys ataliad y galon, gyda nod hirdymor o wneud Cymru yn genedl o achubwyr bywyd.

Gobeithio bod y cyflwyniad hwn wedi codi eich awydd i ddarllen ymlaen a darganfod mwy. Wrth gwrs, byddem hefyd yn eich annog i fynychu ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ac i gadw llygad ar y cyfryngau cymdeithasol am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf. Yn y cyfamser, diolch i chi gyd am eich cefnogaeth barhaus.

Gyda'n cofion gorau,

Colin Dennis

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth



Jason Killens

Prif Swyddog Gweithredol



CYNNWYS YR ADRODDIAD

CYFLWYNIAD.....	2
GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL	4
RHAN 1: – ADRODDIAD PERFFORMIAD	11
TROSOLWYG O BERFFORMIAD.....	11
1.1. Cyflwyniad.....	11
1.2. Datganiad gan y Prif Swyddog Gweithredol.....	11
1.3. Meysydd Cyfrifoldeb	14
1.4. Ein Diben a'n Strategaeth Hirdymor.....	15
1.5. Y Cynllun Tymor Canolig Integredig	16
1.6. Esblygu Ein Model Gwasanaethau Clinigol Integredig.....	17
1.7. Crynodeb o Berfformiad.....	20
1.7.1 Ein Cleifion – Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf.....	22
1.7.2 Ein Pobl	31
1.7.3 Cyllid a Gwerth	35
1.7.4 Partneriaethau a Chyfraniadau'r System.....	36
1.7.5 Cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig	40
1.7.6 Rheoli Risg	41
DADANSODDIAD O BERFFORMIAD A CHYFLAWNI	42
1.8 Ein Cleifion (Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf).....	42
1.9 Ein Pobl.....	66
1.10 Cyllid a Gwerth	71
1.11 Gwybodaeth Perfformiad Anariannol	73
1.12 Partneriaethau a Chyfraniad y System.....	73
1.13 Atal a Rheoli Heintiau	78
1.14 Cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig	79
1.15 Blaenoriaethau Gweinidogol a GIG Cymru	82

1.16 Amodau Atebolrwydd.....	90
1.17 Rheoli'r Gweithlu a Lles	93
1.18 Gwneud Penderfyniadau a Llywodraethu.....	98
1.19 Casgliadau ac Edrych Ymlaen	102
1.20 Dolenni i Wybodaeth Bellach.....	103
RHAN 2:- ADRODDIAD ATEBOLRWYDD	106
2.1 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.....	107
2.1.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr.....	108
2.1.2 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol.....	115
2.1.3 Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr mewn perthynas â'r Cyfrifon 117	
2.1.4 Y Datganiad Llywodraethu	119
2.2 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi 181	
2.3 Adroddiad ar Dâl a Staff	182
2.4 Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru	200
RHAN 3:- DATGANIADAU ARIANNOL	209



RHESTR TERMAU	
Byrfodd	Term
AAA	Adroddiad Rhybuddio, Cynghori a Sicrhau
ACA1/2	Cynorthwy-ydd Gofal Ambiwylans
ADLT	Tîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol
AGM	Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
APC	Y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd
APPs	Ymarferwyr Parafeddygol Uwch
APR	Adolygiadau Ymarfer Oedolion
ARAC	Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd
ARWAP	Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
BAF	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
BI	Gwybodaeth Busnes
BIPCF	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
CAS	System Asesu Clinigol
CC	Y Pwyllgor Elusen
CCC	Canolfannau Cyswllt Clinigol
CFRs	Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned
CHARU	Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru
CMT	Trawsnewid y Model Clinigol
CPR	Adolygiad Ymarfer Plant
CardioPR	Adfywio Cardio-pwlmonaidd
CRM	Model Ymateb Clinigol
CRR	Y Gofrestr Risg Gorfforaethol
CQGG	Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol
CSD	Desg Gymorth Clinigol
DAP	Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio
DEEE	Allryiadau Egsôst Injan Diesel
DPIA	Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data
EAP	Ymarferydd Ambiwylans Argyfwng
EASC	Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys
EDs	Adrannau Argyfwng
EMS	Gwasanaeth Meddygol Brys
EMT	Technegydd Meddygol Brys
ELT	Tîm Arweinyddiaeth Weithredol

RHESTR TERMAU	
Byrfodd	Term
ePCR	Cofnod Gofal Cleifion Electronig
EPRR	Parodrwydd, Gwydnwch, ac Ymateb i Argyfwng
ESR	Cofnod Staff Electronig
GRS	System Amserlennu Hollgynhwysol
HART	Tîm Ymateb i Ardaloedd Peryglus
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
HSE	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
FPC	Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad
FReM	Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth
FTE	Cyferwerth ag Amser Llawn
HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
ICAP	Cynllun Gweithredu Comisiynu Integredig
SCG	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig
IPC	Atal a Rheoli Heintiau
JCC	Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru
LCFS	Y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol
LRF	Fforwm/Fforymau Lleol Cymru Gydnerth
MAI	Ymchwiliad Arena Manceinion
MHRV	Cerbyd ymateb iechyd meddwl
MIQPR	Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol
PENNA	Gwobrau Rhwydwaith Profiad y Claf Cenedlaethol
NEPTS	Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys
NQP	Parafeddyg Newydd Gymhwyso
NRIs	Digwyddiadau Adroddadwy Cenedlaethol
PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
PADRs	Adolygiadau Perfformiad a Datblygu
PCC	Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
PECI	Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned
OGCC	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
QIA	Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd
QMG	Grŵp Rheoli Ansawdd
QPMF	Fframwaith Ansawdd a Rheoli Perfformiad
QuEST	Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch



RHESTR TERMAU	
Byrfodd	Term
RemCom	Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth
RCRP	Gofal Cywir, y Person Cywir
RCS	Sgrinio Clinigol Cyflym
RICS	Gwasanaeth Gofal Integredig o Bell
RPE	Cyfarpar Diogelu Anadlol
RRB	Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
RIDDOR	Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013
RIF	Cronfa Integreiddio Rhanbarthol
ROSC	Adferiad cylchrediad digymell yn sgil ataliad ar y galon
SCIF	Fforwm Digwyddiadau Clinigol Sylweddol
SDECs	Canolfannau Gofal Brys yr Un Diwrnod
OS	Offeryn Statudol
SOP	Gweithdrefn Weithredu Safonol
SORT	Tîm Ymateb Gweithredol Arbenigol
STB	Bwrdd Trawsnewid Strategol
STEMI	Cnawdnychiant myocardiaidd â dyrchafiad segment ST
SUS	Codi Llais heb Ofn
Yr Ymddiriedolaeth	Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
TRiM	Rhwydwaith Trawma a Rheoli Risg
TU	Undeb Llafur
UCRS	Gwasanaeth Ymateb Brys yn y Gymuned
UCS	Gwasanaeth Gofal Brys
UHP	Cynhyrchiant Oriau Uned
UTS	Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol
WASPT	Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
WHSCC	Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
WRP	Cronfa Risg Cymru
WTEs	Cyferwerth ag Amser Cyflawn

RHAN 1: – ADRODDIAD PERFFORMIAD

TROSOLWG O BERFFORMIAD

1.1. Cyflwyniad

Nod y Trosolwg hwn o Berfformiad yw darparu adroddiad integredig ar ansawdd, diogelwch cleifion, profiad y claf a pherfformiad Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) ar gyfer y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Cynhyrchir yr Adroddiad Perfformiad yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru 2024/25.

1.2. Datganiad gan y Prif Swyddog Gweithredol

Mae'r flwyddyn 2024/25 wedi bod yn flwyddyn heriol arall i'r Ymddiriedolaeth gyda phwysau uchel parhaus ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y pwysau wedi parhau i fod yn uchel, bu rhai gwelliannau mewn perfformiad mewn rhai meysydd.

Oherwydd y pwysau system heriol iawn y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ynddynt a'r effaith ddilynol ar niwed i gleifion y gellir ei osgoi, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth ddechrau gweithredu ei Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol yn 2024/25 a throï agweddau allweddol ar y rhaglen ymlaen ar gyfer, ac yn ystod, gaeaf 2024/25. Mae'r newidiadau hyn, yn benodol sgrinio clinigol cyflym gan glinigwr yn gynnar yn llwybr yr ambiwlans brys, wedi arwain at ostyngiad yn nifer y cleifion sy'n canslo eu galwadau 999 a llai o achosion lle mae'r Ymddiriedolaeth yn dweud "na all anfon" ambiwlans.

Oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth, bu'n rhaid i'r Gwasanaeth 111 weithredu'r System Asesu Clinigol (CAS) 111 newydd ar gyflymder go iawn. Effeithiodd y newid mawr hwn ar recriwtio, a effeithiodd yn ei dro ar berfformiad. Cynyddodd cyfartaledd misol y gyfradd gadael galwadau i 10.4% yn ystod 2024/25, i fyny o 6.2% y flwyddyn flaenorol ac uwchlaw'r targed o 5%. Gostyngodd canran y galwadau a atebwyd o fewn 60 eiliad hefyd, gan ostwng o gyfradd ateb gyfartalog o 55.3% yn 2023/24 i 38.8% yn 2024/25. Ar hyn o bryd

mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgymryd ag adolygiad annibynnol o'i chapasiti 111 a'i harferion amserlennu.

Ar gyfer galwyr 999, ein prif darged yw ymateb i 65% o alwadau Coch (lle mae bywyd yn y fantol) mewn wyth munud. Ni chyflawnodd yr Ymddiriedolaeth y targed hwn yn ystod unrhyw fis yn ystod 2024/25 gyda'r gyfradd ganrannol uchaf o 51.8% yn cael ei chyflawni ym mis Awst; fodd bynnag, gwelodd welliant yn nifer y cleifion o fewn y categori Coch a gyrhaeddwyd o fewn wyth munud o gymharu â'r gyfradd fisol yn cynyddu o 2,227 yn 2023/24 i 2,591 yn 2024/25. Ar 11 Mawrth 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol y byddai'r categori Coch presennol yn cael ei ddisodli gan gategori ataliad a chategori argyfwng newydd o 01 Gorffennaf 2025, gyda'r ffocws yn symud i fesurau o'r gadwyn oroesi a chanlyniadau cleifion hy, achub bywydau, yn hytrach na chyrraedd/methu targed amser.

Gwelodd cleifion yn y categori Oren (difrifol, ond nid yw bywyd yn y fantol) hefyd dirywiad yn eu hamseroedd aros, gyda'r amser aros cyfartalog ar gyfer y flwyddyn yn 1 awr 47 munud, o'i gymharu ag 1 awr 19 munud yn 2023/24. Mae wedi'i nodi bod cydberthynas glir rhwng oriau a gollwyd wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty ac amseroedd ymateb Oren uwch ac mae'r nifer cynyddol o oriau a gollwyd wrth drosglwyddo i'r ysbyty yn parhau i fod yn ffactor allweddol sy'n cyfrannu at yr amseroedd ymateb hwy hyn. Ar y cyfan, mae'r amseroedd aros yn y gymuned ac yn yr ysbyty yn parhau i fod yn llawer rhy hir ac mae'r Ymddiriedolaeth yn gwybod bod niwed y gellir ei osgoi wedi digwydd o ganlyniad. Y rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol yw ymateb strategol yr Ymddiriedolaeth.

Cyrhaeddodd y Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS) ei brif amser apwyntiadau arennol yn ystod naw o'r deuddeg mis yn ystod 2024/25 a chyflawnodd y targed ar gyfer pob un o'r deuddeg mis mewn perthynas â'i apwyntiadau Oncoleg. Er bod prif fetrigau NEPTS yn gadarnhaol, mae'r Ymddiriedolaeth yn gwybod nad yw'n cyrraedd pob claf sydd angen y gwasanaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd amrywiaeth o gamau i helpu i fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys cyflwyno negeseuon testun dwyffordd gyda chleifion, gyda'r nod o leihau cansladau munud olaf; a gwella aliniad y gwasanaeth i alw cleifion. Mae'r

Ymddiriedolaeth hefyd yn ymgysylltu â'i chomisiynwyr ynghylch y capasiti mwy sy'n debygol o fod yn ofynnol i gynnal lefelau gwasanaeth presennol.

Parhaodd yr oriau a gollwyd wrth drosglwyddo cleifion i adrannau achosion brys i fod y brif wastraff o ran adnoddau'r Ymddiriedolaeth. Er bod yr oriau a gollwyd wrth drosglwyddo wedi lleihau yn 2023/24, maent wedi codi dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyfartaleddu 22,003 awr y mis yn ystod 2024/25 o'i gymharu â 21,700 y mis yn 2023/24. Golygai hyn fod yr Ymddiriedolaeth wedi colli 264,393 o oriau ambiwlans dros gyfnod y flwyddyn a gallai fod wedi ymateb i 41,448 yn fwy o gleifion pe na bai'r oriau hyn wedi'u colli.

Er gwaethaf y pwysau parhaus hyn, mae ein pobl wedi parhau i gyflawni, gan gymryd camau i wella gwasanaethau i gleifion ac i staff a gwirfoddolwyr. Cynyddodd yr Ymddiriedolaeth ei niferoedd staffio yn Uned Ymateb Aciwtedd Uchel (CHARU) Cymru i 122.5 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALI), cynyddodd nifer yr Ymarferwyr Parafeddygol Uwch o 24.4 o weithwyr CALI, gwelodd gyfradd tyniadau'r Gwasanaeth Meddygol Brys (EMS) yn cyflawni ei meincnod am dri mis yn olynol, a gostyngodd ei chyfradd absenoldeb salwch misol ymhellach i 7.86%.

Rydym bellach yn ail flwyddyn ein Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol uchelgeisiol, sy'n cynrychioli newid sylfaenol yn y ffordd rydym yn darparu gofal, gan symud tuag at fodel cwbl integredig sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae'r trawsnewid hwn yn hanfodol i'n hamcan strategol i ddarparu'r gofal neu'r cyngor iawn, yn y lle iawn, bob tro.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn agored ac yn dryloyw yn ei hadroddiadau misol ar brofiad cleifion, diogelwch cleifion a pherfformiad ac mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn darparu asesiad teg a chytbwys o berfformiad yr Ymddiriedolaeth.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n holl staff a gwirfoddolwyr, partneriaid golau glas, comisiynwyr, y sector preifat, a'r sector gwirfoddol am eu cefnogaeth barhaus.

Jason Killens

**Prif Swyddog Gweithredol, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau
Ambiwylans Cymru**

Dyddiad: 26 Mehefin 2025

1.3. Meysydd Cyfrifoldeb

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl ledled Cymru, gan ddarparu gofal clinigol o ansawdd uchel sy'n cael ei arwain gan gleifion lle bynnag a phryd bynnag y bo angen.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys y canlynol: -

- Y gwasanaethau ambiwlans brys golau glas: gan gynnwys cymryd galwadau, ymgynghori clinigol o bell, gweld a thrin ac, os oes angen, cludo i ysbyty priodol neu gyfleuster trin.
- NEPTS: gan gynnwys cymryd galwadau, cynllunio teithiau, comisiynu gwasanaethau, mynd â chleifion i apwyntiadau ysbyty ac oddi yno, a'u trosglwyddo rhwng ysbytai a chyfleusterau trin.
- Y gwasanaeth 111: gwefan a gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim, sy'n borth llinell gyntaf i daith glaf o fewn y system iechyd a gofal, gan roi'r cyngor neu'r atgyfeiriad iawn i'r claf.
- Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cefnogi gwirfoddolwyr: Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned, Ymatebwyr Lles Cymunedol ac Ymatebwyr mewn Lifrai i ddarparu adnoddau ymateb ychwanegol ar gyfer galwadau brys a gwasanaeth ceir gwirfoddol i gynorthwyo â chludo cleifion i apwyntiadau wedi'u trefnu.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn wasanaeth a gomisiynwyd ar gyfer EMS, GIG 111 Cymru a Gofal Ambiwllans. O 01 Ebrill 2024 ymlaen, disodlwyd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys a'r Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn gydbwyllgor o'r saith Bwrdd Iechyd, gyda'r Ymddiriedolaeth yn mynychu cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Comisiynu fel arsylwyr. Mae ganddo gyfrifoldeb am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys gan gynnwys GIG 111 Cymru a gwasanaethau arbenigol a ddarparwyd yn flaenrol gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, ar sail Cymru gyfan. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgysylltu'n adeiladol â'r Cyd-bwyllgor Comisiynu a'i strwythurau llywodraethu a'i ystod o fwriadau comisiynu a metrigau dymunol bob blwyddyn.


1.4. Ein Diben a'n Strategaeth Hirdymor

Ein Diben

Yn 2023 mabwysiadwyd ein datganiad o ddiben sefydliadol '**I Gefnogi, I Wasanaethu, I Achub**'. Mae'r datganiad byr ond pwerus hwn yn ceisio disgrifio rheswm 'craidd' y sefydliad dros fod, gan uno pawb tuag at nod cyffredin.



Ein Nodau Strategol



Mae ein Fframwaith Strategol Hirdymor '**Sicrhau Rhagoriaeth**' yn nodi gweledigaeth y sefydliad ar gyfer y dyfodol hyd at 2030. Mae'r strategaeth wedi'i fframio o amgylch trawsnewid ein model gwasanaethau clinigol i sicrhau bod cleifion yn cael y '**cyngor a gofal cywir, yn y lle iawn, bob tro**'. Ein huchelgais yw esblygu o wasanaeth ambiwlans a chludiant traddodiadol, tuag at wasanaeth clinigol integredig sy'n gweithio ar y cyd â'r system iechyd a gofal i ddiwallu anghenion cleifion sy'n cysylltu â ni drwy 111, 999 a'n gwasanaethau di-frys yn y ffordd orau bosibl mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r bunt Gymreig, gan ychwanegu gwerth at y system yr ydym yn gweithio ynddi.



Fodd bynnag, mae Sicrhau Rhagoriaeth yn strategaeth sefydliad cyfan, nid yn unig yn ymwneud â modelau gwasanaeth, ond hefyd â sut yr ydym yn cefnogi ac yn galluogi **ein pobl i fod y gorau y gallant fod**. Rydym hefyd yn ymrwymo o fewn y strategaeth i fod yn sefydliad sy'n **cydweithio** â'n partneriaid, yn aros **ar flaen y gad o ran arloesedd a thechnoleg**, yn cyflawni ein dyletswyddau fel **sefydliad sy'n cael ei llywio gan ansawdd a'i harwain yn glinigol** sy'n darparu **gwerth** eithriadol. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein Cynllun Tymor Canolig Integredig o amgylch y strategaeth hon a'i **chwe nod strategol craidd**.

1.5. Y Cynllun Tymor Canolig Integredig

Ar lefel sefydliadol, mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi, ar sail dreigl tair blynedd, y camau gweithredu â blaenoriaeth y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i'w symud tuag at ei hamcanion strategol. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn ystyried y canllawiau cynllunio cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yr amgylchedd allanol y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ynddo gan gynnwys gofynion statudol a bwriadau comisiynu, y risgiau y mae'n eu rheoli, yn ogystal â gwybodaeth a gasglwyd gan gleifion, staff a gwirfoddolwyr.

Yn benodol, roedd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth fynegi drwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig sut yr oedd yn bwriadu cyflawni'r blaenoriaethau a osodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-27 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2024, ac fe'i cymeradwywyd yn ffurfiol ym mis Awst 2024. Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ei pherfformiad yn erbyn yr ymrwymadau yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy olrhain camau gweithredu a thargedau i'w cyflawni yn y Bwrdd Trawsnewid Strategol a thrwy ddadansoddi metrigau allweddol yn yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol.

Yn 2024 fe wnaethom hefyd ddatblygu set o ddatganiadau i ystyried sut olwg fyddai ar dda o ganlyniad i newid trawsnewidiol a chyflenwi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r graffig isod yn dangos ein bod mewn rhai meysydd yn symud tuag at y sefyllfa yr oeddem am fod ynddo, fel y nodwyd y llynedd, ond rydym yn gwybod bod rhai meysydd wedi gwaethygu o hyd, ac mae angen gwelliant pellach eleni i

fynd i'r afael â'r meysydd hyn, yn ogystal â symud y canlyniadau ymhellach tuag at y canlyniadau a ragwelir a nodir yn ein cynlluniau.



1.6 Esblygu Ein Model Gwasanaethau Clinigol Integredig

Rydym bellach yn ail flwyddyn ein Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol uchelgeisiol, gan ddatblygu ein Model Ymateb Clinigol yn Fodel Gwasanaethau Clinigol integredig. Mae'r trawsnewid hwn yn hanfodol i'n hamcan strategol i ddarparu'r **gofal neu'r cyngor cywir, yn y lle iawn, bob tro.**

Mae'r rhaglen yn cynrychioli newid sylfaenol yn y ffordd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn darparu gofal, gan drawsnewid o ffocws ymateb brys sy'n seiliedig ar gludiant i fodel integredig, sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n cysylltu ein gwasanaethau craidd yn system gydlynol. Mae'r dull hwn yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddiwallu anghenion

gofal iechyd pobl Cymru yn well drwy gynnig ystod ehangach o opsiynau gofal, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghenion brys ac anghenion argyfwng yn y gymuned.

Yn ei flwyddyn gyntaf, fe wnaeth y rhaglen flaenoriaethu datblygiadau gwasanaeth cyflym i wella diogelwch dros gyfnod y gaeaf. Eleni, rydym yn gosod y sylfaen ar gyfer gwasanaeth cwbl integredig wrth ddyfnhau cydweithio â phartneriaid system i fireinio a phrofi'r model arfaethedig, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng ehangach.

Mae'r rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol datblygedig wedi'i gynllunio i gael ei arwain yn glinigol, ei ganolbwyntio ar y claf a'i integreiddio ar draws gwasanaethau lluosog. Er mwyn cyflawni'r trawsnewid hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Gwreiddio gwneud penderfyniadau dan arweiniad clinigol:** Bydd arbenigedd clinigol yn arwain penderfyniadau gofal o gyswllt cyntaf gyda'r claf, gan sicrhau ymatebion amserol, personol, lleihau ymyriadau diangen a gwella canlyniadau.
- **Gwella cysylltedd system:** Bydd systemau, prosesau a'n pobl yn cael eu hintegreiddio ar draws yr Ymddiriedolaeth a'u hategu gan atebion digidol i ddarparu profiadau cyson i gleifion a sicrhau'r effeithlonrwydd adnoddau mwyaf posibl.
- **Cynnig dewis trwy opsiynau ymateb amrywiol:** Bydd ehangu llwybrau ymateb yn galluogi triniaethau diogel yn y gymuned tra'n sicrhau bod anfon ambiwlansys yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer anghenion critigol.
- **Cryfhau llwybrau cydweithredol:** Bydd partneriaethau gyda Byrddau Iechyd, comisiynwyr, a gwasanaethau cymunedol yn cael eu datblygu i greu llwybrau gofal a rennir, gan alluogi staff i gysylltu cleifion â'r gwasanaethau lleol mwyaf priodol.

Mae'r rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol wedi'i strwythuro o amgylch pum ffrwd waith graidd, wedi'u cefnogi gan fframwaith llywodraethu traws-sefydliadol i sicrhau aliniad â blaenoriaethau strategol a defnydd effeithlon o adnoddau: -

Cyngor Digidol Ar-lein

Byddwn yn darparu platfform digidol modern, integredig i gleifion drwy GIG111 Cymru. Bydd y platfform hwn yn gwella hygyrchedd at wybodaeth iechyd amserol a chywir.

Gwasanaeth Gofal Integredig o Bell (RICS)

Y gwasanaeth cwbl integredig hwn fydd conglfaen ein model gwasanaethau clinigol integredig. Bydd gan glinigwyr fynediad at ystod ehangach o lwybrau clinigol yn fewnol ac o fewn Byrddau Iechyd, gan gynnwys monitro o bell ac adnoddau arbenigol, gan sicrhau gofal personol. Ein bwriad yw alinio llwybrau a phrosesau ond hefyd dod â chapasiti clinigol o bell ynghyd yn y Ddesg Gymorth Clinigol ac 111 fel tîm asesu clinigol o bell integredig yn 2025/26.

Gwasanaeth Ymateb Cymunedol Brys (UCRS)

Lle nad oes llwybrau gofal presennol yn bodoli yn y gymuned, byddwn yn gweithredu dull cyson o ddarparu gofal cymunedol brys ledled Cymru. Mae cynnig y gwasanaeth hwn wedi'i gynllunio i ddiwallu'n well anghenion ein cleifion sy'n cyflwyno drwy 999 ac 111, lle yn hanesyddol byddai anfon ambiwlans wedi bod yr unig opsiwn. Bydd yn cynnwys ymyriadau wyneb yn wyneb, megis ymateb cyflym i gwympiadau, gofal parafeddygol uwch, ac ymyrraeth mewn argyfwng iechyd meddwl. Bydd y dull hwn yn gwella mynediad at ofal yn y gymuned, yn atal trawsgludiad diangen i adrannau achosion brys, ac yn sicrhau darpariaeth deg o wasanaethau.

Gwasanaeth Ymateb Brys

Bydd ein model ymateb brys traddodiadol yn newid i system â blaenoriaeth glinigol, gan ymgorffori sgrinio clinigol cyflym ar gyfer galwadau 999. Bydd hyn yn sicrhau bod achosion brys yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar angen clinigol, gan alluogi ymatebion amserol ar gyfer digwyddiadau critigol wrth gysylltu cleifion eraill â llwybrau gofal o bell neu gymunedol priodol.

Yn 2024/25, cyflwynwyd rôl y Llywiwr Clinigol – uwch glinigwyr sy'n asesu galwadau sy'n dod i mewn i weld a ydynt yn addas ar gyfer rheolaeth o bell drwy'r RICS. Mae'r arloesedd hwn yn gwella goruchwyliaeth glinigol ac yn galluogi dull mwy craff o

flaenoriaethu cleifion, gan ganolbwyntio ar ba ofal sydd ei angen yn hytrach na gorfod anfon ambiwlansys yn ddiodyn.

Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom weithredu RCS ar gyfer galwadau categori Gwyrdd ac Oren trwy gyflwyniad graddol, a gwblhawyd erbyn mis Chwefror 2025. Mae data cynnar yn dangos bod 75% o achosion a sgriniwyd yn addas ar gyfer rheolaeth bellach o bell, gyda chyfraddau ymgynghori a chau yn agosáu at dargedau wedi'u modelu, gan ddangos potensial y system i wella llif cleifion a chanlyniadau gofal.

Gwasanaeth Cludiant Iechyd

Bydd gan gleifion sydd ag anghenion gofal arferol hysbys fynediad amserol at wasanaeth cludiant iechyd ymatebol, wedi'i gynllunio sy'n cysylltu'n ddi-dor â'r system gofal ehangach. Yn dilyn ymyrraeth RICS, bydd teithiau addas yn cael eu nodi a'u cydlynu trwy fodel trafndiaeth integredig sy'n optimeiddio adnoddau ac yn cefnogi trosglwyddo diogel ac effeithlon i'r lle gofal cywir. Bydd y system hon yn lleihau anfon cleifion diangen, yn gwella llif ar draws gwasanaethau, ac yn gwella profiad cyffredinol y claf ar gyfer gofal wedi'i drefnu a gofal di-frys.

Mae'r rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol yn cynrychioli newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym yn darparu gofal, gan symud tuag at fodel cwbl integredig sy'n canolbwyntio ar y claf. Trwy drosoli arloesedd, meithrin cydweithio, a gwreiddio arweinyddiaeth glinigol, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n parhau i ymateb i anghenion ein cymunedau. Nid yw'r trawsnewidiad hwn yn ymwneud â chwrdd â'r heriau cyfredol yn unig ond ag adeiladu system gofal iechyd wydn ar gyfer y dyfodol – un sy'n darparu'r gofal neu'r cyngor cywir, yn y lle iawn, bob tro.


1.7 Crynodeb o Berfformiad

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad, wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Un o ofynion y Fframwaith yw edrych ar ansawdd a pherfformiad mewn ffordd gytbwys a chyson. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio pedair lens i wneud hynny:-

- Ein Cleifion;
- Ein Pobl;
- Cyllid a Gwerth; a
- Phartneriaethau a Chyfraniad y System.

Defnyddir y pedwar pennawd hyn yn yr adrannau canlynol i adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn 2024/25 ac maent yn seiliedig ar ‘nodau pedwarplyg’ Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Bob dau fis, mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn (Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol yn ystod y flwyddyn sy'n rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran dangosyddion perfformiad allweddol yn erbyn y pedwar pennawd hyn. Ategir yr adroddiad lefel uchaf hwn gan ystod gynhwysfawr o adroddiadau mwy penodol i bob Pwyllgor Bwrdd ac i'r Tîm Arwain Gweithredol.

Datblygiad allweddol dilynol fu cyhoeddi Chwe Nod y Gweinidog ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, sy'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol, sector annibynnol a'r trydydd sector ar gyfer darparu'r gofal iawn, yn y lle iawn y tro cyntaf ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl.




1.7.1 Ein Cleifion – Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf


Gwasanaeth GIG111 Cymru

I lawer o gleifion yr Ymddiriedolaeth, y pwynt cyswllt cyntaf â'r Ymddiriedolaeth yw'r **gwasanaeth 111**, sydd wedi bod yn fyw ledled Cymru gyfan ers dechrau 2022. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae nifer y galwadau a dderbyniwyd i'r gwasanaeth 111 wedi cynyddu, gan godi o 970,684 o alwadau 111 yn 2023/24 i 1,002,211 o alwadau yn 2024/25.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu drwy amseroedd ateb galwadau, gadael galwadau ac amseroedd ffonio'n ôl clinigol. Gwelodd perfformiad yn y maes hwn ostyngiad yn ystod dechrau 2024/25, yn bennaf oherwydd gweithredu'r system 111CAS newydd, a aeth yn fyw ar 30 Ebrill 2024. Yn y cyfnod cyn y gweithrediad hwn, cafodd staff eu tynnu allan ar gyfer hyfforddiant ac yn ogystal, cafodd recriwtio ei oedi. Ar ôl mynd yn fyw roedd staff yn ymgyfarwyddo â'r system, a chafodd hyn effaith bellach ar effeithlonrwydd. Er bod perfformiad wedi dechrau gwella o fis Mehefin 2024, cafodd pwysau'r gaeaf a lefelau uchel o absenoldeb oherwydd salwch ym mis Rhagfyr 2024 effaith bellach.



Mae'r graff uchod yn dangos mai dim ond 38.8% o alwadau a atebwyd o fewn y targed o 60 eiliad yn ystod 2024/25, o'i gymharu â 54.8% yn 2023/24. Cynyddodd cyfraddau gadael o gyfartaledd o 6.6% yn 2023/24 i 10.4% yn ystod 2024/25, gyda'r targed o 5% heb ei gyflawni yn ystod unrhyw un o'r 12 mis.




O ran ffonio yn ôl clinigol ar gyfer brysbennu, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r targed un awr, sef 90%, yn gyson ar gyfer cleifion â'r flaenoriaeth uchaf (Brysbennu Clinigol â Blaenoriaeth 1 – P1CT), sef 95.6% ar gyfartaledd yn ystod 2024/25. Dirywiodd perfformiad ar gyfer galwadau blaenoriaeth is, ar ôl cyrraedd y targed o 90% rhwng mis Awst a mis Hydref, yn ail hanner y flwyddyn, gan ostwng i oddeutu 60% ym mis Ionawr 2025. Ar gyfer y flwyddyn roedd hyn yn golygu bod, ar gyfartaledd, 81.6% o gleifion a flaenoriaethwyd fel Brysbennu Clinigol â Blaenoriaeth 2 (P2CT) wedi derbyn galwad glinigol yn ôl o fewn dwy awr i ddiwedd y cyswllt cyntaf ac 78.9% o gleifion a flaenoriaethwyd fel Brysbennu Clinigol â Blaenoriaeth 3 (P3CT) wedi derbyn galwad yn ôl o fewn 4 awr i'r cyswllt cyntaf.

Gwasanaethau Meddygol Brys (galwadau 999)

O fewn EMS, er gwaethaf y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn, mae'r pwysau parhaus ar y system, yn benodol, oedi gormodol wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty, wedi arwain at amseroedd aros annerbyniol o hir am ambiwlans sydd yn eu tro wedi cyfrannu'n uniongyrchol at niwed y gellir ei osgoi i gleifion.


Gall niwed ddigwydd i gleifion sydd wedi aros yn rhy hir am ymateb yn y gymuned, i'r rhai sy'n aros yng nghefn ambiwlans i gael eu trosglwyddo i adran argyfwng, neu i'r rhai na allwn anfon ambiwlans atynt ar adegau'r difrifoldeb mwyaf. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiad manwl ym mhob un o'i gyfarfodydd ar y camau sy'n cael eu cymryd i leihau a lliniaru'r niwed y gellir ei osgoi.

Targed yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2024/25 oedd ymateb i 65% o alwadau 999 lle mae bywyd yn y fantol (galwadau Coch) o fewn wyth munud. Er gwaethaf cynnydd tymhorol bach mewn perfformiad, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweld unrhyw welliant hirdymor clir yn erbyn y targed hwn dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r cyfartaledd ar gyfer y flwyddyn o 48.7% yn ddirywiad ymylol o'r 50.4% a welwyd yn ystod 2023/24.





Fodd bynnag, bu cynnydd clir yn nifer y digwyddiadau Coch a fynychwyd o fewn wyth munud, fel y gwelir yn y graff isod. Yn 2022/23 roedd yr Ymddiriedolaeth yn mynychu cyfartaledd o 1,966 o ddigwyddiadau Coch y mis; yn ystod 2023/24 cododd y ffigur hwn i 2,227, ac yn ystod 2024/25 cynyddodd y ffigur hwn eto i 2,591. Byddai

hyn yn dynodi gwelliant yn y perfformiad cyffredinol, ond oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau Coch a ddilyswyd dros y flwyddyn ddiwethaf (cynnydd o 20.5%) nid yw hyn wedi'i efelychu o fewn ffigurau canran yr wyth Coch.




Ar gyfer cleifion yn ein categori Oren 1 (difrifol ond nad yw bywyd yn y fantol), nid oes targed penodol wedi'i osod ar gyfer amseroedd ymateb, ond yn achos galwadau sy'n cynnwys y rhai ar gyfer strôc ac ataliad y galon, yn ddelfrydol, byddai'r Ymddiriedolaeth am ymateb o fewn 18 munud ar gyfartaledd. Yr amser ymateb misol cyfartalog ar gyfer Oren 1 yn ystod 2024/25 oedd 1 awr 41 munud.



O ran y digwyddiadau mwyaf difrifol, adroddodd yr Ymddiriedolaeth am 53 Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol (NRI) cleifion yn 2024/25 o gymharu â 56 yn 2023/24. Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn, ond nid pob un ohonynt, yn ymwneud â gwasanaeth 999 yr Ymddiriedolaeth. Gostyngodd nifer y digwyddiadau a adolygwyd yn y Fforwm Digwyddiadau Clinigol Sylweddol (SCIF) a adroddwyd i'r Byrddau Iechyd o dan y Fframwaith Ymchwilio ar y Cyd ychydig, o 173 yn 2023/24 i

166 yn 2024/25, er y gwelwyd cynnydd yn chwarter olaf 2024/25. Mae'r rhain yn aml o ganlyniad i arosiadau hir yn y gymuned wedi'u hachosi gan oedi wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai.

Mae yna lawer o resymau dros amseroedd ymateb hwy, sy'n cynnwys cynnydd yn y galw am alwadau Coch a chraffter cyffredinol, colli capasiti oherwydd absenoldebau uwch na'r meincnod (cyflawni'r meincnod erbyn diwedd y flwyddyn) ac oedi eithafol wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai. Mae cydberthynas amlwg rhwng yr ail ffactor ac amseroedd ymateb uwch, yn enwedig wrth ystyried ymatebion i ddigwyddiadau Oren, fel y gwelir yn y graff isod.




Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgymryd â nifer o fentrau i gael effaith gadarnhaol ar amseroedd ymateb ac ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Recriwtio: gyda 95% o swyddi rheng flaen a gomisiynwyd bellach yn eu lle.
- Parhau i weithredu'r uned CHARU y mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi tyfu i 122.5 o weithwyr CALI; dim ond 18 yn brin o'i tharged Cymru gyfan o 140.5 o weithwyr CALI.

- Mae'r Rhaglen Rheoli Presenoldeb yn parhau i gael ei darparu drwy'r cynllun deg pwynt, gyda gostyngiad mewn lefelau salwch cyffredinol yn ystod 2024. Mae gwaith yn parhau gyda'r nod o ostwng i 6%.
- Gweithredu Sgrinio Clinigol Cyflym.

Mae perfformiad sylweddol gwell yn dal i fod yn ddibynnol ar oedi wrth drosglwyddo i'r ysbyty yn lleihau yn unol â disgwyliadau Gweinidogion, ac nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn mesur ac yn monitro pum dangosydd clinigol, sef Torri Gwddf y Ffemwr, Strôc, Cnawdnychiant Myocardiaidd â dyrchafiad ST (STEMI), Hypoglycemia ac Adferiad Cylchrediad Digymell (ROSC). Wedi'i gyflwyno trwy 2022, mae'r Cofnod Clinigol Claf electronig (ePCR) bellach wedi'i ymgorffori'n llawn yn yr Ymddiriedolaeth ac mae wedi gwella casglu a rhannu gwybodaeth glinigol yn sylweddol. Fel y rhagwelwyd, mae hyn wedi arwain at welliannau yng nghyflawnder a chywirdeb casglu data clinigol, gan gefnogi adrodd mwy cadarn ar y pum dangosydd clinigol allweddol.


Mae'r graff isod yn dangos nifer y cleifion a brofodd ROSC yn yr ysbyty ar gyfer y flwyddyn 2024/25. Er bod y metrig hwn yn parhau i fod yn is nag y byddai'r Ymddiriedolaeth ei eisiau, mae'n dangos gwelliant graddol ar 2023/24.



O'r dangosyddion clinigol allweddol eraill, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn mesur y targed o 95% gan yr un ohonynt yn ystod 2024/25, er bod rhai gwelliannau sylweddol mewn perfformiad wedi'u gweld mewn sawl maes.

Gwelwyd gwelliannau hefyd yng nghanran y bobl hŷn yr amheuir eu bod wedi torri'r glun ac sydd wedi'u dogfennu fel rhai sy'n derbyn y bwndel gofal priodol; canran y cleifion STEMI sydd wedi'u dogfennu fel rhai sy'n derbyn y bwndel gofal priodol; canran y cleifion hypoglycaemig sydd wedi'u dogfennu fel rhai sy'n derbyn y bwndel gofal priodol, a chanran y cleifion strôc yr amheuir eu bod wedi'u dogfennu fel rhai sy'n derbyn y bwndel gofal priodol, gyda'r ffigur ar gyfer mis Mawrth 2025 o 91.6% yn welliant ar y 72.8% a adroddwyd ar gyfer mis Mawrth 2024.

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd bellach yn adrodd ar amseroedd galwad i'r drws ar gyfer cleifion Strôc a STEMI, sy'n crynhoi'r cyfanswm o amser o dderbyn yr alwad i gyrraedd y claf yn yr ysbyty. Fel mae'r graff isod ar gyfer cleifion Strôc yn ei ddangos, mae'r rhain wedi dirywio ychydig yn ystod 2024/25, gyda chyfartaledd o ddwy awr a 31 munud o'i gymharu â dwy awr a 10 munud yn 2023/24.




Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu'r uned CHARU, sydd wedi'i gyflwyno i gael effaith uniongyrchol ar fetrig ROSC. Nod y gwasanaeth hwn yw darparu arweinyddiaeth glinigol yn y fan a'r lle ar gyfer digwyddiadau aciwtedd uchel gan barafeddyg profiadol gyda meddyginiaethau a hyfforddiant ychwanegol. Maent yn

cefnogi gwneud penderfyniadau clinigol, yn cydlynu gofal cleifion ac yn sicrhau bod arfer clinigol yn cyd-fynd â chanllawiau arfer gorau cyfredol i wella canlyniadau cyffredinol.

Gofal Ambiwylans

O ran gwasanaeth **Gofal Ambiwylans** yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys NEPTS, nid yw'r galw wedi dychwelyd i lefelau cyn Covid-19 eto; ond mae cymhlethdod y gwasanaeth wedi cynyddu yn dilyn ad-drefnu systemau gofal wedi'i gynllunio gan Fyrddau lechyd gan gynyddu pellter a chymhlethdod teithiau. Mae yna lefel uchel o ansicrwydd o hyd ynghylch y galw wrth i Fyrddau lechyd barhau i symud trwy newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys rhagor o glinigau penwythnos. Mae adolygiad rhestr ddyletswyddau genedlaethol ar y gweill ar hyn o bryd sy'n ddarn o waith cymhleth iawn, ac sydd â'r potensial i wella effeithlonrwydd; ond bydd yn heriol i'w gyflawni. Mae hwn yn wasanaeth swmpus, gyda 567,000 a mwy o siwrneiau cleifion yn ystod y flwyddyn.



Mae ansawdd y gwasanaeth i gleifion yn cael ei fesur drwy fetrigau sy'n ystyried a yw cleifion yn cael eu cludo i'w hapwyntiadau ysbyty ac oddi yno mewn modd amserol a chyflwynwyd safonau perfformiad newydd ym mis Ebrill 2023. Mae targedau'n cael

eu cyrraedd ar gyfer y rhan fwyaf o gleifion, gyda chyfartaledd o 71% o deithiau arenol a chyfartaledd o 78% o deithiau trosglwyddo a rhyddhau a archebwyd ymlaen llaw yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae data arolwg cleifion yn gadarnhaol, gyda chyfraddau boddhad yn cynyddu i 87.3% erbyn diwedd y flwyddyn.

Rheoli Ansawdd

Mae gan yr Ymddiriedolaeth darged o 75% ar gyfer ymateb i bryderon cleifion o fewn 30 diwrnod, er bod hyn yn parhau i fod yn heriol ac nad yw wedi'i gyflawni mewn unrhyw fis yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ym mis Mawrth 2025 roedd ein cydymffurfedd yn 55% ar gyfer ymateb i bryderon cleifion a theuluoedd o fewn y cyfnod o 30 diwrnod.

Mae panel amlddisgyblaethol yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu digwyddiadau i sicrhau bod ymchwiliadau priodol yn cael eu cynnal. Cynhelir ymchwiliadau ar y cyd â chydweithwyr yn y Byrddau Iechyd i sicrhau bod gwelliannau'n cwmpasu llwybr cyfan y claf. Trafodir y trefniadau Llywodraethu Ansawdd yn fanylach yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Mae Tîm Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned (PECI) yn parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd i wrando, casglu ac adrodd ar eu profiadau o gael at ofal a derbyn gofal ar draws holl wasanaethau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r adborth a gasglwyd ac a adroddwyd yn dangos sut mae profiad y claf yn ddangosydd allweddol o lefel yr ansawdd a ddarperir a'r angen i wella profiadau cleifion, diogelwch cleifion, a chanlyniadau cleifion.


1.7.2 Ein Pobl

Mewn perthynas â gweithlu'r Ymddiriedolaeth, mae'r dangosyddion a adolygwyd yn y Bwrdd yn ymwneud ag a oes gan yr Ymddiriedolaeth y capasiti gweithlu cywir i ateb y galw, sut mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw staff yn ddiogel ac yn iach, a sut y maent yn cael eu datblygu. Ystyrir dangosyddion manylach a niferus hefyd yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Roedd gan yr Ymddiriedolaeth niferoedd staffio cyllidebol o 1,823 o weithwyr CALL ar gyfer EMS yn 2023/24. Cynyddodd y niferoedd staffio i 1,904 weithwyr CALL yn

2024/25. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Ymddiriedolaethau i rolau sy'n tyfu fel CHARU ac Ymarferwyr Parafeddygol Uwch yn EMS sydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y niferoedd staffio arfaethedig. Cynyddodd niferoedd CHARU i 122.5 o weithwyr CALL yn ystod 2024/25, tra tyfodd niferoedd staffio Ymarferwyr Parafeddygol Uwch o 88.5 i 112.9 (twf o 24.4 o weithwyr CALL). Mae mwyafrif yr Ymarferwyr Parafeddygol Uwch hyn wrthi'n ymgymryd â'u cwrs MSc mewn Ymarfer Uwch, ac rydym yn disgwyl gweld budd y recriwtio hwn yn ail chwarter 2025/26.


Mae'r graff isod yn dangos nifer yr oriau uned ambiwlans EMS y mae'n gallu eu cynhyrchu yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn amlygu ei bod wedi aros yn sefydlog. Yn 2024/25, cynhyrchwyd 1,444,419 o oriau gwirioneddol o gymharu â 1,444,431 o oriau yn 2023/24. Mae'r oriau hyn yn gynydd sylweddol yn nifer yr oriau EMS a gynhyrchwyd o'i gymharu â blynyddoedd cyn 2023; ond mae'r cynnydd hwn wedi'i leddfu gan y nifer uchel parhaus o oriau a gollwyd oherwydd trosglwyddiadau yn yr ysbyty.



Ffactor allweddol arall yng ngallu'r Ymddiriedolaeth i sicrhau capasiti i fodloni'r galw yw effaith tynnu staff o'r rota gwaith, ac mae hyn hefyd yn darparu dangosydd o lesiant ein pobl. Er mwyn cefnogi'r gweithlu, canolbwyntiwyd yn barhaus ar


weithgareddau lles ar draws pob rhan o'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y rhai mewn rolau rheng flaen a rolau cymorth.

Er gwaethaf hyn, mae salwch wedi parhau i fod yn un o'r prif achosion dros dynnu staff o'r rota, er bod y graff isod yn dangos bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda ffigur diwedd blwyddyn 2025 o 7.82% yn is na'r 8.54% a welwyd ym mis Mawrth 2024. Mae hyn er gwaethaf pwysau parhaus ar y system, y tu hwnt i reolaeth yr Ymddiriedolaeth, sydd ag effaith negyddol ar lesiant staff.




Cyrhaeddodd cyfraddau Hyfforddiant Statudol a Gorfodol y targed cyffredinol o 85% ar ddiwedd y flwyddyn, gan gofnodi uwchlaw'r gyfradd hon am bedwar mis olaf y flwyddyn. Mae hyn yn dilyn gwelliant graddol a welwyd ers mis Ionawr 2024.

Dangosir hyn yn y graff isod:




O ran datblygiad staff, mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn mai lefelau Adolygiadau Gwerthuso a Datblygu Personol (AGDP) yw'r ffordd orau o gynrychioli datblygiad ar lefel uchel. Er bod ffigur diwedd y flwyddyn ar gyfer 2024/25 o 79.8% wedi methu â chyflawni'r targed o 85%, mae wedi dangos gwelliant graddol cynaliadwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf.



1.7.3 Cyllid a Gwerth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu nifer o ddangosyddion sy'n ceisio dangos sut y mae'n darparu gwasanaeth yn unol â dyletswyddau ariannol statudol, ac o werth ac effeithlonrwydd uchel. Bydd y maes hwn o'r Adroddiad Perfformiad yn cael ei gryfhau dros amser wrth i'r rhaglen gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth barhau. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol yn 2024/25, gyda gwagedd refeniw bach o £70,000 ochr yn ochr â chyflawni gwariant cyfalaf o fewn y Terfyn Gwariant Cyfalaf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gyflawni ei dyletswydd statudol i adennill costau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.




Cyflawnwyd arbedion gros o £6.838m yn erbyn targed o £6.421m, felly cafwyd or-gyflawniad o oddeutu 6.5%. Roedd Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus ar y trywydd iawn, gyda pherfformiad o 97.7% ar gyfer y nifer, a 98.9% ar gyfer gwerth, yr

anfonebau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG a dalwyd o fewn 30 diwrnod (targed o 95%). Ceir rhagor o wybodaeth yng nghyfrifon blynyddol a datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, a baratowyd ar sail busnes gweithredol.

1.7.4 Partneriaethau a Chyfraniadau'r System

Nod yr Ymddiriedolaeth yw ystyried ei heffaith ar y system ehangach, ond hefyd effaith y system ehangach ar ei gwasanaeth. Er bod oriau coll wrth drosglwyddo wedi lleihau yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23, maent wedi codi eto dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gyfartaleddu 22,003 awr y mis yn ystod 2024/25 o'i gymharu â 21,700 y mis yn 2023/24. Mae'r ffigur hwn yn parhau i fod yn eithafol ac yn cyfateb i 1,834 o sifftiau deuddeg awr ac yn golygu y gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi ymateb i dros 3,454 yn fwy o gleifion bob mis pe bai trosglwyddiadau wedi'u lleihau. Cyfanswm yr oriau ambiwlans a gollwyd yn ystod 2024/25 oedd 264,393, sy'n golygu bod yr Ymddiriedolaeth yn colli rhwng chwarter a thraean o'i chynhyrchiant ambiwlansys cludo.




Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol bod Byrddau Iechyd wedi cyflwyno fframweithiau galw cynyddol gofal brys a brys yn ystod 2024 i geisio lleihau'r oriau a gollwyd wrth drosglwyddo, yn dilyn negeseuon cryf gan Lywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol bod yn rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn fel mater o flaenoriaeth.

Er bod lefelau cyffredinol drwy gydol y flwyddyn wedi cynyddu, roedd rhai arwyddion cadarnhaol ym mis Chwefror a mis Mawrth 2025, gyda'r ddau fis yn dangos gostyngiadau sylweddol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Er ei fod yn ddyddiau cynnar, gall hyn fod yn rhannol oherwydd y gostyngiad yn nifer y cludiadau a welwyd i adrannau achosion brys ers cyflwyno'r broses Sgrinio Clinigol o Bell, fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol.


Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i drawsnewid ei gwasanaethau i ddod yn fwy cynaliadwy, i gael cleifion i'r gwasanaeth cywir, yn y lle iawn, bob tro, ac i leihau'r ddibyniaeth ar adrannau achosion brys fel y lleoliad diodyn ar gyfer gofal diffiniol brys ac mewn argyfwng, rhywbeth sydd ar flaen y gad yn y rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol newydd.

Un o'r prif feysydd lle mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi helpu'r system i leihau'r galw yw Ymgynghori a Chau, trwy waith y Ddesg Gymorth Clinigol ac 111. Gosodwyd targed 'Ymgynghori a Chau' LIC ar gyfer 2024/25 ar 17%. Bu rhai problemau gyda chasglu data ar y metrig hwn o fis Hydref 2024, o ganlyniad i ymateb i system newydd GIG 111 Cymru a dehongli data i nodi digwyddiadau sy'n tarddu drwy 999 yn gywir. Fodd bynnag, yn dilyn adrodd mwy cadarn, mae data diweddar yn awgrymu bod y ffigur dros y 4 mis diwethaf wedi bod tua 20% ar gyfartaledd, fel y nodir yn y graff isod.



Ffocws yr Ymddiriedolaeth yw trin mwy o gleifion trwy 'Ymgynghori a Chau', 'Gweld a Thrin' a llwybrau, gan osgoi'r angen i gludo i'r adran achosion brys. Mae cyfraddau 'Gweld a Thrin' a'r rhai sy'n cael eu trin yn y fan a'r lle wedi cynyddu ychydig yn erbyn digwyddiadau a ddilyswyd flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan godi o gyfartaledd misol o 17.1% yn 2023/24 i 17.8% yn 2024/25.

Mae nifer y trosglwyddiadau i adran achosion brys fawr wedi gostwng dros y flwyddyn ddiwethaf, o 159,472 yn 2023/24 i 145,698 yn 2024/25. Mae hyn hefyd dros gyfnod pan gynyddodd nifer y digwyddiadau Coch, lle mae'r claf wedi bod yn ddifrifol wael, gan 20.4%.



Elfen allweddol arall o strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth yw bod mwy o barafeddygon nag erioed o'r blaen yn cael eu cefnogi i ymgymryd ag addysg bellach i ddod yn Ymarferwyr Parafeddygol Uwch, gyda thystiolaeth yn dangos bod yr wybodaeth a'r sgiliau ychwanegol yn lleihau cyfraddau cludo i'r ysbyty. Yn ystod 2024/25 tyfodd niferoedd staffio Ymarferwyr Parafeddygol Uwch o 88.5 i 112.9 (twf o 24.4 o weithwyr CALI).

Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn aelod o bob un o'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, neu is-strwythur o hynny yn achos Gwent yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan y gwasanaeth lais bellach yn y fforymau gwneud penderfyniadau strategol hyn, gyda phartneriaid statudol eraill, partneriaid cymunedol a'r trydydd sector; sy'n gymorth pellach i gyflawni strategaeth hirdymor y gwasanaeth.


Cynrychiolir yr Ymddiriedolaeth yn y fforymau hyn gan y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, sydd hefyd ar hyn o bryd yn Is-gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, a Chyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad. Mae aelodaeth o'r fforymau hyn yn helpu'r Ymddiriedolaeth gyda'i hymgysylltiad, dylanwadu a deall heriau a chyfluoedd cyffredin, ond mae ganddo hefyd fanteision diriaethol, er enghraifft, o ran darparu mynediad at lifoedd ariannu amgen, megis y Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF).

Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gobeithio dod o dan nawdd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn 2023/24, cafodd hyn ei ohirio a chafodd ei sefydlu o 30 Mehefin 2024. Yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i weithio o fewn ysbryd y Ddeddf, sy'n cynnwys datblygu a chyhoeddi ei hamcanion lles a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2025. Gellir gweld yr amcanion a osodwyd gan yr Ymddiriedolaeth ar wefan yr Ymddiriedolaeth: [Ein Hamcanion Llesiant: Canolbwyntio ar y Dyfodol.](#)

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnewyddu ei fframwaith ymgysylltu a'i chynllun cyflawni. Mae'r fframwaith a ffocws cynlluniedig ar weithio gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar atebion newydd i'r Ymddiriedolaeth fel gwasanaeth ambiwlans, tra'n cael effaith gadarnhaol ar y system iechyd a gofal ehangach. Bydd rhaglen o ymgysylltu cadarnhaol â'n rhanddeiliaid, cleifion a'r cyhoedd yn parhau yn 2025/26 ar sut y gall yr Ymddiriedolaeth sicrhau bod ei gwasanaethau'n diwallu anghenion y bobl y mae'n eu gwasanaethu yn well wrth symud ymlaen.

1.7.5 Cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

Adolygwyd strwythur cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn 2024, a daethpwyd â rhaglenni trawsnewid blaenorol o dan ymbarél un Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol gyda chamau gweithredu y Cynllun Tymor Canolig Integredig ehangach yn cael eu cyflawni trwy gynlluniau'r Gyfarwyddiaeth. Mae rhaglenni gwaith Cynllun Tymor Canolig Integredig dan arweiniad Trawsnewid y Model Clinigol a'r Gyfarwyddiaeth ill dau yn adrodd i'r Bwrdd Trawsnewid Strategol.



Parhaodd y Bwrdd Trawsnewid Strategol i gyfarfod yn rheolaidd (bob chwe wythnos) yn ystod y flwyddyn, gan gyflawni trawsnewid sylweddol er gwaethaf y pwysau ariannol a gweithredol ar draws GIG Cymru ar draws y system gofal argyfwng a gofal brys. Mae'r ffeithlun drosodd yn dangos rhywfaint o'r ddarpariaeth ar draws lled y Cynllun Tymor Canolig Integredig drwy gydol 2024/25.

Gwnaed cynnydd da ym mhob maes, gan gynnwys mewn meysydd megis digidol, ystadau a fflyd. Roedd rhai meysydd nad oeddem yn gallu eu cyflawni, gan gynnwys oedi parhaus i ail-drefnu rhestr ddyletswyddau yn NEPTS ac adolygiad o'r galw a'r capasiti yn 111. Fodd bynnag, mae'r rhain bellach wedi symud ymlaen a disgwylir iddynt gael eu cyflwyno yn 2024/5. Mae datblygu gwefan 111 a gwirwyr symptomau diweddaedig yn parhau i fod yn flaenoriaeth ond ni ellid eu cyflawni yn 2024/25 gan nad yw cyllid wedi'i gytuno eto. Fodd bynnag, y prif gyflawniadau yn 2024/25 oedd gweithredu'r system 111 newydd ym mis Ebrill 2024 a arloesodd y ffordd ar gyfer rhai newidiadau pwysig y mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'w gwneud trwy'r rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol, a gweithredu Sgrinio Clinigol Cyflym ar gyfer galwadau 999.

1.7.6 Rheoli Risg

Mae adroddiad manwl ar allu'r Ymddiriedolaeth i ymdrin â risg yn yr adran 'Y Gallu i Ymdrin â Risg' o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

DADANSODDIAD O BERFFORMIAD A CHYFLAWNI

Mae'r adran Dadansoddiad o Berfformiad a Chyflawni yn rhoi sylwebaeth ar fesurau perfformiad allweddol yr Ymddiriedolaeth a dadansoddiad perfformiad integredig manylach o ddarpariaeth gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

1.8 Ein Cleifion (Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf)


Ateb Galwadau

I lawer o gleifion yr Ymddiriedolaeth, y pwynt cyswllt cyntaf â'r Ymddiriedolaeth yw'r **gwasanaeth 111**, sydd wedi bod yn fyw ledled Cymru gyfan ers dechrau 2022.

Gwelodd perfformiad yn y maes hwn ostyngiad yn ystod dechrau 2024/25, yn bennaf oherwydd gweithredu'r system 111CAS newydd, a aeth yn fyw ar 30 Ebrill 2024. Yn y cyfnod cyn y gweithrediad hwn, cafodd staff eu tynnu allan o'u swyddi ar gyfer hyfforddiant ac yn ogystal, cafodd recriwtio ei oedi.


Ar ôl mynd yn fyw roedd staff yn ymgyswllt â'r system, a chafodd hyn effaith bellach ar effeithlonrwydd. Er bod perfformiad wedi dechrau gwella o fis Mehefin 2024, cafodd pwysau'r gaeaf a lefelau uchel o absenoldeb oherwydd salwch ym mis Rhagfyr 2024 effaith bellach.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae nifer y galwadau a dderbyniwyd i'r gwasanaeth 111 wedi cynyddu, gan godi o 970,684 o alwadau 111 yn 2023/24 i 1,002,211 o alwadau yn 2024/25.




Yn y **gwasanaeth 111**, mae'r Ymddiriedolaeth yn mesur ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu drwy amseroedd ateb galwadau ac amseroedd ffonio'n ôl clinigol. Nod yr Ymddiriedolaeth yw ateb 95% o alwadau o fewn 60 eiliad a chael cyfradd gadael galwadau o lai na 5%, fel y dangosir yn y graff isod.

Mae'r graff isod yn tynnu sylw at ostyngiad mewn perfformiad yn ystod 2024/25, am resymau a grybwyllir yn y paragraff uchod. Mae'n dangos bod 38.8% o alwadau wedi cael eu hateb o fewn y targed o 60 eiliad yn ystod 2024/25, o'i gymharu â 54.8% yn 2023/24. Gostyngodd cyfraddau gadael hefyd, gan gynyddu o gyfartaledd o 6.6% yn 2023/24 i 10.4% yn ystod 2024/25, gyda'r targed o 5% heb ei gyflawni yn unrhyw un o'r 12 mis. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi gweithredu system giwio rithwir, felly gall galwr ddewis dal ei safle yn y ciw a chael ei ffonio'n ôl yn hytrach na gorfod aros ar y llinell.




O ran ffonio yn ôl clinigol ar gyfer brysbennu, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni'r targed un awr, sef 90%, yn gyson ar gyfer cleifion â'r flaenoriaeth uchaf (Brysbennu Clinigol â Blaenoriaeth 1 – P1CT), sef 95.6% ar gyfartaledd yn ystod 2024/25. Dirywiodd perfformiad ar gyfer galwadau blaenoriaeth is, ar ôl cyrraedd y targed o 90% rhwng mis Awst a mis Hydref, yn ail hanner y flwyddyn, gan ostwng i oddeutu 60% ym mis Ionawr 2025. Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn roedd hyn yn golygu bod, ar gyfartaledd, 81.6% o gleifion a flaenoriaethwyd fel Brysbennu Clinigol â Blaenoriaeth 2 (P2CT) wedi derbyn galwad glinigol yn ôl o fewn dwy awr i ddiwedd y cyswllt cyntaf ac 78.9% o gleifion a flaenoriaethwyd fel Brysbennu Clinigol â Blaenoriaeth 3 (P3CT) wedi derbyn galwad yn ôl o fewn pedair awr i'r cyswllt cyntaf.



Mae cleifion wedi rhoi adborth ar amseroedd aros hir ac mae potensial i'r amseroedd aros hyn gael sgil-ffaith ar 999 a gweddill y system gofal dwys a gofal brys. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol iawn bod perfformiad gwell yn y maes hwn yn gysylltiedig yn agos â chael y nifer cywir o glinigwyr mewn swydd i ddiwallu'r galw presennol a'r galw disgwylidig, sy'n rhan o'r adolygiad ymarfer rhestr ddyletswyddau 111 a gynhelir ddechrau 2025/26. Mae perfformiad yn y maes hwn hefyd wedi cael ei effeithio gan lefel uchel o absenoldeb salwch clinigwyr, yn enwedig absenoldebau hirdymor. Mae camau hefyd yn cael eu cymryd i wella'r sefyllfa hon.


O fewn y gwasanaeth 999, mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu drwy ystod o fetrigau amseroedd ymateb, dangosyddion clinigol a mesurau canlyniadau. Mae perfformiad ateb galwadau wedi gweld dirywiad bach yn ystod 2024/25 o fewn y 95^{ain} ganradd o alwadau sy'n cyfartaleddu 23 eiliad, o'i gymharu ag 16 eiliad yn 2023/24. Fodd bynnag, mae'r amser ateb galwadau canolrifol wedi aros yn 2 eiliad, sy'n gadarnhaol.




Gwelodd swyddogaeth derbyn galwadau NEPTS gynnydd yng nghyflymder cyfartalog ateb yn ystod 2024/25, gan godi i bedwar munud chwe eiliad, o'i gymharu â dwy funud 17 eiliad yn 2023/24.

Amseroedd Ymateb

Y prif fetrig i gleifion ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yw perfformiad Coch wyth; dyma ganran y digwyddiadau Coch (lle mae bywyd yn y fantol) yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud. Yn anffodus, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweld unrhyw welliant clir yn ei pherfformiad yn erbyn y targed wyth munud Coch dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda'r ffigur cyfartalog ar gyfer 2024/25 o 48.7% yn ddirywiad o'r 50.4% a welwyd yn ystod 2023/24 ac yn parhau i fod yn is na tharged 65% Llywodraeth Cymru.




Fodd bynnag, bu cynnydd clir yn nifer y digwyddiadau Coch a fynychwyd o fewn wyth munud, fel y gwelir yn y graff isod. Yn 2022/23 roedd yr Ymddiriedolaeth yn mynychu cyfartaledd o 1,966 o ddigwyddiadau Coch y mis; yn ystod 2023/24 cododd y ffigur hwn i 2,227, ac yn ystod 2024/25 cynyddodd y ffigur hwn eto i 2,591. Byddai hyn yn dynodi gwelliant yn y perfformiad cyffredinol, ond oherwydd cynnydd yn nifer y digwyddiadau Coch a ddilyswyd dros y flwyddyn ddiwethaf (cynnydd o 20.5%) nid yw hyn wedi'i ailadrodd o fewn ffigurau canran yr wyth Coch.




Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwybod bod mwyafrif y digwyddiadau diogelwch cleifion yn digwydd yn y categori Oren. Mae cofrestr risg yr Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu'r pryder mawr am arosiadau hir yn y gymuned ac arosiadau hir y tu allan i ysbytai gan achosi lefelau annerbyniol o niwed i gleifion y gellir ei osgoi. Er bod adnoddau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cynyddu ochr yn ochr â mentrau parhaus i helpu i liniaru'r risgiau hyn, mae enillion posibl yn parhau i gael eu gwrthbwyso gan ffactorau eraill, yn arbennig, y lefelau uchel o oriau cynyddol a gollwyd wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai.

Yn ystod 2024/25, perfformiad canolrifol Oren yr Ymddiriedolaeth oedd 1 awr 47 munud; dirywiad o'i gymharu â'r 1 awr 19 munud a gofnodwyd yn ystod 2023/24. Gwelodd y flwyddyn hefyd ostyngiad yn y 65^{ain} ganradd i 2 awr 39 munud a'r 95^{ain} ganradd i 8 awr 23 munud.



Fel y nodwyd yn flaenorol, mae llawer o resymau dros amseroedd ymateb hwy, sy'n cynnwys cynnydd yn y galw am wasanaethau Coch (yn codi o gyfartaledd o 4,489 y mis yn 2023/24 i 5,406 yn 2024/25) ac aciwtedd cyffredinol; ond colli oriau ambiwlans oherwydd trosglwyddiadau hir iawn i'r ysbyty yw'r prif ffactor sy'n cyfrannu o hyd. Nodwyd bod cydberthynas glir rhwng yr oriau a gollwyd wrth drosglwyddo o'r ysbyty ac amseroedd ymateb Oren uwch.

Cyfartaledd yr oriau a gollwyd o hysbysiad i drosglwyddo oedd 724 awr y dydd drwy gydol y flwyddyn ac yn golygu y gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi ymateb i oddeutu 82,000 yn fwy o gleifion pe bai trosglwyddiadau wedi'u lleihau i lefelau targed, sy'n tynnu sylw at yr effaith y mae'r niferoedd hyn yn dal i'w chael ar y system. Gellir gweld y niwed wedi'i fodolu ar gyfer cleifion sy'n aros dros 60 munud i gael eu trosglwyddo i'r ysbyty yn y graff isod.



Er bod ffrydiau cyllido wedi aros yn debyg ar gyfer 2024/25 o'i gymharu â 2023/24, mae gwaith wedi bod yn parhau i fynd i'r afael â rhai o'r anghydbwysedd rhwng ardaloedd gwledig a threfol o fewn yr ymddiriedolaeth. Penodwyd 80 o Barafeddygon Newydd Gymhwysu yn yr hydref a chafodd y mwyafrif eu recriwtio i ardaloedd gwledig Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, gan wella ein lefelau staffio yn y cymunedau tra hefyd yn sicrhau digon o staff mewn ardaloedd mwy trefol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cynyddu ei niferoedd staffio CHARU i 122.5 o weithwyr CALI a thyfodd niferoedd staffio Ymarferwyr Parafeddygol Uwch o 88.5 i 112.9 (twf o 24.4 o weithwyr CALI). Mae mwyafrif yr Ymarferwyr Parafeddygol Uwch hyn wrthi'n ymgymryd â'u cwrs MSc mewn Ymarfer Uwch, ac rydym yn disgwyl gweld budd y recriwtio hwn yn ail chwarter 2025/26.

O ran **Gofal Ambiwylans** yr Ymddiriedolaeth, mae'r galw wedi bod yn cynyddu drwy gydol y flwyddyn; er nad yw'r galw cyffredinol am ofal Ambiwylans yn ôl i lefelau cyn Covid-19 eto, mae cleifion sydd angen ambiwlans bellach yn fwy na'r lefelau cyn y pandemig ac mae milltiroedd cyfartalog fesul taith hefyd wedi cynyddu. Erys ansicrwydd ynghylch y galw wrth i Fyrddau Iechyd symud drwy newid systemau gyda

dyddiau newydd ar gyfer clinigau, ac mae perfformiad yn y maes hwn yn parhau i fod yn anodd ei ragweld. Er bod y galw arenol ac oncoleg wedi bod yn sefydlog, mae'r galw am gleifion allanol wedi gostwng ac mae'r galw am ryddhau a throsglwyddo yn amrywio.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio'n agos gyda'r Byrddau Iechyd trwy'r Grŵp Sicrwydd Cyflawni er mwyn cyflawni'r perfformiad gorau posibl i'r claf; fodd bynnag, mae'n debygol y bydd perfformiad y gwasanaeth yn amrywio'n barhaus nes bod gweithgarwch yn dechrau normaleiddio unwaith eto. Bydd angen adolygiad o'r capasiti yn erbyn y proffil galw newydd hwn i sefydlu a yw cyllid y gwasanaeth yn parhau i fod yn ddigonol o'i gymharu â'r proffil galw newydd. Rhagwelir y bydd heriau o ran bodloni'r proffil galw trosglwyddol hwn.

Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgymryd ag ailstrwythuro a ddaeth â NEPTS a'i weithlu Cynorthwywyr Gofal Ambiwylans (ACA) 1, ein gweithlu ACA2 Gwasanaeth Gofal Brys a Gwasanaeth Rhyddhau a Throsglwyddo Ysbyty Athrofaol y Faenor, ynghyd i swyddogaeth newydd: Gofal Ambiwylans. Mae hyn oherwydd y synergedd trafndiaeth wedi'i gynllunio. Er bod ffrydiau cyllid yn cael eu darparu ar wahân, mae cyfle i ddatblygu gwasanaethau rhyddhau a throsglwyddo pellach ledled Cymru.


Mae perfformiad trafndiaeth NEPTS ar gyfer cleifion ag anghenion y mae angen ambiwlans arnyn nhw wedi gwella ac wedi bod yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae cynnydd yn y galw - yn arbennig ar gyfer cleifion Arenol a chleifion ag anghenion symudedd uwch - yn effeithio ar faint o adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithgaredd cleifion allanol. Mae Gofal Ambiwylans wedi negodi'r rhwystrau hyn trwy ddefnyddio ei Gynllun Rheoli Capasiti a gweithio'n fwy effeithlon trwy gynyddu ei gapasiti adnoddau o gontractau preifat a ailnegodwyd. Bu'n rhaid cymhwyso meini prawf cymhwyster trafndiaeth yn fwy llym, a deallwn y gall hyn fod yn siomedig i ddefnyddwyr anghymwys sy'n ceisio cael mynediad at wasanaethau trafndiaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ail-drefnu yn ystod 2025/26, a fydd yn helpu gyda'r galw cynyddol pan gaiff ei weithredu. Bydd gweithlu digonol a'r gallu i recriwtio a chadw gweithlu'r NEPTS, yn enwedig o fewn ein tîm cydgysylltu, yn parhau i fod yn broblem


yn ystod y cyfnod hwn. Cynhaliwyd gweithdy strategaeth NEPTS hirdymor yn chwarter un 2024/25 a hwyluswyd gan gomisiynwyr, gyda'r allbwn angenrheidiol i ddatblygu gweledigaeth gwasanaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer NEPTS. Disgwylir y bydd hyn yn cael ei gwblhau cyn bo hir.

Yn olaf, yn dilyn nifer o bryderon a godwyd bod criwiau Gwasanaeth Gofal heb ei Drefnu yn mynd i ddigwyddiadau anaddas, mae Gofal Ambiwylans wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr EMS i sicrhau bod gan y Gwasanaeth Gofal heb ei Drefnu ddull anfon mwy addas i'r pwrpas sydd wedi'i fodelu, gan arwain at gael cyllid digonol ar gyfer ACA2 i gyflawni'r cwmpas tynnach hwn.


Cyfanswm nifer y teithiau cleifion di-frys a gyflawnwyd yn 2024/25 oedd 567,008 ac er ei fod yn gynydd pellach o gymharu â'r 573,463 a welwyd yn 2023/24, yn is o hyd na'r 670,353 a gofnodwyd ar gyfer 2019/20. Fodd bynnag, dylid nodi bod y proffil galw newydd hwn bellach yn llawer mwy cymhleth, gyda mwy o gleifion sydd angen lefelau uwch o gefnogaeth a newidiadau i leoliadau darparu gofal wedi'i gynllunio yn effeithio ar filltiroedd siwrneiau a chymhlethdod cynllunio.




Mae ansawdd y gwasanaeth yn cael ei fesur drwy'r amrywiol ddangosyddion amser cyrraedd/casglu a chyflwynwyd safonau perfformiad newydd ym mis Ebrill 2023. Mae perfformiad wedi bod yn fwy sefydlog mewn rhai meysydd, fodd bynnag, gyda mwy o gleifion arenol sy'n cyrraedd o fewn 30 munud cyn eu hapwyntiad ac nid yn hwyr, roedd cyfartaledd o 71.53% ar gyfer 2024/25, gan gyflawni'r targed o 70% mewn naw o'r 12 mis.



Newidiodd safonau perfformiad teithiau rhyddhau a throsglwyddo hefyd ym mis Ebrill 2023 ac roedd teithiau a archebwyd ymlaen llaw ac a gasglwyd llai na 60 munud ar ôl eu hamser parod a archebwyd ar gyfartaledd yn 78% yn 2024/25. Y safon a osodwyd ar gyfer y dangosydd hwn yw 95%, ond mae'n bwysig na ellir cyrraedd hyn heb welliannau i effeithlonrwydd cynllunio ymlaen llaw'r Bwrdd Iechyd ac ad-drefnu adnoddau wedi hynny. Fodd bynnag, mae teithiau a archebwyd ar yr un diwrnod ac a gesglir o fewn pedair awr ar ôl eu hamser parod a archebwyd yn 96% ar gyfartaledd yn ystod yr un cyfnod, gan gyflawni'r targed o 95% ar gyfer 11 mis.




Mae safonau perfformiad newydd Oncoleg yn parhau ar darged gyda chyfartaledd o 75.38% o deithiau oncoleg i mewn yn cyrraedd o fewn 45 munud cyn amser eu hapwyntiad, a hyd at 15 munud yn hwyr.




Diogelwch

Mae'r Ymddiriedolaeth yn annog diwylliant diogelwch cadarnhaol ac yn ystyried pob achos/digwyddiad fel cyfle i ddysgu a gwella. Adroddwyd am 2,892 o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, damweiniau fu bron â digwydd a pheryglon yn 2023/24, o'i gymharu â 4,400 yn 2023/24.

Gwelodd yr Ymddiriedolaeth hefyd ostyngiad yn lefelau NRI o ddigwyddiadau difrifol a gyfeiriwyd at Fyrddau Iechyd er mwyn iddynt ymchwilio iddynt. Roedd 53 o NRI cleifion yn 2024/25 o'i gymharu â 56 yn 2023/24. Fodd bynnag, cydnabyddir bod y ffigur hwn yn parhau i fod yn rhy uchel ac yn adlewyrchu'r pwysau o fewn y system gofal iechyd. Mae'r rhan fwyaf o'r Digwyddiadau hyn, ond nid pob un ohonynt, yn ymwneud â gwasanaeth 999 yr Ymddiriedolaeth.




Gostyngodd nifer y digwyddiadau a adolygwyd yn y SCIF a adroddwyd i'r Byrddau Iechyd ychydig, o 173 yn 2023/24 i 166 yn 2024/25, er y gwelwyd cynnydd yn chwarter olaf 2024/25. Mae'r rhain yn bennaf oherwydd arosiadau hir yn y gymuned a achosir gan oedi wrth drosglwyddo cleifion i'r ysbyty, sydd wedi gweld cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn 2023/24, roedd 6,543 o gleifion yn aros am 12 awr neu fwy, ond mae'r nifer hwn wedi codi i 10,393 yn ystod 2024/25.




Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i dderbyn nifer fawr o gwynion yn ymwneud ag amseroedd ymateb oedi yn y gymuned yn dilyn galwadau 999, yn ogystal â chwynion am ganslo neu oedi ar fyr rybudd ar gyfer cludiant di-frys a ddarperir gan y gwasanaeth Gofal Ambiwylans.

Mae buddsoddiad yn y timau Gweithio i Wella a Chyfreithiol yn yr Ymddiriedolaeth wedi ein galluogi i ddarparu ymatebion mwy amserol a phersonol i achwynwyr. Mae cyflawni'r targed o 75% yn llawn ar gyfer ymatebion a gyhoeddir o fewn 30 diwrnod gwaith wedi parhau i fod yn heriol pan dderbynnir nifer fawr o gwynion.




Ym mis Mawrth 2025, enwyd yr Ymddiriedolaeth mewn dau Adroddiad er Budd y Cyhoedd a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Drwy gydol ymchwiliad a chyhoeddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, arhosodd ein meddyliau gyda'r teuluoedd a gollodd anwyliaid, a'r gofid ychwanegol a achoswyd y mae'n rhaid ei fod wedi'i achosi gan ymatebion anfoddhaol gan yr Ymddiriedolaeth. Cyfrannodd yr Ymddiriedolaeth at ddatblygiad cydweithredol argymhellion yr Ombwdsmon ac mae'r cynlluniau gweithredu a ddeilliodd o'r adroddiadau bellach wedi'u cwblhau i raddau helaeth.

Mae Fforwm Achosion Dirifol yr Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu pob digwyddiad diogelwch cleifion lle gellir sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd neu lle gellir dosbarthu'r digwyddiad fel Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dangos gwelliannau yn ei dull o nodi achosion sy'n dod o dan y trothwy NRI ond sy'n dal i sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd trwy gynyddu capasiti yn y tîm Diogelwch Cleifion a mynediad at ffynonellau data allanol i adolygu canlyniadau i gleifion.



Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio'n agos gyda thîm Rhaglen Rheoli Pryderon genedlaethol Unwaith i Gymru i ddatblygu storfa ddysgu electronig ar gyfer ymchwiliadau ar y cyd. Mae'r defnydd estynedig hwn o Datix Cymru wedi'i gynllunio i wella goruchwyliaeth aml-sefydliadol o niwed i gleifion a dysgu systemig. Mae themâu yn dilyn ymchwiliadau ar y cyd yn cynnwys lefelau uchel o alw am y system, oedi wrth ryddhau cleifion o ofal cymdeithasol sy'n arwain at Adrannau Brys gorlawn ac arosiadau hir cyn cyrraedd yr ysbyty, diffyg llwybrau amgen y tu allan i oriau gwaith, cyfleoedd i wella gofal diwedd oes a Chynllunio Gofal Uwch.

Mae dull yr Ymddiriedolaeth o ddysgu o ddigwyddiadau niweidiol wedi'i gryfhau drwy drosglwyddo portffolio Adroddiadau Dysgu o Ddigwyddiadau rhwng timau i osod y gwelliannau gofynnol yn agosach at ddiwedd ymchwiliadau. Trafodir dysgu a gwella o ddigwyddiadau yn y Grŵp Rheoli Ansawdd a'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol.



Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i reoli nifer uchel o achosion Crwner, gyda niferoedd uchel yn cael eu derbyn oherwydd bod swyddfeydd crwner rhanbarthol yn mynd i'r afael â'u nifer uchel o achosion sy'n aros. Yn ogystal â niferoedd uchel o achosion, mae pwysau pellach yn cael ei ychwanegu gan nifer y datganiadau sy'n cael eu gofyn, nifer cynyddol o dystion sy'n cael eu galw a chynnydd yn y defnydd o gwestau sy'n seiliedig ar reithgor. Mae'r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn darparu paratoad a chefnogaeth unigol i holl staff yr Ymddiriedolaeth.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd *Fframwaith Model Adolygiadau Dysgu o Farwolaethau Cymru Gyfan (Ail Argraffiad)* ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ymgorffori'r dull a gynigiwyd yn genedlaethol trwy flaenoriaethu cyfoes, paneli dysgu aml-broffesiynol a'n Fforwm Dysgu o Farwolaethau. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd ag ymrwymiad ehangach yr Ymddiriedolaeth i ddysgu o farwolaethau, gan gynnwys o archwiliadau clinigol, pryderon, cwestau, profiad cleifion ac adolygiadau diogelu.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn pedwar Adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol Rheoliad 28 eleni, a gyhoeddwyd rhai ohonynt ar y cyd â sefydliadau eraill ac a oedd yn ymwneud yn bennaf ag ymatebion ambiwlansys hwyr ac a yw model yr Ymddiriedolaeth o drin galwadau a darparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol yn wyneb pwysau mor barhaus ar y system. Mae Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol yr Ymddiriedolaeth yn cynnig ymateb uniongyrchol i'r materion hyn a bydd

yn parhau, o fewn strwythur ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, i arwain ein gweledigaeth ar gyfer gofal cyn mynd i'r ysbyty sy'n canolbwyntio ar ansawdd ac sy'n cael ei yrru'n glinigol.

Mae'r Tîm Diogelu yn cefnogi'r Ymddiriedolaeth i gyflawni ei dyletswyddau statudol ac yn rhoi sicrwydd eu bod wedi'u bodloni o dan amrywiol ddeddfau, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Deddf Plant 2004, a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio yw'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer diogelu o fewn yr Ymddiriedolaeth, ac mae Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu yn cymryd yr awenau strategol ar bob mater sy'n ymwneud â diogelu. Mae gwaith partneriaeth helaeth gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac asiantaethau eraill i gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Comisiynydd Pobl Hŷn, a Chomisiynydd Plant Cymru. Mae'r Tîm Diogelu yn cydweithio ag uwch reolwyr a chydweithwyr yn fewnol ac yn allanol i hyrwyddo diwylliant diogelu cryf.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i feithrin diwylliant sefydliadol effeithiol sy'n annog chwilfrydedd proffesiynol, craffu, ac yn cefnogi camau gweithredu sy'n ofynnol i amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sydd angen gofal a chymorth.

Enghreifftiau o gyflawniadau Diogelu Ymddiriedolaethau ar gyfer 2024/2025:

- **Gweithgaredd Diogelu:** Mae'r Tîm Diogelu wedi ymateb i gynnydd sylweddol mewn gweithgaredd diogelu, gan gefnogi ymateb Ymddiriedolaeth ar draws chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Lladdiad Domestig. Mae'r Uwch Dîm Diogelu yn cefnogi Rheoli Honiadau Diogelu yn erbyn Staff ac wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer yr achosion, yn enwedig o ran camymddwyn rhywiol.
- **Polisiâu:** Mae'r Polisi Diogelu a'r Polisi Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a'r holl Weithdrefnau Gweithredu Safonol

cysylltiedig wedi'u hadolygu a'u diweddarau'n sylweddol i adlewyrchu'r dirwedd diogelu bresennol.

- **Hyfforddiant ac Addysg:** Mae'r Tîm Diogelu wedi datblygu a diweddarau cynnwys i gefnogi cydweithwyr yr Ymddiriedolaeth i gael dealltwriaeth drylwyr o themâu a thueddiadau diogelu er mwyn eu galluogi i nodi a chyfeirio pryderon at ei gilydd mewn modd cadarn ac amserol.
- **Gwella Ansawdd:** Gweithredu diweddariad Doc-works Scribe i alluogi cadw cofnodion diogelu effeithlon a chywir.
- **Cymorth, cyngor ac arweiniad:** Cofnodwyd dros 1,300 o ymholiadau gan gydweithwyr, gyda'r rhesymau mwyaf cyffredin yn Doc-works Scribe a Chyngor Diogelu Myfyriol/Ôl-weithredol.
- **Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl Mewn Plentyndod:** Wedi bod yn rhan o 58 o achosion marwolaethau plant, gan gyfrannu at lechyd Cyhoeddus Cymru wrth gydnabod themâu a thueddiadau.

Profiad y Claf ac Ymgysylltu (Tîm PECl)

Mae Tîm PECl wedi bod yn canolbwyntio ar gasglu profiadau a barn y bobl sydd wedi defnyddio ein gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. Diffinnir profiad pobl gan sut deimlad yw hi gael mynediad at ofal a derbyn gofal gan yr Ymddiriedolaeth, mae'n seiliedig ar ganfyddiadau y bobl eu hunain o'r gofal a'r driniaeth a gawsant.

Mae'r themâu allweddol a adroddwyd wedi canolbwyntio'n gyson ar amseroedd ymateb ar gyfer galwad 999 frys a'r cwestiynu ailadroddus pan fydd rhywun yn ffonio'n ôl. Yn gysylltiedig ag amseroedd ymateb yw'r amser cyrraedd amcangyfrifedig anghywir a roddir i gleifion; er bod esboniadau'n cael eu darparu ynglŷn â pham mae hyn yn digwydd. Er bod yr adborth wedi bod yn negyddol ar y cyfan ynghylch mynediad, mae wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran y gofal a'r tosturi y mae staff wedi'u rhoi i gleifion ar ôl cyrraedd y lleoliad.

O ran Gofal Ambiwylans (NEPTS) mae'r amser aros i gludo claf adref yn dilyn apwyntiad yn thema negyddol reolaidd; ar gyfer pob agwedd arall ar y gwasanaeth, mae pobl wedi nodi profiad a gwasanaeth rhagorol.

Drwy ymgysylltiad parhaus yr Ymddiriedolaeth, mae'n ymwybodol bod rhannau o'n cymunedau (ee. pobl fyddar a phobl ag anabledd dysgu) yn adrodd am brofiadau gwaeth, ac mae gwaith yn parhau i sicrhau eu bod yn derbyn profiadau o ansawdd gwell, gydag adborth gyda meysydd i'w gwella yn cael eu cydlynu drwy'r Grŵp Rheoli Ansawdd a Chyfarfodydd Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth Cenedlaethol.

Cofnododd yr Ymddiriedolaeth brofiadau pobl gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys ymgysylltu wyneb yn wyneb, arolygon profiad gwasanaeth, straeon cleifion, a'n cyfleuster ar-lein 'Dweud eich dweud'. Rydym yn cydnabod bod angen i ni gynyddu ein data profiad ac rydym wedi bod yn gweithio gyda'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth ar Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data i'w gyflwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y gallwn edrych ar ymgorffori negeseuon testun SMS i wella ein ffurflenni profiad ac ehangu ein cyrhaeddiad ar gyfer adborth.

Mae'r 'Rhwydwaith Pobl a'r Gymuned' wedi tyfu dros y flwyddyn gydag aelodau'r rhwydwaith yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau i wella adnoddau cyhoeddus sydd wedi'u cynllunio i ddarparu gwybodaeth a chymorth iechyd.

Ar 1 Hydref 2024, aeth y dangosfwrdd Anabledd Dysgu yn fyw gan alluogi'r Ymddiriedolaeth i weld adroddiadau ar ddata anghenion ychwanegol cleifion. Mae'r dangosfwrdd yn trefnu data yn ôl demograffeg (ystod oedran, rhyw) a chategorïau eraill hy. math o gau digwyddiad a blaenoriaethu galwadau. O fewn y chwe mis cyntaf roedd dros 1500 o gofnodion ePCR lle roedd angen ychwanegol wedi'i gofnodi.

Conflysiynau/ffitio ac anadlu sydd wedi bod ymhlith y ddau brif ddigwyddiad a gofnodwyd. Mae'r data hwn yn werthfawr wrth helpu i ddeall y darlun cenedlaethol ehangach o iechyd ymhlith y boblogaeth ag anabledd dysgu a'u heffaith ar brofiad cleifion. Mae'r Tîm PECL yn parhau i ymgysylltu â chymunedau lleol i gasglu data profiad o amgylch profiadau bywyd pobl i gefnogi'r gwelliannau parhaus mewn gofal a phrofiad a chanlyniadau cleifion.

Derbyniodd y Tîm PECl rywfaint o gydnabyddiaeth allanol am eu gwaith o amgylch anabledd dysgu. Llwyddodd crynodeb poster o'r enw 'Gwella profiadau a chanlyniadau cleifion ag anabledd dysgu wrth gael mynediad at ofal brys' i'w gyflwyno o dan y categori 'Poblogaethau' yn y Fforwm Mewnol ar Ansawdd a Diogelwch mewn Gofal Iechyd a gynhaliwyd yn Utrecht ym mis Mai 2025. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi denu sylw gan y rhwydwaith sy'n dod i'r amlwg ar gyfer arweinwyr anabledd dysgu yn y sector Ambiwylans.

Yng Ngwobrau Rhwydwaith Profiad y Claf Cenedlaethol ym mis Hydref 2024 yn Birmingham, roedd gan y tîm dri enwebiad a gyrhaeddodd y rownd derfynol i gyd. Roedd y gwobrau'n cydnabod arfer gorau ym mhrofiad cleifion ar draws pob agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Y categorïau oedd:

- 'Ymgysylltu â'r cyhoedd/Hyrwyddo'r cyhoedd': hyrwyddo ein gwaith ar wella profiadau pobl ag anableddau dysgu.
- 'Defnydd arloesol o dechnoleg/cyfryngau cymdeithasol a digidol': am ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc wrth ddatblygu'r ap golau glas yn seiliedig ar ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddefnyddio technoleg ac atebion digidol i ymgysylltu (ail yn y categori hwn).
- 'Gweithio mewn Partneriaeth i Wella'r Profiad': hyrwyddo ein gwaith ar draws yr holl sectorau iechyd, gofal cymdeithasol, busnes a gwirfoddol i gyrraedd, ymgysylltu a gwella profiadau cymunedau ledled Cymru.

Ar ôl cael ei enwi yn ail yng ngwobrau PENNA yn y categori 'Defnydd Arloesol o Dechnoleg, Digidol a Chyfryngau Cymdeithasol' am yr ap gemau golau glas, cyhoeddwyd gwerthusiad, a grëwyd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, yn yr EMJ hefyd, yn dilyn ei gyhoeddiad gwreiddiol yn y BMJ. Roedd y diweddariad diweddaraf i'r ap yn cynnwys gêm ymwybyddiaeth Adfywio Cardio-pwlmonaidd (CardioPR) sy'n rhoi sylw i gywirdeb meddygol a thôn. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ar draws pwnc hollbwysig i helpu i wella sgiliau a hyder wrth ddefnyddio CardioPR.

Gwahoddwyd aelod o'r tîm i roi cyflwyniad byr a chryno yng 'Nghynhadledd Ymchwil EMS 999: cydnabod cynnydd, datblygu'r dyfodol'. Cynhaliwyd y gynhadledd wyneb yn wyneb, ddydd Mawrth 17 a dydd Mercher 18 Medi 2024 yng Nghaergrawnt, a chafodd ei chynnal a'i chefnogi gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Dwyrain Lloegr. Teitl ein cyflwyniad oedd "Pan fyddwch chi wedi'ch brifo, ac angen help difrifol arnoch chi, ffoniwch 999". Addysgu plant am y gwasanaethau brys a defnydd priodol o 999: Astudiaeth werthuso o'r ap Hwb Golau Glas".

Mae'r ap yn rhad ac am ddim i'w lawrlwytho yn Google Play ac Apple: -

Google:

<https://play.google.com/store/apps/details?id=com.WelshAmbulance.BlueLightHub>

Apple:

<https://apps.apple.com/us/app/blue-light-hub/id1575745545>


Dangosyddion Clinigol

Wedi'i gyflwyno trwy 2022, mae'r ePCR bellach wedi'i ymgorffori'n llawn yn yr Ymddiriedolaeth ac mae wedi gwella casglu a rhannu gwybodaeth glinigol yn sylweddol. Fel y rhagwelwyd, mae hyn wedi arwain at welliannau yng nghyflawnder a chywirdeb casglu data clinigol, gan gefnogi adrodd mwy cadarn ar y pum dangosydd clinigol allweddol: Gwddf y ffemwr wedi torri (clun wedi torri), strôc, cnawdnychiant myocardaidd â chodiad segment (STEMI, (trawiad ar y galon)), Hypoglycemia (siwgr gwaed isel) ac adferiad cylchrediad digymell (ROSC) (o ataliad y galon). Mae pob dangosydd yn cynnwys elfennau unigol y cytunwyd arnynt sydd i gyd yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn dynodi cyflawni canlyniad gwell i gleifion. Yn yr Ymddiriedolaeth mae pob digwyddiad sy'n cyd-fynd â'r meini prawf cytunedig ar gyfer y pum amod wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau. Yn dilyn ymgorffori ePCR, mae archwiliadau sicrhau ansawdd manwl pellach a mentrau gwella dilynol, megis cyflwyno canllawiau 'Awgrymiadau Gorau', gwelliannau i ryngwyneb defnyddiwr ePCR, a datblygu dangosfyrddau clinigol i gyd wedi cyfrannu at gydymffurfedd well â safonau dogfennu.

O ddechrau mis Ebrill 2024, cychwynnodd yr Ymddiriedolaeth ar ymarfer gwella chwe mis i wella perfformiad y dangosyddion clinigol. I gefnogi'r fenter hon, cychwynnwyd

rhaglen o ymgysylltu ac addysg i sicrhau bod neges gadarn a chyson yn cael ei chyfleu i bob clinigwr sy'n darparu gofal ac yn defnyddio'r ePCR i gofnodi eu hymgyngoriadau. Roedd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd posteri, negeseuon digidol ar ffurf ffeithlun sgrin clo a ddangosir ar ddyfeisiau ePCR, a stondinau ymgysylltu ym mhob un o sioeau teithiol y Prif Swyddog Gweithredol ledled Cymru. Fe wnaeth y cynllun gwella chwe mis a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024 gyflawni gwelliant ym mhob un o'r dangosyddion cydymffurfedd clinigol.

Un o'r dangosyddion clinigol y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei fesur ar hyn o bryd yw canran y cleifion sydd â ROSC yn yr ysbyty. Er bod hyn yn parhau i fod yn is nag y byddai'r Ymddiriedolaeth ei eisiau ar gyfer y flwyddyn 2024/25, mae wedi dangos gwelliant ar 2023/24.



O'r dangosyddion clinigol allweddol eraill y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu mesur, ni chyflawnodd yr un ohonynt y targed o 95% yn ystod 2024/25, er bod rhai gwelliannau mewn perfformiad wedi'u gweld mewn sawl maes.

Gwelwyd gwelliannau hefyd yng nghanran y bobl hŷn yr amheuir eu bod wedi torri'r glun ac sydd wedi'u dogfennu fel rhai sy'n derbyn y bwndel gofal priodol; canran y cleifion STEMI sydd wedi'u dogfennu fel rhai sy'n derbyn y bwndel gofal priodol; canran y cleifion hypoglycaemig sydd wedi'u dogfennu fel rhai sy'n derbyn y bwndel gofal priodol, a chanran y cleifion strôc yr amheuir eu bod wedi'u dogfennu fel rhai

sy'n derbyn y bwndel gofal priodol, gyda'r ffigur ar gyfer mis Mawrth 2025 o 91.6% yn welliant ar y 72.8% a adroddwyd ar gyfer mis Mawrth 2024.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i dyfu ei gwasanaeth CHARU ledled Cymru i sefyllfa lle mae bellach ond 18 o weithwyr CALI yn brin o'i tharged o 140.5 o weithwyr CALI ledled Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn recriwtio i'r rôl hon yn chwarter un 2025/26 ac yn disgwyl gweld gweddill y swyddi gwag yn cael eu llenwi yn chwarter dau. Nod y gwasanaeth hwn yw darparu ymateb i set o godau penodol o ddigwyddiadau aciwtedd uchel gan barafeddygon profiadol sydd â meddyginiaethau a hyfforddiant ychwanegol. Byddant yn cefnogi gwneud penderfyniadau clinigol, yn cydlynu gofal cleifion ac yn sicrhau bod arfer clinigol yn cyd-fynd â chanllawiau arfer gorau cyfredol i wella canlyniadau cyffredinol mewn sawl un o'r meysydd a amlygwyd uchod, megis cynyddu cyfraddau ROSC yn llwyddiannus.

1.9 Ein Pobl


Mewn perthynas â gweithlu'r Ymddiriedolaeth, mae'r dangosyddion a adolygwyd yn y Bwrdd yn ymwneud ag a oes gan yr Ymddiriedolaeth y capasiti gweithlu cywir i ateb y galw, sut mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw staff yn ddiogel ac yn iach, a sut y maent yn cael eu datblygu. Ystyrir dangosyddion manylach a niferus hefyd yn y Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Roedd gan yr Ymddiriedolaeth niferoedd staffio cyllidebol o 1,823 o weithwyr CALI ar gyfer EMS yn 2023/24. Cynyddodd y niferoedd staffio i 1,904 o swyddi CALI yn 2024/25. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i rolau sy'n tyfu fel CHARU ac Ymarferwyr Parafeddygol Uwch yn EMS sydd wedi gweld cynnydd sylweddol y niferoedd staffio arfaethedig. Cynyddodd niferoedd CHARU i 122.5 o weithwyr CALI yn ystod 2024/25, tra tyfodd niferoedd staffio Ymarferwyr Parafeddygol Uwch o 88.5 i 112.9 (twf o 24.4 o weithwyr CALI). Mae mwyafrif yr Ymarferwyr Parafeddygol Uwch hyn wrthi'n ymgymryd â'u cwrs MSc mewn Ymarfer Uwch, ac rydym yn disgwyl gweld budd y recriwtio hwn yn ail chwarter 2025-26.


Mae trafodaethau ynghylch cymysgedd sgiliau ein gweithlu EMS yn y dyfodol yn parhau, a gallai hyn gael effeithiau sylweddol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae digon

o gapasiti hyfforddi wedi'i gynllunio yn ystod 2025/26 i alluogi'r Ymddiriedolaeth i recriwtio unrhyw staff i'r sefydliad, waeth beth fo'r radd honno.


Mae'r graff isod yn dangos nifer yr oriau uned ambiwlans EMS y mae'n gallu eu cynhyrchu yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn amlygu ei fod wedi aros yn gymharol sefydlog. Yn 2024/25, cynhyrchwyd 1,444,419 o oriau gwirioneddol o gymharu â 1,444,431 o oriau yn 2023/24. Mae'r oriau hyn yn gynnydd yn nifer yr oriau EMS a gynhyrchwyd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, cyn 2023; ond mae'r cynnydd hwn wedi'i wrthbwysu gan y nifer uchel parhaus o oriau a gollwyd oherwydd trosglwyddiadau yn yr ysbyty.



Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi gweld gostyngiad yn nifer cyfartalog sifftiau'n gor-redeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel y gwelir yn y graff isod. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer cyfartalog sifftiau'n gor-redeg y mis wedi lleihau o 42 munud 58 eiliad yn ystod 2023/24 i 40 munud 8 eiliad yn 2024/25.




Ffactor allweddol arall yng ngallu'r Ymddiriedolaeth i sicrhau capasiti i fodloni'r galw yw effaith tynnu staff o'r rota gwaith, ac mae hyn hefyd yn darparu dangosydd o lesiant ein pobl. Er mwyn cefnogi'r gweithlu, canolbwyntiwyd yn barhaus ar weithgareddau lles ar draws pob rhan o'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys y rhai mewn rolau rheng flaen a rolau cymorth.



Mae'r graff uchod yn dangos lefel y tyniadau o ganlyniad i salwch dros y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer staff EMS. Yn 2023/24, roedd cyfartaledd absenoldeb salwch y mis yn 9.26%, ond mae'r ffigur hwn wedi gostwng i 7.71% yn ystod 2024/25.


Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn yn parhau i fod yn uwch na tharged salwch diwedd blwyddyn yr Ymddiriedolaeth o 6%.

Mae'r graff isod yn dangos bod gwelliant wedi bod yng nghyfanswm tyniadau EMS dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda chyfradd gyfartalog fisol o 31.3% yn 2024/25 o'i gymharu â 33.7% yn 2023/24. Mae'r targed o 30% hefyd wedi'i gyflawni mewn tri o'r chwe mis diwethaf ar ôl dim ond cael ei gyflawni unwaith o'r blaen dros y tair blynedd diwethaf.




Gwelwyd lluniau gwrthgyferbyniol o fewn 111 a Gofal Ambiwylans. Gwelodd 111 gyfradd gyfartalog o dyniadau oherwydd salwch o 9.3% yn 2024/25, i fyny o 8% y flwyddyn flaenorol, tra bod Gofal Ambiwylans wedi gweld cyfraddau salwch yn gostwng o 10.3% yn 2023/24 i 9.5% yn 2024/25. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwbl ymwybodol bod angen i absenoldeb salwch barhau i fod yn brif faes ffocws dros y flwyddyn i ddod er mwyn sicrhau bod targedau lleihau salwch yn cael eu cyrraedd ac mae wedi ymrwmo'n llwyr i nifer o fentrau gan gynnwys hyfforddiant i reolwyr a sesiynau lles i staff. Mae'r cyfraddau salwch llawn i'w gweld yn yr Adroddiad Staff, yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Cyrhaeddodd cyfraddau Hyfforddiant Statudol a Gorfodol y targed cyffredinol o 85% ar ddiwedd y flwyddyn, gan gofnodi uwchlaw'r gyfradd hon am bedwar mis olaf y flwyddyn. Mae hyn yn dilyn gwelliant graddol a welwyd ers mis Ionawr 2024.




O ran datblygiad staff, mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn mai lefelau AGDP yw'r ffordd orau o gynrychioli datblygiad ar lefel uchel. Er bod ffigur diwedd y flwyddyn ar gyfer 2024/25 o 79.8% wedi methu â chyflawni'r targed o 85%, mae wedi dangos gwelliant graddol cynaliadwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf.



1.10 Cyllid a Gwerth

Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu nifer o ddangosyddion sy'n ceisio dangos sut y mae'n darparu gwasanaeth yn unol â dyletswyddau ariannol statudol, ac o werth ac effeithlonrwydd uchel. Bydd y maes hwn o'r Adroddiad Perfformiad yn cael ei gryfhau dros amser wrth i'r rhaglen gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth barhau. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth gydbwysedd ariannol yn 2024/25, gyda gwagedd refeniw bach o £70,000 ochr yn ochr â chyflawni gwariant cyfalaf o fewn y Terfyn Gwariant Cyfalaf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, gan gyflawni ei dyletswydd statudol i adennill costau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.



Cyflawnwyd arbedion gros o £6.838m yn erbyn targed o £6.421m, felly cafwyd or-gyflawniad o oddeutu 6.5%. Roedd Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus ar y trywydd iawn, gyda pherfformiad o 97.7% ar gyfer nifer, a 98.9% ar gyfer gwerth yr anfonebau nad ydynt yn ymwneud â'r GIG a dalwyd o fewn 30 diwrnod (targed o 95%). Ceir rhagor o wybodaeth yng nghyfrifon blynyddol a datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, a baratowyd ar sail busnes gweithredol.

Mae cynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2025/26 yn un o gydbwysedd ond wedi'i seilio ar gyflawni targed arbedion o oddeutu £8.5m sydd oddeutu £2m yn fwy na'r targed a gynlluniwyd ar gyfer 2024/25.

1.11 Gwybodaeth Perfformiad Anariannol

Hawliau Dynol, Amrywiaeth a Chydraddoldeb


Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn yr Adroddiad Atebolrwydd yn datgelu sut mae'r Ymddiriedolaeth yn bodloni ei rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Cyfeiriwch at y Datganiadau Datgelu a'r datganiad o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 am ragor o wybodaeth. Mae sylwebaeth ychwanegol hefyd ynghylch 'Materion Eraill Gweithwyr' yn yr Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff, yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Gwrth-lygredd a Gwrth-lwgrwobrwyo

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn cynnwys adroddiad ynghylch trefniadau atal twyll yr Ymddiriedolaeth, a pherthynas yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol â'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC). Mae'r adroddiad hwn i'w weld yn adran 'Y Fframwaith Rheoli' yr Adroddiad Atebolrwydd.

1.12 Partneriaethau a Chyfraniad y System

Nod yr Ymddiriedolaeth yw ystyried ei heffaith ar y system ehangach, ond hefyd effaith y system ehangach ar ei gwasanaeth. Er bod oriau coll wrth drosglwyddo wedi lleihau yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23, maent wedi codi ychydig eto eleni, gan gyfartaleddu 22,003 awr y mis yn ystod 2024/25 o'i gymharu â 21,700 y mis yn 2023/24. Mae'r ffigur hwn yn parhau i fod yn eithafol ac yn cyfateb i 1,834 o sifftiau deuddeg awr ac yn golygu y gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi ymateb i dros 3,454 yn fwy o gleifion bob mis pe bai trosglwyddiadau wedi'u lleihau. Cyfanswm yr oriau ambiwlans a gollwyd yn ystod 2024/25 oedd 264,393, sy'n golygu bod yr Ymddiriedolaeth yn colli rhwng chwarter a thraean o'i chynhyrchiant ambiwlansys cludo.



Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol bod Byrddau lechyd wedi cyflwyno fframweithiau galw cynyddol gofal brys a brys yn ystod 2024 i geisio lleihau'r oriau a gollwyd wrth drosglwyddo, yn dilyn negeseuon cryf gan Lywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol bod yn rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn fel mater o flaenoriaeth. Sefydlwyd cyfres o gyfarfodydd Cynllun Gweithredu Comisiynu Integredig hefyd gan yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol, a gynlluniwyd i Fyrddau lechyd unigol a'r Ymddiriedolaeth gydweithio er mwyn lleihau oriau trosglwyddo.

Er bod lefelau cyffredinol dros y flwyddyn wedi cynyddu, roedd rhai arwyddion cadarnhaol ym mis Chwefror a mis Mawrth 2025, gyda'r ddau fis yn dangos gostyngiadau o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Er ei fod yn ddyddiau cynnar, gallai hyn fod oherwydd y gostyngiad yn nifer y cludiadau a welwyd i Adrannau Achosion Brys ers cyflwyno'r broses Sgrinio Clinigol o Bell, fel rhan o raglen Trawsnewid y Model Clinigol.


Wrth ystyried Byrddau lechyd unigol, dim ond Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCAF) sydd wedi gallu cynnal gostyngiad mewn oriau coll drwy gydol 2024/25, gyda nifer cyfartalog yr oriau coll bob mis o fewn BIPCAF yn 840 yn unig. Mewn cyferbyniad, cododd cyfartaledd yr oriau a gollwyd y mis yn Betsi Cadwaladr i 8,256. Gwelodd Hywel Dda a Bae Abertawe ostyngiadau yn nifer yr oriau a gollwyd yn

2024/25 o'i gymharu â 2023/24, gyda Hywel Dda yn gostwng i 3,224 (o'i gymharu â 3,313 yn 2023/24) a Bae Abertawe yn gostwng i 2,944 (o'i gymharu â 3,548 yn 2023/24). Cofnododd pob Bwrdd Iechyd arall gynnydd.

O ystyried maint yr her a'i chysylltiadau â phwysau system ehangach, mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth gynllunio ar y sail y bydd oriau coll yn parhau'n uchel hyd y gellir rhagweld a chydabod y byddant yn parhau i achosi niwed i gleifion. Mae'r Llawlyfr Polisi Chwe Nod yn nodi'r disgwyliad na fydd unrhyw drosglwyddo yn hwy nag awr erbyn 2025; a fyddai'n cyfateb i 7,000 o oriau coll fesul mis calendr, sy'n llawer is na'r +20,000 o oriau y mae'n rhaid i'r Ymddiriedolaeth weithredu ynddynt ar hyn o bryd. Dylid hefyd nodi bod allweddï rhestr ddyletswyddau EMS cyfredol yr Ymddiriedolaeth yn seiliedig ar 6,000 awr y mis calendr.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i drawsnewid ei gwasanaethau i ddod yn fwy cynaliadwy, i gael cleifion i'r gwasanaeth iawn, yn y lle iawn, bob tro, ac i leihau'r ddibyniaeth ar adrannau achosion brys fel y lleoliad diofyn ar gyfer gofal diffiniol brys ac mewn argyfwng, rhywbeth sydd ar flaen y gad yn y rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol newydd.


Un o'r prif feysydd lle mae'r Ymddiriedolaeth eisoes wedi helpu'r system i leihau'r galw yw 'Ymgynghori a Chau', trwy waith y Ddesg Gymorth Clinigol ac 111. Gosodwyd targed 'Ymgynghori a Chau' Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 ar 17%. Bu rhai problemau gyda chasglu data ar y metrig hwn o fis Hydref 2024, oherwydd y penderfyniad i ddiffodd yr hen system adrodd. Fodd bynnag, yn dilyn adrodd mwy cadarn, mae data diweddar yn awgrymu bod y ffigur dros y 4 mis diwethaf wedi bod tua 20% ar gyfartaledd, fel y nodir yn y graff isod.



Arhosodd niferoedd staffio'r Ddesg Gymorth Clinigol yn sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i effeithio ar ei chyfradd a'i niferoedd 'Ymgynghori a Chau'. Fodd bynnag, bydd niferoedd y clinigwyr yn cael eu hadolygu fel rhan o adolygiad ymarfer rhestr 111 ddechrau 2025/26.


Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn monitro ei chyfraddau 'Gweld a Thrin' a'r rhai sy'n cael eu trin yn y fan a'r lle, sydd wedi cynyddu ychydig yn erbyn digwyddiadau a ymatebwyd iddynt flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan godi o gyfartaledd misol o 17.1% yn 2023/24 i 17.8% yn 2024/25. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 3,716 o gleifion yn cael eu trin yn y fan a'r lle bob mis drwy gydol y flwyddyn. Erys uchelgais strategol yr Ymddiriedolaeth i gynyddu'r gweithgaredd 'symud i'r chwith' hwn a lleihau nifer y cleifion y mae angen eu cludo i adrannau achosion brys.

Mewn perthynas â gwasanaeth 111 yr Ymddiriedolaeth, un o'r ffactorau llwyddiant yw cael y claf i'r gwasanaeth cywir, y tro cyntaf. Mae categorieiddio rhai o'r mesurau canlyniadau hyn wedi newid yn ystod 2024/25, wrth i waith gael ei wneud i wella metrigau data 111, gan ganiatáu i ddata mwy ystyrlon gael ei adrodd a nodi ai'r canlyniadau hyn yw'r gorau a'r mwyaf priodol.



Mae'r graff uchod yn amlygu lle mae'r rhai sy'n ffonio'r gwasanaeth 111 yn cael eu cyfeirio ar hyn o bryd, gyda'r rhai sy'n cael eu cyfeirio at Feddyg Teulu yn cynnwys y ganran fwyaf am y flwyddyn (33%). Ar hyn o bryd mae tua 19% o alwadau 111 yn cael eu cyfeirio at 999 neu'n cael cyngor i fynd i'r adran achosion brys.

Mae'r graff isod yn symleiddio'r ymateb a gafodd cleifion, gyda'r llinell las yn amlygu'r rhai a gafodd eu 'stopio yn y pwynt cyswllt cychwynnol' yn effeithiol. Mae'n dangos bod y ffigur hwn wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod 2024/25 ar oddeutu 10.5% o'r holl ganlyniadau hysbys.



1.13 Atal a Rheoli Heintiau

RHAN 2:- ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Bwriad yr Adroddiad Atebolrwydd yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae gofynion yr Adroddiad Atebolrwydd yn seiliedig ar y materion y mae'n ofynnol ymdrin â hwy mewn Adroddiad Cyfarwyddwyr, fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 15 Deddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 7 o Offeryn Statudol 2008 Rhif 410, ac mewn Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth, fel y nodir ym Mhennod 6 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac Atodlen 8 o OS 2008 Rhif 410.

Mae gofynion Deddf Cwmnïau 2006 wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus fel y nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FREEM). Bydd felly'n ymdrin â materion fel cyflogau cyfarwyddwyr a thaliadau eraill, trefniadau llywodraethu a'r dystysgrif ac adroddiad archwilio. Caiff yr Adroddiad Atebolrwydd ei lofnodi a'i ddyddio gan y Swyddog Atebol. Mae tair prif ran i'r Adroddiad Atebolrwydd, sef:

- **Yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol:** Mae'r Adroddiad hwn yn esbonio cyfansoddiad a threfniadaeth Bwrdd a strwythurau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth a sut maent yn cefnogi cyflawni amcanion yr Ymddiriedolaeth. Mae tair prif ran i'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ei hun: Adroddiad y Cyfarwyddwyr, y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu.
- **Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff:** Mae'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff yn cynnwys gwybodaeth am dâl cydnabyddiaeth uwch reolwyr. Bydd yn manylu ar gyflogau a thaliadau eraill, polisi'r Ymddiriedolaeth ar dâl cydnabyddiaeth i uwch reolwyr ac a oedd unrhyw daliadau ymadael neu ddyfarniadau arwyddocaol eraill i uwch reolwyr presennol neu gyn-uwch reolwyr. Yn ogystal, mae'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff yn nodi aelodaeth Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth, a gwybodaeth staff o ran niferoedd, cyfansoddiad ac absenoldeb oherwydd salwch, ynghyd â gwariant ar ymgynghoriaeth a gwariant oddi ar y gyflogres.

- **Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol:** Mae'r Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Seneddol yn darparu gwybodaeth am faterion fel rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a thaliadau, a'r dystysgrif ac adroddiad archwilio.

2.1 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol hwn yn manylu ar gyfansoddiad Bwrdd a strwythurau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth a sut y maent yn cefnogi cyflawni amcanion yr Ymddiriedolaeth. Mae'r adroddiad yn esbonio rheolaeth a rheoli adnoddau ac i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â'i gofynion llywodraethu ei hun, gan gynnwys sut mae'r Ymddiriedolaeth wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ei threfniadau llywodraethu. Y bwriad yw dwyn ynghyd mewn un man faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheolaeth.

Nod yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yw rhoi dealltwriaeth glir i'r darllenydd o'r sefydliad a'i strwythur rheolaeth fewnol, stiwardiaeth y sefydliad ac esboniad o'r risgiau y mae'r sefydliad yn agored iddynt. Lle nodir gwendidau yn yr adroddiad, rhoddir esboniad o sut yr eir i'r afael â'r rhain. Mae tair prif ran i'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, sef:

- Adroddiad y Cyfarwyddwyr.
- Y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn Perthynas â'r Cyfrifon.
- Y Datganiad Llywodraethu.

2.1.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Pan fydd gwybodaeth a gyflwynir fel arfer yn yr adroddiad hwn yn cael ei thrafod mewn man arall yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, croesgyfeirir ati, a darperir y cyfeiriad priodol.

a) Manylion y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Eraill

Mae manylion y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, Aelodau'r Bwrdd, y Gweithredwyr ac unrhyw unigolion eraill a oedd yn Gyfarwyddwyr ac sydd â, neu a oedd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, wedi'u darparu yn y Datganiad Llywodraethu sy'n rhan o'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol hwn.

Darperir cyfansoddiad Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ac enwau'r Cyfarwyddwyr sy'n ffurfio'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) hefyd yn y Datganiad Llywodraethu. Rhestrir Aelodau'r Bwrdd isod, ynghyd â newidiadau yn ystod y flwyddyn. Hefyd, darperir yma unrhyw rolau a allai fod gan aelodau'r bwrdd mewn perthynas â phwyllgorau (er enghraifft cadeirydd neu arweinydd), swyddi statudol neu swyddi hyrwyddwr y bwrdd.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Aelodau o'r Bwrdd 2024/25 â Phleidlais ar 31 Mawrth 2025

Colin Dennis



**Cadeirydd Bwrdd yr
Ymddiriedolaeth**

Cadeirydd y Pwyllgor Tâl
Cydnabyddiaeth

**Rhiannon
Beaumont-Wood**



**Cyfarwyddwr Anweithredol
(o 11 Rhagfyr 2024)**

Hyrwyddwyr dros blant a phobl
ifanc

Jayne Beeslee



**Cyfarwyddwr
Anweithredol
(O 19 Awst 2024)**

Cadeirydd y Pwyllgor
Cyllid a Pherfformiad o 1
Medi 2024 ymlaen,
Hyrwyddwr digidol

Peter Curran



Cyfarwyddwr Anweithredol

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio,
Risg a Sicrwydd, Cadeirydd y
Pwyllgor Elusen (o 01 Ionawr
2025), Hyrwyddwr dros y
lluocedd arfog a chyn-filwyr

Bethan Evans



**Cyfarwyddwr
Anweithredol**

Cadeirydd y Pwyllgor
Ansawdd, Profiad Cleifion
a Diogelwch
Hyrwyddwr y Gymraeg,
Atal a Rheoli Heintiau, a
Gweithio i Wella
(Diogelwch Cleifion)

**Yr Athro Hayley
Hutchings**



**Cyfarwyddwr Anweithredol
(o 11 Rhagfyr 2024)**

Cyfarwyddwr Anweithredol
Academaidd, Hyrwyddwr
Ymchwil

Ceri Jackson



**Is-gadeirydd dros dro
(hyd at 30 Mehefin
2024) ac Is-gadeirydd (O
01 Gorffennaf 2024))**

Cadeirydd y Pwyllgor
Elusen (Hyd at 31 Rhagfyr
2024) Hyrwyddwr dros
iechyd meddwl, pobl hŷn
a chodi pryderon

Hannah Rowan



Cyfarwyddwr Anweithredol

Cadeirydd y Pwyllgor
Partneriaethau Academaidd
Hyrwyddwr dros gydraddoldeb

Jason Killens







**Prif Swyddog
Gweithredol**
Swyddog Atebol

Lee Brooks







**Cyfarwyddwr Gweithredol
Gweithrediadau**

Hyrwyddwr ar gyfer cynllunio
at argyfyngau

<p>Rachel Marsh</p> 	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad Arweinydd Gweithredol ar y Cyd ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad</p>	<p>Chris Turley</p> 	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol Arweinydd Gweithredol ar y Cyd ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad Arweinydd gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Trysorydd yr Elusen. Hyrwyddwr diogelwch tân</p>
<p>Liam Williams</p> 	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio Gwarcheidwad Caldicott Arweinydd Gweithredol y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch Hyrwyddwr dros blant a phobl ifanc, gweithio i wella a thrais ac ymddygiad ymosodol</p>	<p>Andy Swinburn</p> 	<p>Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth</p>

Aelodau o'r Bwrdd 2024/25 heb Bleidlais ar 31 Mawrth 2025

<p>Estelle Hitchon</p> 	<p>Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu Arweinydd Gweithredol y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd a'r Pwyllgor Elusen</p>	<p>Carl Kneeshaw</p> 	<p>Cyfarwyddwr Pobl (O 01 Tachwedd 2024) Arweinydd Gweithredol ar y Cyd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth</p>
<p>Angela Lewis</p> 	<p>Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant (Hyd at 31 Hydref 2024), Cyfarwyddwr Newid Diwylliant (O 01 Tachwedd 2024) Arweinydd Gweithredol ar y Cyd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant;</p>	<p>Trish Mills</p> 	<p>Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd (Newidiwyd y teitl o Ysgrifennydd y Bwrdd o 08 Mawrth 2024) Hyrwyddwr y Gymraeg</p>

	Hyrwyddwr Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru		
Hugh Parry 	Cynrychiolydd Undebau Llafur ym Mwrdd yr Ymddiriedolaeth	Damon Turner 	Undeb Llafur Cynrychiolydd ym Mwrdd yr Ymddiriedolaeth
Jonny Sammut 	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth		

Aelodau'r Bwrdd a adawodd swyddi'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn

Joga Singh 	Cyfarwyddwr Anweithredol Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (Hyd at 31 Awst 2024)	Yr Athro Kevin Davies 	Cyfarwyddwr Anweithredol (Tan 30 Medi 2024) Hyrwyddwr dros y lluoedd arfog a chyn-filwyr; iechyd meddwl.
--	---	--	--

Yn ychwanegol at y newidiadau a adlewyrchir yn y tablau uchod, mae'r newidiadau a wnaed i aelodau'r Bwrdd yn ystod 2024/25 wedi'u nodi isod. Diweddarwyd matrices sgiliau'r bwrdd yn 2024/25 gyda newidiadau i'r Bwrdd wrth iddynt ddigwydd. Ni chafodd y newidiadau uchod ac isod unrhyw effaith andwyol ar y Bwrdd nac ar wneud penderfyniadau ar y cyd; roedd gan y Bwrdd gyflenwad llawn o aelodau â phleidlais bob amser.

- Estynnwyd cyfnod yr Athro Kevin Davies fel Is-gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth o 31 Awst 2023 i 30 Tachwedd 2023. Ymddiswyddodd fel Is-gadeirydd yn dechrau ar 30 Tachwedd 2023 a chafodd ei ymestyn ymhellach yn ei rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol o 01 Rhagfyr 2023 tan 30 Medi 2024. Gadawodd y Bwrdd ar 30 Medi 2024.
- Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth yr Ymddiriedolaeth addasiad strategol i'w strwythur arweinyddiaeth Pobl a Diwylliant i sicrhau ffocws parhaus ar ein hagenda pobl ehangach a'n blaenoriaethau trawsnewid diwylliant. Ym mis Hydref 2024, symudodd Angela Lewis i rôl rhan-amser, tymor penodol fel Cyfarwyddwr Newid Diwylliant, gan ganiatáu iddi ymroi ei harbenigedd i yrru ein gwaith trawsnewid diwylliannol yn ei flaen. Er mwyn cynnal arweinyddiaeth gref ar draws pob agwedd ar ein gwasanaethau pobl, penodwyd Carl Kneeshaw yn barhaol yn Gyfarwyddwr Pobl, gan oruchwylio swyddogaethau allweddol megis Addysg a Datblygu, Iechyd Galwedigaethol a Lles, Gwasanaethau Pobl, Recriwtio a Chynllunio'r Gweithlu. Mae'r trefniant dros dro hwn, a gynlluniwyd am ddwy flynedd, yn sicrhau cynnydd cynaliadwy wrth ymgorffori newid diwylliannol wrth gynnal gwasanaethau pobl cadarn ar draws y sefydliad.

Yn Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2024, mewn perthynas ag aelodaeth a chyfansoddiad y Bwrdd, nodwyd y canlynol; *“Ystyriom a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Gwelsom fod newidiadau diweddar i aelodaeth y Bwrdd wedi cael eu rheoli'n dda, a bod y Bwrdd wedi parhau i gynnal ei fusnes yn effeithiol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus a gwelliant parhaus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i glywed gan gleifion, staff, a rhanddeiliaid eraill; fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i wella'r trefniadau hyn ymhellach.*

Aelodau ARAC yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2025 oedd Peter Curran (Cadeirydd), Ceri Jackson, a Rhiannon Beaumont-Wood. Newidiodd aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn oherwydd ymddiswyddiad Joga Singh ac ymddeoliad Kevin Davies, Cyfarwyddwyr Anweithredol, a newid i gyfansoddiad pwyllgorau'r Bwrdd yn dilyn penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd.

b) Datganiadau o Fuddiant

Mae'r Gofrestr o ddatganiadau o fuddiant ar gyfer Cyfarwyddwyr i'w gweld ar wefan yr Ymddiriedolaeth, [Cofrestr Buddiannau Aelodau'r Bwrdd ar 31 Mawrth 2025](#). Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth y gofrestr o benderfynwyr yr Ymddiriedolaeth, yn unol â darpariaethau'r Polisi Safonau Ymddygiad Busnes. Gellir gweld y gofrestr ar [dudalen Cyhoeddiadau'r Ymddiriedolaeth](#).

c) Digwyddiadau sy'n Gysylltiedig â Data Personol

Ceir manylion am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol sydd wedi'u hadrodd yn ffurfiol i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a "digwyddiadau anffafriol difrifol" sy'n ymwneud â cholli data neu dorri cyfrinachedd yn y Datganiad Llywodraethu sy'n rhan o'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol hwn. Mae prif risg mewn perthynas â chydymffurfedd â Deddfwriaeth Diogelu Data wedi'i chynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar sgôr o 15 (3x5) ac mae wedi'i halinio â'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i'w goruchwyllo.

d) Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o effaith bosibl ei gweithrediad ar yr amgylchedd ac mae wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- Sicrhau cydymffurfedd â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a Chyfarwydddebau Llywodraeth Cymru.
- Rhannu uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrff cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030.
- Gweithio mewn modd sy'n diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau bod materion amgylcheddol hirdymor a byrdymor yn cael eu hystyried.

- Atal llygredd a lleihau'r effaith amgylcheddol bosibl; a
- Cynnal ei achrediad rheoli amgylcheddol ISO 14001.

Mae gwahanol adrannau'r Adroddiad Perfformiad yn rhoi rhagor o fanylion am y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio, gwaith y Tîm PECl a'n gwirfoddolwyr yn ystod 2024/25. Mae hefyd yn manylu ar gyfranogiad yr Ymddiriedolaeth yn y Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol a thargedau llesiant y Ymddiriedolaeth fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

e) Gofynion Dyrannu Costau a Chodi Tâl

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a chodi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

2.1.2 Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol

Mae'n ofynnol i'r Swyddog Atebol gadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol ohoni, a bod y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Hefyd, mae'n ofynnol i'r Swyddog Atebol gadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'u bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan.

Datganiad

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r Ymddiriedolaeth.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus maen nhw'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu manylu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Atebol, gallaf gadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol ohoni a'm bod wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i sicrhau fy mod i a'r archwilwyr yn ymwybodol o wybodaeth archwilio berthnasol.

Cadarnhaf fod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Gallaf gadarnhau fy mod yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodwyd yn y llythyr sy'n fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Jason Killens

Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: 26 Mehefin 2025

2.1.3 Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr mewn perthynas â'r Cyfrifon

Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr, o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r cyfrifon hyn roi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ac o incwm a gwariant yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr wneud y canlynol:

- cymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiad

Mae'r Cyfarwyddwr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd

Llofnod:

Colin Dennis

Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Dyddiad: 26 Mehefin 2025

Jason Killens
Prif Swyddog Gweithredol
Dyddiad: 26 Mehefin 2025

Chris Turley
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol
Dyddiad: 26 Mehefin 2025

2.1.4 Y Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn dangos sut y gwnaethom reoli adnoddau yn 2024/25 ac i ba raddau y gwnaethom gydymffurfio â'n gofynion llywodraethu ein hunain, gan gynnwys sut rydym wedi monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Wrth wneud hynny, mae'n dwyn ynghyd yr holl ddatgeliadau sy'n ymwneud â llywodraethu, risg a rheoli.

a) Cwmpas Cyfrifoldeb

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn y sefydliad. Mae Prif Weithredwr, fel Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad, tra hefyd yn diogelu arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, mae'r rhain wedi'u cyflawni yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r Tîm Arwain Gweithredol yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr i gyflawni ei atebolrwydd ac yn cyfarfod yn rheolaidd ar gyfer trafodaethau ffurfiannol, cymorth a gwneud penderfyniadau. Adlewyrchir strwythur tebyg yn Nhîm Arweinyddiaeth y Cyfarwyddwyr Cynorthwyol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio, yn fewnol a chyda phartneriaid, mewn ymateb i'r pwysau ar y system wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru, a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i ddarparu. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu. Fodd bynnag, y bwriad fu lleihau dyblygu lle bo modd. Felly, mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu hwn.

b) Fframwaith Llywodraethu

Mae llywodraethu yn disgrifio'r ffyrdd y mae sefydliadau'n sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae hefyd yn disgrifio'r ffyrdd y mae sefydliadau'n agored ac yn atebol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu am y gwaith y maent yn ei wneud. I'r Ymddiriedolaeth, llywodraethu da yw creu fframwaith o fewn yr hyn yr ydym yn:

- Darparu gwasanaethau gofal iechyd o ansawdd da i'n cleifion.
- Bod yn dryloyw yn y ffyrdd rydym yn gyfrifol ac yn atebol am ein gwaith.
- Sicrhau ein bod yn gwella'r ffyrdd rydym yn gweithio'n barhaus ac yn dangos ein hymrwymiad i'r ddyletswydd ansawdd.
- Cadw at egwyddorion llywodraethu da ac [Egwyddorion Nolan](#).

Yn 2024 newidiodd enw'r Ymddiriedolaeth i adlewyrchu'r dynodiad 'Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol'. O 01 Ebrill 2024, enw'r Ymddiriedolaeth oedd Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Mae'r statws hwn yn dangos ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i'r rôl y mae'n ei chwarae yn addysg a datblygiad gweithwyr ambiwlans a'r ymchwil o'r radd flaenaf y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei gwneud i wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru, a'i chydabyddiaeth ffurfiol ohoni.

Sicrhau bod llywodraethu da wrth wraidd y ffordd yr ydym yn gwasanaethu ein cleifion, yn cefnogi ein staff, ac yn cynnal ein sefydliad. Adlewyrchir hyn yn y strwythurau, y systemau, a'r prosesau a sefydlwn i reoli ein cyfrifoldebau'n effeithiol yn ogystal â'r ymddygiadau a ddangoswn a'r safonau yr ydym yn glynu wrthynt. Yn ganolog i'r fframwaith hwn mae ein pobl – mae eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb, a'r safonau moesegol y maen nhw'n eu dilyn wrth gyflawni eu gwaith yn chwarae rhan ganolog wrth gynnal ein safonau llywodraethu.

Mae ein hymagwedd at lywodraethu yn ddeinamig, gan gynnwys craffu parhaus ar ein perfformiad ac ymrwymiad i'r ddyletswydd ansawdd. Mae rhaglen llywodraethu integredig yr Ymddiriedolaeth yn mabwysiadu dull cyfannol o lywodraethu sy'n anelu at symleiddio ac uno mecaneg a dynameg llywodraethu yn yr Ymddiriedolaeth. Mae

hwn yn ymwneud â chymhwyso set o egwyddorion llywodraethu symlach i'r elfennau presennol, sy'n aeddfedu ac sy'n dod i'r amlwg o fframweithiau llywodraethu, atebolrwydd, risg a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Bydd hyn, yn ogystal â'r Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad, yn cefnogi cydlyniad, effeithlonrwydd ac atebolrwydd ar bob lefel o'r 'llawr i'r bwrdd'.

Mae fframwaith llywodraethu'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys y strwythurau, y systemau, y prosesau a'r ymddygiadau y mae'n ofynnol i gyrrff iechyd GIG Cymru eu sefydlu er mwyn sicrhau llywodraethu da, ac maent yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Rheolau Sefydlog, sy'n ymgorffori'r Cynllun Neilltuo a Dirprwyo Grymoedd, a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- Y gofyniad am Fwrdd unedol a'r Pwyllgorau sy'n cefnogi'r Bwrdd, ynghyd â'u cylch gorchwyl.
- Sut mae rheolwyr llinell yn gweithredu, gan gynnwys safonau ymddygiad ac atebolrwydd busnes.
- Cynllunio busnes blynyddol trwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a chynlluniau cyfarwyddiaethau lleol.
- Fframwaith Ansawdd a Rheoli Perfformiad.
- Polisiâu a chanllawiau gweithdrefnol i staff.
- Cofrestrau risg a fframweithiau sicrwydd.
- Archwilio Mewnol; a
- Gwaith craffu gan aseswyr allanol gan gynnwys Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, a rhanddeiliaid eraill.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Rheolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio ei gwaith. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Neddf GIG (Cymru) 2006 a Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990 (OS 1990 Rhif 2024) fel y'u diwygiwyd, yn arfer gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Cynllun Cadw a Dirprwyo, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ymddygiad busnes yr Ymddiriedolaeth ac yn diffinio ei ffyrdd o weithio.

Adroddwyd i'r bwrdd am y diffyg cydymffurfio canlynol â'r Rheolau Sefydlog:

- Ar 06 Mawrth 2025, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor ARAC am y diffyg cydymffurfio â pharagraff 7.2.7 o'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â chymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o 2023. Mae Rheol Sefydlog 7.2.7 yn ei gwneud yn ofynnol "Bydd cofnod o'r cyfarfod yn cael ei gyflwyno i gyfarfod cyffredinol nesaf y Bwrdd i'w gytuno". Nodwyd yn hydref 2024 nad oedd hyn wedi bod yn wir am gofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023 (a gyflwynwyd i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024 i'w cymeradwyo). Cywirwyd yr amryfusedd hwn ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024, a chymeradwywyd y cofnodion gan y bwrdd ym mis Tachwedd 2024.
- Ar 06 Mawrth 2025, derbyniodd ARAC ddiweddariad ynghylch y diffyg cydymffurfio â chymhwysu'r broses dyfarnu contractau mewn perthynas â chaffael digidol. Derbyniodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yr wybodaeth hon yn uniongyrchol drwy ohebiaeth ym mis Chwefror 2025, a dywedwyd wrth y pwyllgor, er bod y broses wedi'i dilyn yn unol â'r Rheolau Sefydlog, fod y contract wedi'i ddyfarnu heb gymeradwyaeth ofynnol y Bwrdd (gan fod y terfyn ariannol yn fwy na therfyn ariannol dirprwyedig y Prif Weithredwr); o'r herwydd, ceisiwyd cymeradwyaeth ôl-weithredol gan y Bwrdd. Cafodd y Bwrdd a'r Pwyllgor sicrwydd o'r camau lliniaru a gymerwyd i sicrhau cydymffurfedd yn y dyfodol.

Ym mis Mai 2024, cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ddiwygiad dros dro i Reol Sefydlog 7.2.5, sef ei bod hi'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gynnal ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) erbyn 31 Gorffennaf fan bellaf bob blwyddyn. Roedd y diwygiad dros dro mewn ymateb i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a ganiataodd i gyrrff y GIG gynnal eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol erbyn 30 Medi 2024 fan bellaf. Mewn ymateb, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ei Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024 ar 27 Medi 2024.

Roedd y newidiadau i Reolau Sefydlog, Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau'r Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

- Newid enw'r Ymddiriedolaeth i adlewyrchu Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol o 01 Ebrill 2024;
- Newidiadau yn nhrefniadau comisiynu'r Ymddiriedolaeth gyda sefydlu'r Cydbwyllgor Comisiynu o 01 Ebrill 2024;
- Newidiadau i broses logistaidd y Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau sy'n deillio o'r newidiadau, ynglŷn â dyfarnu contractau. Mae'r Rheolau Sefydlog a'r dogfennau cysylltiedig i'w gweld yn adran [cyhoeddiadau](#) ein gwefan;
- Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Bwrdd newidiadau i'r Rheolau Sefydlog (Prif Ddogfen) mewn perthynas â chyhoeddi papurau fel ei bod bellach yn nodi bod yn rhaid bod o leiaf bum niwrnod clir rhwng cyhoeddi papurau a chyfarfod o'r bwrdd. Gwnaed newidiadau bach eraill o ran enwi;
- Yn ogystal ym mis Mawrth 2025, gwnaed newidiadau i'r Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau (Atodlen 1) i ddiweddarau teitlau'r Cyfarwyddwyr o fewn Tablau A a B.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol. Mae'n canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

- **Strategaeth:** Datblygu strategaeth, gweledigaeth a phwrpas yr Ymddiriedolaeth. Nodi blaenoriaethau, sefydlu nodau ac amcanion, defnyddio adnoddau, deall risgiau i gyflawni amcanion, a dyrannu cyllid i gefnogi'r penderfyniadau y mae angen eu gwneud ynghylch cynllunio strategol.
- **Ymgorffori Ymddygiad Moesegol:** Mae'r Bwrdd yn llunio diwylliant yr Ymddiriedolaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy'r ffordd y mae'n ymgysylltu â'n pobl, ein cleifion a rhanddeiliaid, y ffordd y mae'n rheoli ei agenda, yn ôl natur y trafodaethau yn y Bwrdd a'r pwyslais cymharol a roddir ar feini prawf perfformiad gwahanol, yn ôl amlygrwydd ei aelodau yn y sefydliad, ac yn ôl ble mae'n dewis buddsoddi amser ac adnoddau. Rhaid i

aelodau'r Bwrdd gadw at y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a gonestrwydd a chadw at Egwyddorion Nolan.

- **Ansawdd:** Yn gosod disgwyliadau ac atebolrwydd ar draws y sefydliad ar gyfer perfformiad uchel a chydymffurfio â'r ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd fel y'u nodir yn Neddf Iechyd a Gofal (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Sicrhau bod yr holl staff yn deall eu rôl o ran darparu gofal effeithiol ac o ansawdd uchel mewn fframwaith llywodraethu sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng ymddiriedaeth, trafodaeth adeiladol, a her effeithiol mewn diwylliant o fod yn agored a dysgu.
- **Rheoli Risg:** Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am reoli risg a sicrhau bod system gadarn o reoli risg a rheolaethau mewnol ar waith, a'u bod yn edrych ar y camau lliniaru sydd ar waith ar gyfer y prif risgiau i gyflawni'r strategaeth.
- **Cael Sicrwydd ar Gyflawni Strategaeth a Pherfformiad:** Dwyn i gyfrif a mynnu eu bod yn atebol am gyflawni'r strategaeth yn unol â'r fframweithiau strategol a pherfformiad a ddatblygwyd gan y Bwrdd, a chanolbwyntio ar strategaeth, perfformiad, diwylliant ac ymddygiadau. Mae Aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol yr Ymddiriedolaeth ac yn darparu arweiniad a chyfeiriad, gan sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith.

Mae'r **Bwrdd yn cynnwys** y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, chwe Chyfarwyddwr Anweithredol a chwe Chyfarwyddwr Gweithredol. Cefnogir y Bwrdd gan bum Cyfarwyddwr arall heb bleidlais a dau gynrychiolydd Partner Undebau Llafur. Roedd pedwar aelod di-bleidlais ar y Bwrdd tan 31 Hydref 2024 pan gynyddodd hyn i bump, gyda phenodiad Carl Kneeshaw yn Gyfarwyddwr Pobl o 01 Tachwedd 2024. Mae manylion pellach am y newid arweinyddiaeth hwn yn y Gyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr.

Mae'r Bwrdd yn cynnal cyfarfodydd wedi'u hamserlennu bob deufis, ynghyd â chyfarfod ychwanegol i gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Cyfarfu Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gyhoeddus saith gwaith yn 2024/25 a saith gwaith mewn sesiwn breifat lle trafodwyd materion cyfrinachol a/neu sensitifrwydd masnachol. Mae penderfyniadau a wneir yn sesiwn breifat y

Bwrdd a Phwyllgorau yn cael eu hadrodd wedyn yn sesiwn gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Roedd cyfansoddiad priodol i **gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn 2024/25** ac roedd ganddynt gworwm i gyd. Ni wnaeth yr Ymddiriedolaeth ganslo unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd na Phwyllgorau Bwrdd a drefnwyd yn ystod 2024/25. Cyfarfu unig grŵp cynghori'r Bwrdd, Tîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WASPT), chwe gwaith yn 2024/25 ac mae'n adrodd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyfarfod yn gyhoeddus ac mae wedi gwneud hynny ar gyfer ei chyfarfodydd Bwrdd yn 2024/25. Cynhaliwyd holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn 2024/25 yng Ngorsaf Ambiwylans Caerdydd.

Drwy gydol 2024/25, roedd Pwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu hwyluso mewn modd hybrid yn bennaf, er bod rhai yn parhau i ddigwydd yn rhithwir dros Microsoft Teams. Mae'r dull hwn yn effeithiol o ran hwyluso cyfarfodydd o ystyried cylch gwaith cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth ac mae'n caniatáu mwy o gyfranogiad gan aelodau a mynychwyr ledled Cymru.

Er mwyn sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd mor agored a thryloyw â phosibl, gall ein pobl, ein cleifion a'n rhanddeiliaid ymuno â chyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a'r Pwyllgor a chyflwyno cwestiynau cyn y cyfarfodydd. Mae cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi cael eu darlledu'n fyw ar dudalen Facebook yr Ymddiriedolaeth; fodd bynnag, o fis Mawrth 2025 ymlaen mae'r Ymddiriedolaeth wedi symud i hwyluso'r cyfarfodydd hyn drwy Microsoft Townhall sy'n golygu nad yw'r swyddogaeth darlledu byw ar gael.

Mae recordiadau o'r cyfarfodydd yn dal i gael eu cadw ar YouTube a gwefan yr Ymddiriedolaeth i'w gweld a'u cyfeirio atynt yn y dyfodol. Mae'n dal yn bosibl cofrestru a gwyllo'r cyfarfod mewn amser real, fel yr oedd yn wir gyda gwe-seminarau Zoom. Mae manylion sut i ymuno â chyfarfod y bwrdd neu bwyllgor ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#).

Mae manylion am ddyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau i'w gweld yn Atodiad un ac Atodiad dau. Cyhoeddir agendâu a phapurau ar gyfer sesiynau cyhoeddus ar [wefan](#) yr Ymddiriedolaeth saith diwrnod calendr cyn cyfarfod. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024 drwy Zoom ar 27 Medi 2024, a chafodd y cyfardod hwn ei [ffrydio'n fyw](#). Cynhaliwyd y cyfarfod ym mis Medi 2024 yn hytrach na mis Gorffennaf (yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth) gan ei fod yn adlewyrchu'r amserlen archwilio estynedig ar gyfer Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023/24.

Ffocws allweddol y Bwrdd yn ystod y flwyddyn oedd cyflawni perfformiad a sicrwydd ansawdd a gwelliant, mewn amgylchedd lle roedd y pwysau system yn y GIG yng Nghymru yn parhau i fod yn nodwedd allweddol. Ymhellach, mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau wedi ymrwymo cryn dipyn o amser i drafod y niwed yr oedd ein cleifion a'n pobl yn agored iddo ac yn parhau i fod yn agored iddo; a thrwy wneud hynny sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud popeth o fewn ei gallu i liniaru hyn. Cyflwynwyd newidiadau pwysig hefyd yn 2024/25 gyda'r model clinigol diwygiedig a'r Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol gysylltiedig, a oedd yn ffocws i'r Bwrdd. Ar ben hynny, eleni dechreuodd y Bwrdd dderbyn adroddiadau gan y Gwarcheidwad Codi Llais heb Ofn ar drefniadau Codi Llais heb Ofn yr Ymddiriedolaeth sydd wedi'u ffurfioli a'u gwella dros y blynyddoedd diwethaf.

Cofnodwyd a chadwyd penderfyniadau a chamau gweithredu ar ffurf cofnodion cyfarfodydd a chofnod gweithredu ategol, a chaiff y ddau ohonynt eu hadolygu ym mhob cyfarfod. Mae penderfyniadau allweddol a materion busnes arwyddocaol y mae angen eu huwchgyfeirio yn cael eu gwneud gan bob Pwyllgor i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar ôl pob cyfarfod Pwyllgor ar ffurf adroddiad Rhybuddio, Cynghori a Sicrhau. Dyma enghreifftiau o'r materion llywodraethu a rheoli allweddol yr aeth y Bwrdd i'r afael â nhw yn ystod 2024/25:

- Adroddiad Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2024.
- Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2024.
- Cyfrifon ac adroddiad blynyddol Cronfeydd Elusennol (Elusen yr Ymddiriedolaeth).

- Adroddiadau integredig misol ar ansawdd a pherfformiad wedi'u halinio â cherdyn sgorio cytbwys ein cleifion, ein pobl, ein gwerth, a'n partneriaethau.
- Cyflawni cynllun Tymor Canolig Integredig 2024/27 a chymeradwyo cynllun 2025/28.
- Adroddiadau perfformiad ariannol rheolaidd.
- Straeon cleifion a staff.
- Fframwaith Sicrwydd Risg a Bwrdd.
- Rheolau Sefydlog, Cynllun Cadw a Dirprwyo Grymoedd, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- Adolygiadau effeithiolrwydd blynyddol a diwygiadau i gylch gorchwyl pob Pwyllgor.
- Adnewyddu'r Cynllun Digidol 2024/2029.
- Adroddiadau sicrwydd Codi Llais heb Ofn.
- Adnewyddu'r Fframwaith Ansawdd a Rheoli Perfformiad.
- Amcanion Llesiant yr Ymddiriedolaeth.
- Y Cynllun Iechyd a Llesiant 2025/2029.
- Adroddiad Blynyddol, cyfrifon a datganiadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth.
- Adroddiad Blynyddol y Gymraeg ac;
- Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd.

Ceir rhagor o fanylion am waith Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn 2024/25 ar ein gwefan [yma](#), gan gynnwys dyddiadau cyfarfodydd, papurau, cofnodion a recordiadau o gyfarfodydd blaenorol. Yn ogystal, mae gan y Bwrdd 'Gweledded a Chyfranogiad y Bwrdd – cofnodi ein profiad', Gweithdrefn Weithredu Safonol y mae'n ei dilyn, i gefnogi eu harweinyddiaeth o'r Ymddiriedolaeth. Adroddwyd ar hyn i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2025 a gellir dod o hyd iddo [yma](#).

Parhaodd **Rhaglen Datblygu'r Bwrdd** yn 2024/25 gyda ffocws ar ddeall, dysgu a myfyrio. Roedd nifer dda yn bresennol yn y chwe sesiwn a drefnwyd ac fe'u cynlluniwyd i ysgogi trafodaeth ar fentrau strategol; siapio diwylliant ac ymddygiadau; cryfhau'r broses o weithio mewn systemau a phartneriaethau; gwella gwybodaeth am yr amgylchedd rheoleiddio a chaniatáu ar gyfer briffio mwy manwl ar faterion cymhleth cyn cyfarfodydd ffurfiol. Yn dilyn sylwadau yn yr Asesiad Strwythuredig 2024, mae'r sesiynau hyn hefyd yn cynnwys adborth gan

Gyfarwyddwyr Anweithredol ar yr ymweliadau a wnaethant yn yr wythnosau blaenorol.

Roedd y sesiynau'n cynnwys:

- Cynllunio strategol.
Cyfrifoldebau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion.
- Sesiynau ar Drawsnewid y Model Clinigol yr Ymddiriedolaeth a gofal clinigol o bell.
- Archwiliad ac adborth enw da.
- Masnacheiddio.
- Arfer ambiwlans rhyngwladol o Awstralia, UDA a Chanada.
- Cyfrifoldebau'r ddyletswydd ansawdd a'r ddyletswydd gonestrwydd.
- Sesiynau ar ddatblygu datganiadau archwaeth risg yr Ymddiriedolaeth.
- Seiberddiogelwch
- Fframwaith y Gymraeg Mwy na geiriau.
- Datblygiad Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025/28.


Mae **Elusen Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru** (rhif cofrestru 1050084) wedi'i chofrestru fel elusen gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu fel Ymddiriedolwr Corfforaethol yr Elusen. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn gyfrifol am reolaeth, rheoli a gweinyddu ei elusen yn gyffredinol, yn ogystal â gosod ei nodau a'i hamcanion strategol. Y Pwyllgor Elusensy'n goruchwyllo'r Elusen. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr elusen ar gyfer 2023/24 ar wefan yr Ymddiriedolaeth [yma](#). Mae adroddiad Archwiliad Annibynnol Archwilio Cymru ar gael ym mhapurau'r Ymddiriedolwyr Corfforaethol o'i gyfarfod ym mis Ionawr 2025, sydd ar gael [yma](#). Ymunodd Pennaeth yr Elusen ym mis Hydref 2024 i gefnogi ei datblygiad strategol.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae gan y Bwrdd saith Pwyllgor Bwrdd sefydlog, pob un yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol. Mae pwyllgorau'n chwarae rhan bwysig o ran cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau drwy:

- roi cyngor ar ddatblygiad strategol a pherfformiad o fewn y cylch gorchwyl.
- cael sicrwydd a chynnyg trosolwg ar agweddau allweddol ar berfformiad sefydliadol, a chefnogi cyflawniad nodau strategol yr Ymddiriedolaeth.
- cyflawni cyfrifoldebau penodol ar ran y Bwrdd; a
- chynnyg fforwm lle gellir archwilio syniadau'n fanylach nag y gall cyfarfodydd y Bwrdd ei ganiatáu, gan ddarparu amser a lle i ystyried materion yn fanylach.

Mae papurau a chofnodion pwyllgorau ar gyfer pob cyfarfod wedi'u cynnwys yn adran y [Pwyllgor](#) ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae strwythur Pwyllgorau'r Bwrdd fel a ganlyn:



Welsh Ambulance Services University NHS Trust

Mae Cadeiryddion Pwyllgorau yn paratoi adroddiad uchafbwyntiau ar gyfer y Bwrdd sy'n seiliedig ar fodel rhybuddio, cynghori a sicrhau. Dosberthir hwn i'r Bwrdd yn dilyn pob cyfarfod a'i drafod yng nghyfarfod y Bwrdd yn dilyn y cyfarfod hwnnw o'r Pwyllgor. Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau i'r Bwrdd hefyd wedi iddynt gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor perthnasol. Cyhoeddir Cofnodion ac adroddiadau rhybuddio, cynghori a sicrhau gan bob Pwyllgor o fewn 14 diwrnod i'r cyfarfod. Mae'r Cofnodion ac adroddiadau rhybuddio, cynghori a sicrhau gan y Pwyllgor Elusen yn cael eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Corfforaethol lle bo modd.

Yn ogystal ag adrodd i'r Bwrdd, mae Pwyllgorau'n sicrhau bod croes-adrodd ac ystyriaeth yn digwydd, a rhoddir sicrwydd a chyingor i'r Bwrdd a'r sefydliad ehangach. Mae gan bob Pwyllgor Bwrdd Gyfarwyddwr Gweithredol neu Gyfarwyddwyr arweiniol sy'n cydweithio'n agos â Chadeirydd y Pwyllgor hwnnw a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd wrth osod agendâu, cynllunio'r cylch busnes a sicrhau bod gwybodaeth amserol o ansawdd da yn cael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor. Ar ôl pob cyfarfod o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, gofynnir am fyfyrnodau ar unwaith gan y grŵp ar y cyfarfod, sy'n aml yn llywio newidiadau i drefniadau gweithredu.

Rhoddir cylch gorchwyl pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth a cheir crynodeb o gyfrifoldebau pob un o'r Pwyllgorau isod. Cwblhaodd yr Ymddiriedolaeth adolygiadau effeithiolrwydd cynhwysfawr a diweddariadau i gylch gorchwyl pob Pwyllgor Bwrdd yn ystod 2024/25.

Mae pob Pwyllgor wedi paratoi adroddiad blynyddol ar ei fusnes a'i effeithiolrwydd yn 2024/25, gyda'r adroddiadau blynyddol a'r cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer pob Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2025. Mae papurau'r cyfarfod hwn ar gael [yma](#). Nodwyd bod enw'r Pwyllgor Archwilio wedi'i addasu yn ystod y flwyddyn i'r ARAC, yn dilyn adolygiad effeithiolrwydd y pwyllgor yn 2023/24.

Mae'r **Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd** yn ymdrin â'i gylch gwaith gyda chymysgedd o graffu (yn enwedig o ran blaenoriaethau wedi'u hadnewyddu a chyflawni Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol, partneru (sicrhau bod y partneriaid cywir ar y Pwyllgor a bod trefniadau priodol yn eu lle gyda phartneriaid), cysylltu (gyda phartneriaid presennol a newydd ag ymchwil/rhaglenni gwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ac ymchwilio (dadansoddi elfennau o'r blaenoriaethau a rhaglenni eraill lle'r ydym yn partneru ag academyddion a diwydiant i feithrin a hyrwyddo). Yn ystod y flwyddyn, croesawodd yr Ymddiriedolaeth ei Chyfarwyddwr Anweithredol academiaidd cyntaf, yr Athro Hayley Hutchings, a ymunodd â Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 11 Tachwedd 2024. Tynnodd adolygiad effeithiolrwydd y

pwyllgor eleni sylw at yr angen i ystyried ei gylch gwaith mewn goleuni newydd o ystyried bod Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol bellach wedi'i gadarnhau.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2024/25. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Mae cynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn wedi'i fanylu yn adroddiad blynyddol y pwyllgor 2024/25, sydd ar gael ar dudalen gyhoeddus y pwyllgor: [yma](#). Mae holl bapurau, cofnodion ac adroddiadau uchafbwyntiau'r pwyllgor o'r flwyddyn gyfan hefyd ar gael ar y dudalen hon.

Mae'r **Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC)** yn darparu ffynhonnell allweddol o sicrwydd i'r Bwrdd fod gan y sefydliad reolaethau effeithiol ar waith i reoli'r risgiau rhag cyflawni ei amcanion strategol ac adolygu prosesau llywodraethu a sicrwydd. Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod 2024/25. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Mae cynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn wedi'i fanylu yn adroddiad blynyddol y pwyllgor 2024/25, sydd ar gael ar dudalen gyhoeddus y pwyllgor: [yma](#). Mae holl bapurau, cofnodion ac adroddiadau uchafbwyntiau'r pwyllgor o'r flwyddyn gyfan hefyd ar gael ar y dudalen hon.

Diben y **Pwyllgor Elusen** yw gwneud a monitro trefniadau ar gyfer rheoli cronfeydd elusennol yr Ymddiriedolaeth a'i chyfeiriad strategol. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2024/25. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Mae cynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn wedi'i fanylu yn adroddiad blynyddol y pwyllgor 2024/25, sydd ar gael ar dudalen gyhoeddus y pwyllgor: [yma](#). Mae holl bapurau, cofnodion ac adroddiadau uchafbwyntiau'r pwyllgor o'r flwyddyn gyfan hefyd ar gael ar y dudalen hon.

Mae'r **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad** yn cefnogi'r Bwrdd drwy roi sicrwydd ynghylch cyfrifoldebau ariannol a chynllunio statudol yr Ymddiriedolaeth ac mae ganddo rôl fonitro mewn darparu a chyflawni swyddogaethau busnes ar draws yr Ymddiriedolaeth. Cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod 2024/25. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Mae cynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn wedi'i fanylu yn adroddiad blynyddol y pwyllgor 2024/25, sydd ar gael ar dudalen gyhoeddus y pwyllgor: [yma](#). Mae holl bapurau, cofnodion ac adroddiadau uchafbwyntiau'r pwyllgor o'r flwyddyn gyfan hefyd ar gael ar y dudalen hon.

Mae'r **Pwyllgor Pobl a Diwylliant** yn cefnogi'r Bwrdd drwy roi sicrwydd ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â'i weithlu sy'n cynnwys rhai cyflogedig a gwirfoddolwyr. Mae'r Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd am ei drefniadau arweinyddiaeth, ymddygiadau a diwylliant, hyfforddiant, addysg a datblygiad, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a'r Gymraeg. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2024/25. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Mae cynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer y flwyddyn wedi'i fanylu yn adroddiad blynyddol y Pwyllgor 2024/25, sydd ar gael ar dudalen gyhoeddus y pwyllgor: [yma](#). Mae holl bapurau, cofnodion ac adroddiadau uchafbwyntiau'r pwyllgor o'r flwyddyn gyfan hefyd ar gael ar y dudalen hon.

Mae'r **Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch (QuEST)** yn cefnogi Bwrdd yr Ymddiriedolaeth drwy roi sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu clinigol yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig y rhai ar gyfer diogelu a gwella ansawdd a diogelwch gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar y claf. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2024/25. Drwy gylch busnes y Pwyllgor, darparwyd llif rheolaidd o sicrwydd yn ogystal â diweddariadau a materion i'w trafod a'u cymeradwyo. Lle bo angen, uwchgyfeiriodd y Pwyllgor faterion o bryder i'r Bwrdd. Mae cynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn wedi'i fanylu yn adroddiad blynyddol y pwyllgor 2024/25, sydd ar gael ar dudalen gyhoeddus y pwyllgor: [yma](#). Mae holl bapurau, cofnodion ac

adroddiadau uchafbwyntiau'r pwyllgor o'r flwyddyn gyfan hefyd ar gael ar y dudalen hon.

Mae'r **Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth** yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer tâl cydnabyddiaeth a thelerau gwasanaeth i staff, yn enwedig uwch aelodau staff. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod mewn sesiwn gaeedig yn unig a chyfarfu bedair gwaith yn ystod 2024/25. Mae holl Gyfarwyddwyr Anweithredol yr Ymddiriedolaeth yn aelodau o'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, a Chadeirydd y Pwyllgor yw Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Grwpiau Cyngori

I gefnogi'r Bwrdd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu WASPT sef y fforwm lle mae uwch arweinwyr, undebau llafur a sefydliadau proffesiynol yn cydweithio â'i gilydd i wella gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth i bobl Cymru. Dyma'r prif fforwm partneriaeth ar gyfer trafod blaenoriaethau a strategaethau cenedlaethol a lle mae Partneriaid Undebau Llafur ac uwch arweinwyr yn ymgysylltu â'i gilydd i lywio, trafod a cheisio cytuno ar flaenoriaethau ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu a'r gwasanaeth iechyd. Mae'r Grŵp Cyngori hwn yn darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori, cyd-drafod a chyfathrebu rhwng yr undebau llafur ac uwch arweinwyr yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Grŵp hwn yn adrodd i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mhob cyfarfod, gyda materion yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd a thrwy adroddiad rhybuddio, cynghori a sicrhau y Pwyllgor Pobl a Diwylliant. Mae WASPT yn cyfarfod bob deufis a chynhaliwyd chwe chyfarfod yn 2024/25 wyneb yn wyneb ac mewn sesiwn preifat. O fis Mai 2024 roedd pob cyfarfod yn cynnwys gweithdy anffurfiol ar faterion cyfoes.

Mae fforymau gweithredol a chorfforaethol wedi'u sefydlu gan WASPT sy'n adrodd iddo er mwyn galluogi delio â materion yn lleol, ac i WASPT weithredu mewn gofod mwy strategol. Cynhaliodd y Grŵp ei adolygiad effeithiolrwydd ym mis Mawrth 2025 a bydd ei gylch gorchwyl a'i adroddiad blynyddol yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd ym mis Mai 2025 gyda newidiadau priodol yn cael eu cynnig i'w drefniadau gweithredu.

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid na fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (fel y'i diffinnir yn Llawlyfr Cyfrifon Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) gan nad yw'r rhain yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth.

Cyd-bwyllgorau a Phwyllgorau Cymru Gyfan

O 01 Ebrill 2024 ymlaen, disodlodd Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol a Phwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru.

Mae'r Cyd-bwyllgor Comisiynu yn bwyllgor ar y cyd o'r saith Bwrdd Iechyd, ac mae ganddo gyfrifoldeb am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys gan gynnwys GIG 111 Cymru a gwasanaethau arbenigol a ddarparwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru, ar sail Cymru gyfan.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cyd-bwyllgor Comisiynu a'i rôl gomisiynu wedi'i nodi yn yr Adroddiad Perfformiad, yn benodol, y newidiadau i drefniadau comisiynu sy'n dod i rym ym mis Ebrill 2024. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran 'Gwneud penderfyniadau a llywodraethu' yn yr Adroddiad Perfformiad.

Sefydlwyd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn 2012 ac fe'i cynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae ganddo gyfrifoldeb am y swyddogaethau a rennir ar gyfer GIG Cymru, megis caffael, recriwtio a gwasanaethau cyfreithiol. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau gweithgaredd rheolaidd y Pwyllgor. Mae Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn aelod o'r Pwyllgor hwn. Mae adroddiadau gan y Pwyllgorau hyn wedi'u cynnwys ym mhob pecyn Bwrdd, lle'r oeddent ar gael.

Gwelliannau i'r Fframwaith Llywodraethu

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn asesu effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn rheolaidd, y mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn rhan annatod ohonynt. Bydd newidiadau i drefniadau gweithredu yn dilyn adolygiadau effeithiolrwydd blynyddol y Pwyllgor yn cael eu cynnig i'r Bwrdd ym mis Mai 2025. Mae rhestr lawn o newidiadau i

drefniadau gweithredu ar gael yn y papurau ar gyfer cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mai 2025, sydd ar gael [yma](#).

Cwblhawyd y newidiadau a nodwyd yn dilyn adolygiadau effeithiolrwydd blynyddol 2023/24 drwy gydol 2024/25 ac adroddwyd ar hyn i ARAC ym mis Mai 2025. Er bod cynnydd da wedi'i wneud, bydd y mater o gynnal cyfarfodydd y Bwrdd mewn lleoliadau ledled y wlad yn cael ei ystyried ymhellach, gan na chafodd ei weithredu yn 2024/25.

Gan gyfeirio'n benodol at ARAC, drwy gydol y flwyddyn, cyfarfu aelodau Cyfarwyddwyr Anweithredol y Pwyllgor, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd yn chwarterol i adolygu cwestiynau pecyn cymorth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a oedd yn sail i drafodaethau'r Pwyllgor ar yr adolygiad effeithiolrwydd blynyddol.

c) Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid absoliwt o effeithiolrwydd y gall ei roi.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a luniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisiau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, yr effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol a darbodus.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn parhau yn ei lle ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

d) Y gallu i ymdrin â risg

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i reoli risg yn weithredol ac yn effeithiol fel elfen allweddol wrth gyflawni ei hamcanion busnes a strategol, darpariaeth gwasanaeth i'r cyhoedd yn llwyddiannus ac mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i

sicrhau bod staff ym mhob rhan o'r sefydliad yn cael eu hyfforddi a'u harfogi i nodi, dadansoddi, gwerthuso, trin ac uwchgyfeirio risgiau.

Mae rheoli risg yn gyfrifoldeb allweddol ar y cyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac mae'n parhau i fod yn rhan annatod o'r trefniadau llywodraethu a gweithgareddau sefydliadol i gefnogi gwneud penderfyniadau, cryfhau ac effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad uchelgais strategol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhoi eglurder ynghylch y risgiau a fyddai'n ein hatal rhag cyflawni ein hamcanion sefydliadol.

Fframwaith Rheoli Risg

Mae'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Atebol, yn gyfrifol yn gyffredinol am sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith rheoli risg effeithiol a system rheolaeth fewnol ar waith fel sy'n ofynnol gan y Rheolau Sefydlog; fodd bynnag, mae gan Gyfarwyddwyr gyfrifoldeb am berchenogaeth a rheolaeth y risgiau corfforaethol a'r risgiau gweithredol yn eu portffolios eu hunain.

Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n gyfrifol am arwain ar gynllunio, datblygu a gweithredu'r Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd, sy'n rhoi darlun o'r rheolaethau a'r sicrwydd cysylltiedig, a'r camau y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i liniaru'r risgiau.

Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd presennol yr Ymddiriedolaeth wedi'i fapio i dargedau cyflawnadwy y Cynllun Tymor Canolig Integredig a, thrwy hynny, i'r amcanion strategol. Mae'r ddolen i'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r adroddiad risg a drafodwyd ym Mwrdd yr Ymddiriedolaeth ar 27 Mawrth 2025 i'w gweld [yma](#). Nod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd strategol yw rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y risgiau allweddol i'r amcanion strategol yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Nododd Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2024 fod "yr Ymddiriedolaeth yn ymgymryd â rhaglen waith sylweddol i gryfhau ei threfniadau rheoli risg, gan gynnwys

gwella Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i sicrhau ei bod yn canolbwyntio mwy ar y risgiau i gyflawni amcanion strategol”.

Cynhaliodd Archwilio Mewnol ei archwiliad blynyddol, wedi'i gynllunio ar reoli risg yn Chwarter pedwar 2024/25, gyda'r amcan cyffredinol o asesu effeithiolrwydd y gweithdrefnau ar gyfer nodi, rheoli ac adrodd ar risg strategol a gweithredol allweddol drwy'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol a nododd ddatblygiad y Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd strategol newydd a fydd yn canolbwyntio'n fwy penodol ar gyflawni amcanion strategol a bod adrodd ar y risgiau allweddol cyfredol drwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gweithio'n effeithiol. Amlygodd yr adroddiad un argymhelliad blaenoriaeth ganolig i adolygu a diweddarau gweithdrefnau a dogfennau'r Fframwaith Rheoli Risg ar ôl i'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd strategol newydd gael ei gwblhau a'i gyflwyno a'r datganiadau archwaeth risg gael eu cwblhau.

Yn ystod 2024/25, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i wneud cynnydd ar ei huchelgais i ddatblygu a chyflawni fframwaith rheoli risg strategol fel galluogwr allweddol ar gyfer ein strategaeth a'n prosesau gwneud penderfyniadau hirdymor. Mae'r ffaith bod y fframwaith rheoli risg yn parhau i aeddfedu yn cefnogi'r Ymddiriedolaeth i ganolbwyntio ar ba un a yw camau lliniaru yn cael eu cymryd a chyflawni eu heffaith arfaethedig ar risgiau a heriau sylweddol a pharhaus, ac i gefnogi'r Bwrdd i herio lle nad yw'r effaith honno'n cael ei dangos na'i chynnal. Mae ffocws penodol yn parhau i sicrhau bod risgiau'n cyflawni eu sgôr darged trwy adolygu rheolaethau, sicrwydd ac unrhyw fylchau'n rheolaidd.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARAC) yn parhau i oruchwyllo datblygiad y Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd strategol a'r datganiadau archwaeth risg yn 2025/26.

Monitro a Chofnodi Risgiau

Mae prosesau ar waith ar gyfer cofnodi a monitro risgiau ar draws yr Ymddiriedolaeth; fodd bynnag, rydym yn chwilio am ateb digidol newydd sy'n

cefnogi ein rheolaeth risg menter, rheolaeth risg strategol, a chynhyrchu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd digidol.

Mae amllder monitro risgiau a lefelau'r cynnydd wedi'u nodi yn y Canllawiau Rheoli Risg sy'n cefnogi cyflawni'r Polisi Rheoli Risg ac yn galluogi risgiau â sgôr is i gael eu rheoli'n lleol gan berchennog y risg a swyddogion, timau a rheolwyr dirprwyedig sydd yn y sefyllfa orau i'w lliniaru. Mae'r dogfennau hyn yn disgrifio prosesau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer asesu a thrin risg trwy gofrestrau risg lleol, cyfarwyddiaethau a chorfforaethol. Mae'r rhain yn galluogi perchnogion risg i gymhwyso sgorau risg cynhenid, cyfredol a tharged priodol gan ddefnyddio matrices 5 x 5 ar gyfer tebygolrwydd a chanlyniad a fabwysiadwyd fel fframwaith arfer gorau ledled Cymru.

Cynhyrchwyd dogfen ganllaw yn cefnogi'r Bwrdd i ddehongli'r rhannau o'r Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r cwestiynau y mae'n eu gofyn i geisio lefelau priodol o sicrwydd.

Parodrwydd i Dderbyn Risg

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu fel rhan o system gofal iechyd a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru ac nid oes ganddi adnoddau diderfyn, felly mae'n pennu priodoldeb a chost yr adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r risgiau corfforaethol.

I fod yn fwy penodol ynglŷn ag archwaeth risg yn erbyn pob un o'n hamcanion strategol, dechreuwyd gweithio ar ddatblygu cyfres o ddatganiadau awydd am risg yn 2024/25 gyda Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Bydd y datganiadau hyn yn diffinio lefel y risg y mae'r Ymddiriedolaeth yn fodlon ei chymryd neu ei derbyn wrth fynd ar drywydd ei hamcanion strategol i sicrhau canlyniadau gwell i'n cleifion, ein pobl a'n cymunedau ac wrth weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

Proffil Risg

Mae proffil risg yr Ymddiriedolaeth yn destun craffu gan uwch reolwyr a'r Bwrdd. Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 27 Mawrth 2025 roedd tair ar ddeg o risgiau

corfforaethol, ar draws y sefydliad, ar restr risgiau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth gyda deg yn sgorio 15 ac uwch.

Mae risgiau'r Ymddiriedolaeth â'r sgôr uchaf, rhif adnabod 223 (*anallu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd cleifion yn y gymuned sy'n achosi niwed a marwolaeth i gleifion*), a rhif adnabod 224 (Mae oedi sylweddol wrth drosglwyddo gofal y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys yn effeithio ar oedi wrth gael mynediad at ofal diffiniol ac yn effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion), yn aros yr un fath er bod cyfres o gamau lliniaru ar waith a sawl diweddariad i'r rheolaethau. Roedd nifer yr oriau a gollwyd oherwydd oedi wrth drosglwyddo cleifion yn parhau i fod yn sylweddol, sef 18,811 awr ym mis Chwefror 2025, ac maent yn parhau i gyflwyno risgiau i ddiogelwch cleifion ac arosiadau hir yn y gymuned, gyda pherfformiad Coch sy'n dirywio y tu allan i'r hyn sy'n dderbyniol i ddarparu gwasanaeth brys diogel.

Mae pwysau parhaus ac eithafol ar draws system gofal brys a gofal mewn argyfwng GIG Cymru yn cael effaith negyddol ar lif cleifion, gan arwain at niwed a marwolaeth cleifion y gellir eu hosgoi. Mae ffactorau mewnol ac allanol yn rhoi gwasanaethau dan bwysau difrifol, sy'n cyflwyno risgiau o ran diogelwch cleifion.

Mae'r risgiau'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gael eu hadolygu'n ddeinamig ar y cyd â'i gilydd a'u monitro'n agos gan reolwyr, Pwyllgorau'r Bwrdd, a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn ogystal â fforymau mewnol.

Nid yw'r sgôr risg ar gyfer y ddau risg sydd â'r sgôr uchaf uchod yn seiliedig ar nifer yr achosion o niwed trychinebus, mae'n seiliedig ar unrhyw un unigolyn sy'n profi niwed y gellir ei osgoi. Bydd dimensiwn ansawdd pob un o'r risgiau hyn bob amser yn un heriol i'w lleihau tra bod cleifion a'r Ymddiriedolaeth yn profi oedi yn y ffordd y maent ar hyn o bryd.

Fel yr adroddwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2025, er bod cynnydd da wedi'i wneud ar y camau gweithredu y gall yr Ymddiriedolaeth eu rheoli, mae'r pwysau eithafol yn parhau. Oherwydd hyn, y tebygrwydd yw y bydd y lefelau o niwed

y gellir ei osgoi yn parhau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio'n barhaus am gamau gweithredu ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn, gyda phwyslais penodol ar y rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol. Mae'r camau gweithredu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a rhanddeiliaid wedi'u nodi yn y papur niwed y gellir ei osgoi y mae'r Bwrdd yn ei ystyried ym mhob cyfarfod.

Er mwyn cefnogi'r adolygiad a'r lliniaru parhaus a manwl o'r risgiau hyn â'r sgoriau uchaf, cynhaliwyd nifer o weithdai drwy gydol 2024/25 gydag aelodau o dimau uwch y Perchennog Risg i gyfrannu at ddylunio a datblygu dull gwahanol o reoli a monitro'r meysydd hynny sydd o fewn rheolaeth yr Ymddiriedolaeth a'r rhai nad ydynt. Mae'r gwaith hwn yn parhau i mewn i 2025/26.

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn rhoi manylion y camau lliniaru ar gyfer yr holl brif risgiau, a chaiff y rhain eu diweddarau pan gaiff risgiau eu hadolygu yn unol â'r amserlen adolygu. Disgrifir y deg risg corfforaethol sefydliadol sy'n sgorio 15 ac uwch yn y tabl isod.

Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL				
RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYSO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
223 QuEST	Anallu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd cleifion yn y gymuned gan achosi niwed a marwolaeth i gleifion.	OS bydd pwysau mewnol ac allanol sylweddol ar y system yn parhau YNA mae risg o anallu ac/neu oedi cyn i ambiwlansys gyrraedd cleifion yn y gymuned	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	25 (5x5)

Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
		GAN ARWAIN AT niwed a marwolaeth cleifion		
224 QuEST	Mae oedi sylweddol wrth drosglwyddo y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys yn effeithio ar oedi wrth fanteisio ar ofal diffiniol ac mae'n effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol.	<p>OS caiff cleifion eu hoedi'n sylweddol mewn ambiwlansys y tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys</p> <p>YNA mae risg y bydd y gallu i fanteisio ar ofal diffiniol yn cael ei ohirio, y bydd yr amgylchedd gofal yn dirywio ac y bydd safonau gofal cleifion yn cael eu peryglu</p> <p>GAN ARWAIN AT gleifion a allai gael niwed a phrofiad gwael i gleifion</p>	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrso	25 (5x5)
160 PCC	Cyfraddau absenoldeb uchel yn effeithio ar ddiogelwch cleifion, lles staff a gallu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol.	<p>OS oes lefelau uchel o absenoldeb</p> <p>YNA mae risg y bydd llai o adnoddau</p> <p>GAN ARWAIN AT beidio â gallu darparu gwasanaethau, a fydd yn cael effaith andwyol ar ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion/staff</p>	Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant	20 (5x4)

Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
201 PCC	Colli hyder rhanddeiliaid sy'n niweidio enw da'r Ymddiriedolaeth.	<p>OS nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gallu darparu ei gwasanaethau craidd oherwydd pwysau'r system neu'r sefydliad</p> <p>YNA bydd diffyg hyder rhanddeiliaid yn yr Ymddiriedolaeth</p> <p>YN ARWAIN AT ddiffyg cefnogaeth rhanddeiliaid i weledigaeth strategol hirdymor yr Ymddiriedolaeth, methiant i gyflawni ei huchelgais strategol, niwed i enw da a mwy o graffu allanol</p>	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	20 (4x5)
260 FPC	Ymosodiad seiber sylweddol a pharhaus ar WAST, GIG Cymru a rhwydweithiau rhyngddibynnol gan arwain at wadu gwasanaeth a cholli systemau critigol.	<p>OS oes ymosodiad seiber ar raddfa fawr ar WAST, GIG Cymru a rhwydweithiau rhyngddibynnol sy'n cau'r rhwydwaith TG ac nad oes digon o drefniadau diogelwch gwybodaeth ar waith</p> <p>YNA mae risg o ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth sylweddol</p> <p>GAN ARWAIN AT ymyrraeth rannol neu lwyr</p>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	20 (4x5)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
		yng ngallu WAST i ddarparu gwasanaethau hanfodol, colli neu ddwyn data personol/cleifion a niwed i gleifion neu gollu bywyd		
641 FPC	Anallu'r Ymddiriedolaeth i weithredu'r hyn a ddysgwyd o holl argymhellion perthnasol Ymchwiliad Arena Manceinion sy'n effeithio ar ei hymateb i ddigwyddiad mawr/digwyddiad anafiadau torfol	<p>OS nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion yn llawn AC os yw digwyddiad mawr neu ddigwyddiad anafiadau torfol wedi'i ddatgan</p> <p>YNA mae RISG y bydd Ymateb yr Ymddiriedolaeth i Ddigwyddiadau yn is-optimaidd</p> <p>GAN ARWAIN AT niwed a/neu farwolaeth cleifion y gellid eu hosgoi, niwed i lesiant staff, niwed i enw da a'r posibilrwydd o wneud yr Ymddiriedolaeth yn agored i atebolrwydd cyfreithiol</p>	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	20 (4x4)
542 FPC	Methiant i gyflawni Cynllun Gweithredu Strategol ar Ddatgarboneiddio GIG Cymru Llywodraeth Cymru	<p>OS oes diffyg adnoddau a thechnoleg a seilwaith sydd ar gael</p> <p>YNA bydd methiant i gyflawni'r ymrwymïadau a amlinellwyd yn y cynllun</p>	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol	16 (4x4)

Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
		gweithredu ac o fewn amserlenni Llywodraeth Cymru GAN ARWAIN AT effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol negyddol sy'n achosi niwed i enw da		
558 PCC	Dirywiad yn iechyd a lles staff o ganlyniad i bwysau ar systemau mewnol ac allanol	OS bydd pwysau mewnol ac allanol sylweddol ar y system yn parhau YNA mae risg o ddirywiad sylweddol yn iechyd a lles staff o fewn WAST GAN ARWAIN AT lefelau salwch uwch, staff yn gorweithio, profiad gwael o ran staff a chleifion a niwed i gleifion	Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant	15 (3x5)
594 FPC	Anallu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu ymateb sifil wrth gefn os bydd digwyddiad mawr a chynnal parhad busnes sy'n achosi niwed a marwolaeth i gleifion.	OS bydd digwyddiad mawr neu ddigwyddiad anafusion torfol yn cael ei ddatgan YNA mae risg na all yr Ymddiriedolaeth ddarparu ei phresenoldeb a bennwyd ymlaen llaw fel y nodir yn y Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad a darparu ymateb effeithiol, amserol neu ddiogel i gleifion	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	15 (3x5)

Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
		<p>YN ARWAIN AT niwed trychinebus (marwolaeth) a thorri rhwymedigaeth gyfreithiol yr Ymddiriedolaeth fel ymatebydd Categori 1 o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.</p>		
623 FPC	Methiant i gydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data	<p>OS yw'r Ymddiriedolaeth yn methu â chydymffurfio â'r gofynion atebolrwydd o dan y Ddeddf Diogelu Data, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU a Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin, a dangos ei bod yn eu bodloni</p> <p>YNA bydd yr Ymddiriedolaeth yn torri ei rhwymedigaethau cyfreithiol ac o bosibl yn achosi i'r data personol neu sensitif gael ei beryglu, ei golli, neu ei ddefnyddio'n amhriodol</p> <p>GAN ARWAIN AT dorriadau/colledion data heb awdurdod, cosbau ariannol neu iawndal, mwy o graffu neu orfodi</p>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	15 (3x5)

Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

RHIF ADNABOD RISG	TEITL RISG NEWYDD	DISGRIFIAD CRYNO NEWYDD	PERCHENNOG GWEITHREDOL	SGÔR RISG
		rheoleiddiol yn ogystal â diffyg ymddiriedaeth rhanddeiliaid a niwed i enw da.		

Y Broses Asesu Risg ac Adolygu Risg

Roedd ADLT, ELT, ARAC a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn, yn ystyried, ac yn cyfrannu at y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd yn ystod 2024/2025.

Ymhellach, adroddwyd am risgiau sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgorau Cyllid a Pherfformiad, Pobl a Diwylliant, Ansawdd, Profiad y Claf a Diogelwch, a'r Pwyllgorau Elusennau yn eu cyfarfodydd ar gyfer craffu a herio. Mae agenda pob Pwyllgor yn cael ei datblygu a'i halinio â risgiau o fewn ei gylch gwaith ac mae'n canolbwyntio'n fanwl ar liniaru risgiau yn rheolaidd ar gyfer trafodaeth fanwl. Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad annibynnol ar yr holl risgiau corfforaethol ym mhob cyfarfod gan ganolbwyntio'n arbennig ar y risgiau sydd â'r sgôr uchaf. Disgrifir y risgiau hyn yn y tabl Cofrestr Risg Gorfforaethol uchod.

Ar bob achlysur, darparwyd sicrwydd ar gynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth (gan gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid fel y bo'n briodol) i liniaru'r risgiau presennol ac i nodi'r holl risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg i'r sefydliad. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau'n ceisio sicrhau'n barhaus bod y rheolwyr yn craffu ar y mesurau lliniaru o fewn eu rheolaeth a bod popeth yn cael ei wneud i liniaru risgiau hyd at darged.

Mae'r ADLT yn parhau i adolygu'r asesiadau risg ar yr holl risgiau corfforaethol newydd sy'n cael eu datblygu ac unrhyw newidiadau i risgiau presennol a chamau lliniaru. Mae pob un o'r risgiau hyn wedi'u datblygu gan y swyddogion dirprwyedig, cyfrifol a'r perchnogion risg a chytunir arnynt yng nghyfarfodydd busnes y gyfarwyddiaeth a'u cymeradwyo gan berchennog y risg cyn adolygiad gan yr ADLT.

Yna adroddir ar y gweithgaredd i'r Tîm Arwain Gweithredol, i'w gymeradwyo, ac ymlaen i'r Pwyllgorau Bwrdd perthnasol a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

Cyfranogiad Rhanddeiliaid mewn Rheoli Risg

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod rheoli nifer o'i risgiau allweddol yn dibynnu ar weithio'n agos mewn partneriaeth â rhanddeiliaid gan gynnwys Byrddau Iechyd i sicrhau bod risgiau'n cael eu deall a bod camau lliniaru'n cael eu cymryd mewn partneriaeth, lle bo angen. Mae risg ID 223 a 224 (a nodir uchod) yn gofyn am gyfranogiad agos gan bartneriaid system i gefnogi'r gwaith o liniaru'r risgiau hyn sydd â sgôr uchel.

Mynychodd Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol a'r Swyddog Sicrwydd a Risg o'r Cyd-bwyllgor Comisiynu gyfarfod QuEst ym mis Chwefror 2025 i ystyried dull yr Ymddiriedolaeth o ymdrin â'r risgiau hyn â'r sgôr uchaf, sut mae agendâu cyfarfodydd y pwyllgor wedi'u strwythuro a sut mae'r adroddiadau y mae'n eu derbyn yn dangos y lliniariadau yn erbyn y risgiau hyn. Mae tîm risg yr Ymddiriedolaeth wedi parhau i gyfarfod â chydweithwyr o'r Cyd-bwyllgor Comisiynu i archwilio dulliau o liniaru'r risgiau hyn o safbwynt system o ystyried mai'r rhain yw'r risgiau sy'n sgorio uchaf ar gofrestr risg newydd y Cyd-bwyllgor Comisiynu hefyd.

Caiff y risgiau â'r sgôr uchaf eu rhannu a'u trafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd rheolaidd y Cyd-dîm Gweithredol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cael gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau eraill sy'n helpu i lywio risgiau a chamau lliniaru'r Ymddiriedolaeth. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) adborth gan gleifion a'r cyhoedd, pryderon a godwyd gyda'r Ymddiriedolaeth a digwyddiadau andwyol difrifol.

Mae cydweithio â sefydliadau partner yn ffactor amlwg wrth gyflwyno gwasanaethau ac uchelgeisiau'r Ymddiriedolaeth fel y nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a fydd yn arwain at fanteision sylweddol i'r boblogaeth. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd hyn yn effeithio ar yr amgylchedd

Ile caiff gwasanaethau a phrosiectau eu darparu a gall arwain at risgiau ychwanegol o ran partneriaethau a rhaglenni.

Hyfforddiant Rheoli Risg

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i barhau i ddarparu hyfforddiant risg, gyda sesiynau hyfforddi pwrpasol, a gynigir i dimau ac ar gyfer rhaglenni sefydlu grwpiau staff penodol.

Mae'r hyfforddiant yn crynhoi hanfodion rheoli risg gan gynnwys nodi a chynyddu risg yn ogystal â thrafodaeth ar risgiau sgorio uchaf yr Ymddiriedolaeth a rôl yr holl staff mewn rheoli risg a lliniaru risgiau penodol.

Rhaglen Rheoli Risg – Ffocws ar gyfer 2025/26

Dechreuodd yr Ymddiriedolaeth ar raglen trawsnewid rheoli risg tair blynedd yn ystod 2022/23 i gryfhau ymhellach ac i gael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad uchelgais strategol yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol a darparu eglurder ar y risgiau a fyddai'n ein hatal rhag cyflawni ein hamcanion sefydliadol.

Mae'r rhaglen wedi adeiladu ar y diwylliant risg cadarnhaol a ymgorfforwyd yn ystod 2022/23 ac, hyd yn hyn, mae wedi cyflawni ar ail-fynegi prif risgiau'r Ymddiriedolaeth; methodoleg sydd wedi'i gweithredu ers hynny ar draws pob haen o risgiau, datblygu Polisi Rheoli Risg cyntaf yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â chyfres o weithdrefnau, a chyflwyno Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd dros dro sef y ddogfen sy'n cael ei hadolygu gan y Bwrdd a'i bwyllgorau ar hyn o bryd.

Y cam nesaf yw dylunio a gweithredu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd strategol a'r datganiadau archwaeth risg. Mae hyn yn ychwanegol at y datblygiad a'r cyflwyniad parhaus o hyfforddiant ar draws y sefydliad a fydd yn dod â'r rhaglen newid trawsnewidiol rheoli risg i ben.

Parodrwydd am Argyfwng a Gweithrediadau Arbenigol

Fel sefydliad GIG Categori Un, o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau ein bod wedi cynnal cynlluniau brys a threfniadau

parhad busnes drwy gydol 2024/25, sy'n ystyried ein dyletswyddau o dan y Ddeddf ac o dan Ganllawiau Craidd Cynllunio at Argyfyngau GIG Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gwnaed gwaith helaeth o fewn y Tîm Parodrzydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys, sydd wedi cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol ar argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion a gweithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru ar strwythur ymateb Argyfwng Sifil Cymru yn y dyfodol.

Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i adolygu'r argymhellion yn adroddiad Ymchwiliad Arena Manceinion. Yn dilyn cyflwyno cais am gyllid i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu, yn unol ag argymhelliad 106 o adroddiad Ymchwiliad Arena Manceinion, mae'r Cyd-bwyllgor Comisiynu wedi dechrau adolygu'r adroddiadau ar y cyd â chydweithwyr yn y byrddau iechyd, gan ddefnyddio pedwar gweithdy. Yna bydd canlyniad y gweithdai hyn yn cael ei adolygu ar gyfer cymeradwyaeth derfynol ar y cyllid. Er mwyn sicrhau cynnydd yr argymhellion sydd angen cyllid ychwanegol i'w cwblhau, y tu hwnt i oes prosiect Parodrzydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys Manceinion, mae'r 18 argymhelliad wedi'u datblygu'n Risg Gorfforaethol a byddant yn cael eu rheoli drwy'r broses hon nes y gellir eu cwblhau.

Mae Adroddiadau Grenfell wedi cael eu cyhoeddi ac mae Tîm Parodrzydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys wedi adolygu'r adroddiadau hyn i weld a ydynt yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth. Mae Tîm Parodrzydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys wedi cynnal adolygiad o'r ddau adroddiad Grenfell i asesu'r argymhellion a gyflwynwyd a chymharu'r argymhellion ag argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion. Ni chanfu'r adolygiad unrhyw argymhellion ychwanegol y dylai'r Ymddiriedolaeth eu hystyried, ac roedd ein hadolygiad yn ategu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ar yr Ymchwiliad Arena Manceinion ac wedi'i drosglwyddo i'n comisiynwyr. Cyflwynwyd ein hystyriaeth Grenfell i'n comisiynwyr wedi hynny.

Mae Tîm Parodrzydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys wedi cydnabod bod angen cryfhau rhwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl i sicrhau

bod cynlluniau Parhad Busnes cadarn ar waith. Mae strwythur adrodd parhad busnes yr Ymddiriedolaeth wedi'i adolygu a'i ddiweddarau i ddarparu proses adrodd ac uwchgyfeirio gyson ar gyfer pob maes o'r Ymddiriedolaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod Dadansoddiad Effaith Busnes a Chynlluniau Parhad Busnes effeithiol ar waith. I ategu'r strwythur newydd, mae meddalwedd parhad busnes wedi'i gaffael. Bydd y feddalwedd hon yn caniatáu i bob adran o'r Ymddiriedolaeth gynnal eu cynlluniau mewn fformat cyson a defnyddiadwy. Mae gwaith wedi dechrau i weithredu'r feddalwedd ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweld nifer o ddigwyddiadau arwyddocaol, gan gynnwys y ddamwain trên ym Mhowys, colli ein prif systemau ffôn yn genedlaethol, trywanu ysgol yn Rhydaman a thywydd garw gan gynnwys y rhybudd tywydd coch yn effeithio ar ardaloedd helaeth o'r Ymddiriedolaeth. Mae'r digwyddiadau hyn wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i brofi ei chynllunio a'i pharatoi a'i hymateb i ddigwyddiadau digymell a disgwylidig.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithio gyda phartneriaid mewn Fforwm Cydnerth Lleol i adolygu risgiau cenedlaethol a lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cofrestr risgiau penodol i Gymru sy'n edrych ar risgiau cenedlaethol y DU a risgiau penodol i Gymru. Mae gwaith ar y gweill gyda phartneriaid iechyd a'r Fforwm Cydnerth Lleol i asesu'r risgiau hyn a lliniaru yn eu herbyn. Mae tîm Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys yn adolygu Cofrestr Risg Cymru i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gallu lliniaru'r risgiau sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal Tîm Ymateb i Ardaloedd Peryglus (HART) llawn ac wedi cynyddu ei Thîm Ymateb Gweithredol Arbenigol. Mae cyllid i wella gallu Tîm Ymateb Gweithredol Arbenigol yr Ymddiriedolaeth wedi'i dderbyn; bydd hyn yn caniatáu i'r Ymddiriedolaeth sicrhau'r ymateb mwyaf effeithiol i ddeunydd cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear/perylus, ymosodiadau terfysgol mawr, a digwyddiadau dŵr. Mae cam cyntaf y codiad wedi'i weithredu a bydd hyfforddiant ar gyfer gweithredwyr Tîm Ymateb Gweithredol Arbenigol gwirfoddol newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2025.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i weithio mewn partneriaeth, trwy Fforymau Cydnerth Lleol, i fynd i'r afael ag effeithiau ehangach risgiau ar y boblogaeth a'n sefydliad a'u lliniaru. Rydym wedi bod yn aelodau allweddol o'r pedwar grŵp cynllunio gweithredol Fforymau Cydnerth Lleol, grwpiau hyfforddi a chydlynu ac is-grwpiau'r Fforymau Cydnerth Lleol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi chwarae rhan lawn, ochr yn ochr â phartneriaid, yn yr Adolygiad o Argyfyngau Sifil Posibl a gynhaliwyd ledled Cymru ac mae'n parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru a'r Fforymau Cydnerth Lleol i ddatblygu Fframwaith Cymru Gydnerth.

Bydd y flwyddyn 2025/26 yn cyflwyno heriau i'r sefydliad o fewn y maes parodrydd ar gyfer argyfyngau. Mae gwaith ar argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion eddydd tynnu sylw at feysydd yn Nhîm Parodrydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys sydd angen mwy o gapasiti, ond dim ond gyda chyllid ychwanegol y gellir cyflawni hyn. Bydd Tîm Parodrydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys yn parhau i weithio gyda phartneriaid o'r Gwasanaethau Golau Glas a'r Gronfa Cydnerth Lleol ledled Cymru a chyda phartneriaid o wasanaethau ambiwlans ledled y DU i ddarparu swyddogaeth cynllunio brys mor gadarn â phosibl. Bydd angen gwaith pellach i weithredu'r argymhellion yn adroddiadau Ymchwiliad Arena Manceinion, a bydd angen cyllid ychwanegol ym mhob maes sy'n weddill er mwyn gallu gweithredu'r argymhellion yn effeithiol.

Rhyddhawyd Fframwaith Gwydnwch Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2022 ac mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio ar Fframwaith Cymru Gydnerth, sy'n ystyried bod Rhan Un o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 wedi'i datganoli i Gymru; disgwylir yr adroddiad hwn yng ngwanwyn 2025. Heb os, bydd hyn yn effeithio ar arena Argyfyngau Sifil Posibl Cymru ac yn arwain at newidiadau o fewn y cynllunio at argyfwng ar gyfer yr holl Ymatebwyr Categori Un yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymgysylltu a chefnogi ar lefel genedlaethol a lleol i barhau i fod yn barod i ymateb i unrhyw ddigwyddiad, helynt neu set o amgylchiadau tebygol sy'n effeithio ar y sefydliad a'r boblogaeth.

e) Y Fframwaith Rheoli

Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal a datblygu diwylliant o wella ansawdd ar draws yr Ymddiriedolaeth gydag adrodd rheolaidd ar lywodraethu ansawdd yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor QuEst. Ym mis Medi 2024, cwblhaodd Archwilio Cymru adolygiad dilynol o'r archwiliad Llywodraethu Ansawdd a gynhaliwyd yn 2022. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cydnabod gwelliannau yn ein strwythurau llywodraethu ansawdd, gan gynnwys cydymffurfio â dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd. Nododd yr adolygiad fod nifer o argymhellion a wnaed yn archwiliad 2022 i barhau i gael eu datblygu, yn groes i asesiad yr Ymddiriedolaeth, a nodwyd meysydd i'w gwella ymhellach hefyd. Mae'r Arweinyddiaeth Weithredol wedi darparu canllawiau ar yr eglurder sydd ei angen ar gyfer llywodraethu a'r dystiolaeth sydd ei hangen i gwblhau camau gweithredu i atal lefelau gwahanol rhag digwydd eto ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol ac rydym wedi cytuno ar gamau gweithredu pellach i'w cymryd yn 2025/26.

Mae fforwm ansawdd mewnol, y Grŵp Rheoli Ansawdd, wedi parhau i feithrin cysylltiadau i gefnogi dull sefydliadol o wella ansawdd ac ategu ein System Rheoli Ansawdd. Mae datblygu llwyfannau deallusrwydd yn y maes hwn wedi ein galluogi i nodi meysydd i'w gwella yn ein mannau rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd gan gydweithio i rannu gwybodaeth a monitro gwelliant. Diben y fforwm yw gwella gweithio traws-sefydliadol a darparu cyngor ar gyfer fforymau strategol, trwy gynllunio a chyfeirio at faterion ansawdd, a thrwy fframweithiau llywodraethu sicrwydd. Mae'r Grŵp Rheoli Ansawdd yn adrodd i'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd Clinigol, sef y prif fforwm llywodraethu clinigol ac ansawdd yn yr Ymddiriedolaeth.

Mae Aseidiadau o'r Effaith ar Ansawdd wedi'u hymgorffori o fewn seilweithiau llywodraethu ac maent wedi bod yn allweddol wrth sicrhau bod penderfyniadau a gymerwyd ynghylch trawsnewid Gwasanaethau Clinigol wedi'u hystyried ar draws y 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal. Darperir canllawiau a chefnogaeth glir ar draws fforymau llywodraethu i sicrhau bod ansawdd wrth wraidd gwneud penderfyniadau ac mae cyngor arbenigol yn parhau i gael ei ddarparu gan ein timau ansawdd i

gefnogi arweinwyr ar draws y sefydliad wrth ystyried effeithiau cynigion a phenderfyniadau yn erbyn y safonau hyn.

Mae'r Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad yn darparu'r egwyddorion a'r gofynion sefydliadol ar gyfer System Rheoli Ansawdd gadarn. Mae'r fframwaith hwn a'r cynllun gwaith sy'n gysylltiedig ag ef yn cael ei fonitro gan y Grŵp Llywio Rheoli Ansawdd a Pherfformiad sy'n rhoi sicrwydd i'n tîm Arwain Gweithredol. Mae'r Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad wedi'i adolygu eleni gan ddefnyddio cymalau ac egwyddorion ISO 9001:2015 fel fframwaith arweiniol. Fel rhan o'r adnewyddiad, mae dylanwad cryfach gan y Ddyletswydd Ansawdd a Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 wedi'i gynnwys drwyddo draw. Adolygodd archwiliad mewnol a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2024 ddefnydd y fframwaith ac asesodd i ba raddau y mae wedi'i ymgorffori ar draws y sefydliad. Rhoddodd yr archwiliad sicrwydd rhesymol ar ei ganfyddiadau ond nododd rai meysydd i'w gwella yn ymwneud â'r cynllun cyfathrebu a'r strwythur llywodraethu. Oherwydd hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar gamau gweithredu pellach i'w cymryd ymlaen yn 2025/26.

Mae fframwaith hunanasesu safonau Ansawdd Iechyd a Gofal wedi'i gynllunio i ddeall sut rydym yn darparu gwasanaeth o safon ar draws y sefydliad a pha welliannau sydd angen i ni eu gwneud. Defnyddir y fframwaith hwn i asesu'r sefydliad yn erbyn y safonau, rhoi sicrwydd i'r pwyllgor Ansawdd, Profiad y Claf a Diogelwch a llywio cynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Ansawdd.

Mae Tîm PECl yr Ymddiriedolaeth yn darparu cyfleoedd i bobl rannu eu profiad gan ddefnyddio digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb, arolygon ar-lein a bwth fideo adrodd straeon i bobl recordio eu straeon profiad eu hunain. Rhennir straeon cleifion ar draws ein seilwaith llywodraethu gan gynnwys y pwyllgor QuEST a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gyda thystiolaeth gysylltiedig o ddysgu a gwelliant. Trwy gydol 2024/25 rydym wedi bod yn datblygu a hyrwyddo ein Rhwydwaith Pobl a'r Gymuned i gynnig y fforwm i'n dinasyddion gymryd mwy o ran yn y gwaith o wella ein gwasanaethau. Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar integreiddio adborth ar brofiad pobl gan ddefnyddio mewnwelediadau o ddata profiad i sbarduno gwelliant

ansawdd. Rydym wedi gweithio i gynyddu gwelededd allbynnau o adborth pobl drwy Grŵp Rheoli Ansawdd yr Ymddiriedolaeth.

Fel rhan o'n strwythurau llywodraethu ansawdd mae hefyd yn bwysig gwrando ar lais ein pobl a nodi meysydd o bryder sylweddol i'n gweithlu. Rydym yn parhau i weithio ar dair blaenoriaeth benodol a nodwyd fel rhai sy'n bwysig i'n pobl drwy wella modelau gweithio hyblyg ar gyfer ein cydweithwyr rheng flaen, cael gwared â sifftiau'n gor-redeg drwy ddatrysiadau a gynhyrchir ar y cyd a gwella profiad digidol ein pobl. Rydym wedi ymrwmo i chwyddo lleisiau ein cydweithwyr drwy Godi Llais Heb Ofn, ein Harolwg Staff a thrwy barhau i gryfhau ein gallu mewnol i ysgogi newid diwylliant, gan harneisio angerdd ac egni ein rhwydweithiau pobl ffyniannus. Mae adborth gan aelodau ein Rhwydwaith Pobl yn cadarnhau bod y cymunedau hyn yn cynnig lle diogel a chefnogol i'n staff ddod at ei gilydd a rhannu profiadau.

Mae'r adroddiad chwarterol Gweithio i Wella yn parhau i roi sicrwydd i QuEST. Mae gan yr adroddiad hwn fformat diwygiedig sy'n canolbwyntio ar sicrwydd, perfformiad a dysgu gyda chyfres well o fetrigau yn sail i bob un o'r meysydd hyn. Mae cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, gan daflu goleuni ar ein dull o 'weithio yn yr awyr agored', bod yn dryloyw, a'n gallu i fod yr un mor agored pan nad yw pethau'n mynd yn dda. Mae natur statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd yn gwella sicrwydd a gwelededd yr agwedd bwysig hon ar ddiwylliant sefydliadol.

Mae adroddiad Dysgu o Farwolaethau ddwywaith y flwyddyn wedi'i gyflwyno i roi sicrwydd pellach i'r pwyllgor QuEST. Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu taith aeddfedrwydd yr Ymddiriedolaeth wrth ymgorffori'r Fframwaith Adolygiadau o Farwolaethau ac ehangu'r ystod o wybodaeth am farwolaethau yr ydym yn dysgu ac yn gwella ohoni yn ystod y fforwm Dysgu o Farwolaethau. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ddau adroddiad budd y cyhoedd ar ein gofal a'n triniaeth o ddau glaf. Nododd yr adroddiadau hyn feysydd i'w gwella o ran safon trin galwadau, cyngor clinigol a chadw cofnodion. Bu'r sefydliad yn gweithio'n agos gyda'r ombwdsmon dros fisoedd lawer i wneud y gorau

o'r dysgu o'r digwyddiadau hyn ac mae eisoes wedi gweithredu nifer o'r mesurau y cytunwyd arnynt.

Mae iechyd a diogelwch ein gweithlu yn faes ffocws parhaus. Cynhaliwyd adolygiad o ddiwyddiadau niweidiol a adroddwyd gan ein pobl gan ein cynghorydd Trin â Llaw. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, mae nifer o ffrydiau gwaith wedi'u nodi i wella iechyd a lles ein pobl gyda gweithgareddau wedi'u cynllunio i'w datblygu tan 2025.

Yn ystod cyfnod 2024/25 mae'r Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf wedi gwneud newidiadau i strwythur y sefydliad. Ym maes Llywodraethu Ansawdd, mae'r strwythurau tîm ac arweinyddiaeth wedi cael eu hadolygu i alinio ein timau Gwella Ansawdd a Sicrhau Ansawdd yn well i gefnogi cyflwyno System Rheoli Ansawdd gadarn ar draws y sefydliad.

Trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth (gan gynnwys Diogelwch Data)

Mae Llywodraethu Gwybodaeth yn sail i allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gofal o ansawdd uchel, diogel ac effeithiol. Mae sicrhau cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd gwybodaeth yn hanfodol i gynnal ymddiriedaeth, cefnogi trawsnewid digidol a chydymffurfio â chyfrifoldebau statudol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth cadarn ac mae ganddi gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod rheolaethau a threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith, i sicrhau ei bod yn prosesu gwybodaeth yn unol â'r gyfraith a safonau cysylltiedig. Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfres sefydledig o bolisiau, gweithdrefnau, canllawiau, a phrosesau llywodraethu gwybodaeth, diogelu data a diogelwch gwybodaeth i hysbysu ac arwain y sefydliad i sicrhau y bodlonir cydymffurfedd yn ymarferol. Mae'r fframwaith yn cynnwys trefniadau monitro ac adrodd, archwiliadau, asesiadau cydymffurfio, a mentrau gwella ynghyd â phrosesau rheoli digwyddiadau a risg. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgorffori diwylliant o welliant parhaus ar draws ei gweithgareddau Llywodraethu Gwybodaeth, wedi'i gefnogi gan archwiliadau mewnol ac allanol. Caiff argymhellion o'r archwiliadau hyn eu holrhain hyd at eu cwblhau a'u defnyddio i lywio diweddariadau polisi a chynnwys hyfforddiant.

Mae diogelwch gwybodaeth yn parhau i fod yn risg sylweddol ar draws GIG Cymru, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu mesurau lliniaru ar gyfer a monitro'r Risg cysylltiedig, rhif 260 'Ymosodiad seiber sylweddol a pharhaus ar WAST, GIG Cymru a rhwydweithiau rhyngddibynnol sy'n arwain at wrthod gwasanaeth a cholli systemau critigol'. Gyda dull a arweinir gan risg, mae'r Ymddiriedolaeth wedi canolbwyntio ar wella'r agweddau technoleg, prosesau a phobl er mwyn sicrhau seibergadernid. Mae Cynllun Gwella Seiber ar waith ac yn cael ei fonitro'n weithredol. Cynhelir asesiadau risg system yn rheolaidd. Mae Polisi Diogelwch Gwybodaeth ar waith, a chaiff hyfforddiant ac ymwybyddiaeth eu rhannu a'u cyfathrebu'n weithredol ar draws yr Ymddiriedolaeth o dan yr Ymgyrch Hyfforddiant Diogelwch Gwybodaeth. Cynhelir ymarferion rheolaidd i brofi gwytnwch, mireinio cynlluniau parhad busnes ac ymwybyddiaeth staff o fygythiadau seiber.

Sefydlwyd Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth gydag aelodaeth ar lefel Weithredol ac uwch gan gynnwys yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth, y Swyddog Diogelu Data, a Gwarcheidwad Caldicott. Mae'r Grŵp yn derbyn adroddiadau ar faterion, datblygiadau a pherfformiad llywodraethu gwybodaeth a diogelu data. Mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Arwain Gweithredol bob mis ac yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfedd yr Ymddiriedolaeth â safonau Llywodraethu Gwybodaeth perthnasol. Mae gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad oruchwyliaeth gyffredinol dros lywodraethu gwybodaeth o'r pwyllgor QuEST, yn weithredol o fis Ebrill 2024.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddarparu cyflwyniadau blynyddol i Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru. Mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn offeryn hunanasesu sy'n galluogi sefydliadau i fesur lefel eu cydymffurfiaeth yn erbyn safonau a deddfwriaeth Llywodraethu Gwybodaeth genedlaethol. Yn dilyn cyflwyniad y flwyddyn flaenorol, datblygwyd Cynllun Gweithredu Gwella gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth i wella cydymffurfedd yr Ymddiriedolaeth â'r safonau. Mae cynnydd y Cynllun Gweithredu Gwella yn cael ei fonitro gan y Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth. Ar gyfer y cyflwyniad ym mis Mawrth 2025, cwblhawyd 95% o'r camau gwella.

Canlyniadau'r cyflwyniad ym mis Mawrth 2025 yw bod yr Ymddiriedolaeth wedi bodloni'r Disgwyliadau Isafswm ar gyfer 10 allan o 11 categori. O'r categorïau a oedd yn bodloni'r Isafswm Disgwyliadau, roedd chwech yn bodloni'r safon Uwchlaw'r Disgwyliadau. Ni chyflawnodd yr Ymddiriedolaeth y Disgwyliadau Lleiaf ar gyfer y safon 'Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth'. Bydd y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn cynhyrchu'r fersiwn nesaf o'r Cynllun Gweithredu Gwella i dargedu Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth, yn ogystal â'r gofynion newydd ar gyfer y categori Gwyliadwriaeth Fideo a theledu cylch cyfyng. Bydd y Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth yn parhau i fonitro'r Cynllun Gweithredu Gwella.

Cafodd Risg newydd, rhif adnabod 623 '*Methu â chydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data*' ei chynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mis Ebrill 2024. Mae'r camau risg a lliniaru yn parhau i gael eu monitro a'u rheoli, gan gynnwys recriwtio i swyddi Swyddog Diogelu Data a Rheolwr Cydymffurfio Diogelu Data, yn ogystal â gwaith parhaus ar Gynllun Gweithredu Gwella Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth yn ystod y cyfnod adrodd.

Cynhelir Asesiadau Effaith Diogelu Data yn rheolaidd ar gyfer systemau a phrosesau newydd neu sydd wedi newid yn sylweddol sy'n cynnwys data personol, gyda chefnogaeth gan y Tîm Llywodraethu Gwybodaeth i sicrhau cymesuredd a chydymffurfedd cyfreithiol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru i gasglu digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth drwy'r modiwl adrodd am ddigwyddiadau. Mae digwyddiadau llywodraethu gwybodaeth a adroddir yn cael eu hadolygu a'u hasesu yn unol â Chanllawiau GIG Cymru ar Gategoreiddio a Hysbysu Toriadau Data Personol, sy'n darparu canllawiau manwl ar gyfer asesu ac adrodd am ddigwyddiadau. Cymerir unrhyw gamau adferol yn ôl y gofyn. Adroddir ar ffigurau digwyddiadau i'r Grŵp Llywio Llywodraethu Gwybodaeth ac fel rhan o'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol. Gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y digwyddiad, efallai y bydd angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am yr adroddiadau am ddigwyddiadau. Yn ystod y cyfnod adrodd (01 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025), hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am dri digwyddiad.

Yn dilyn hysbysiad, mae pob digwyddiad wedi'i gau heb unrhyw gamau pellach wedi'u cymryd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Asesiad yn erbyn yr Adrannau Llywodraethu Corfforaethol mewn Llywodraethu Canolog: Mae Cod Ymarfer Da 2017 wedi'i gwblhau gan ddefnyddio'r dull "Cydymffurfio" neu "Esbonio". Er nad oes unrhyw ofyniad i gydymffurfio â holl elfennau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ar gyfer Adrannau Llywodraeth Ganolog, cynhaliwyd asesiad ym mis Ebrill 2025 yn ôl y prif egwyddorion fel y maent yn ymwneud â sefydliad sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn fodlon ei bod yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod ac yn cynnal ei busnes mewn modd agored a thryloyw yn unol â'r Cod. Ni adroddwyd/rhodddwyd gwybod am unrhyw wriadau oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn ystod y flwyddyn adrodd 2024/25.

Gwasanaethau Atal Twyll Lleol

Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn weithiwr proffesiynol gwrth-dwyll achrededig sy'n darparu gwaith rhagweithiol (ee. codi ymwybyddiaeth o dwyll, atal a rhwystro twyll) a gwaith ymatebol i ddwyn y rhai sy'n cyflawni twyll i gyfrif (ee. ymchwiliadau twyll). Mae'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol yn darparu adroddiadau i ARAC a'r Tîm Arwain Gweithredol mewn perthynas ag ansawdd ac effeithiolrwydd yr holl waith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd yr ymgymerir ag ef.

Caiff amcanion gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd eu trafod a'u hadolygu ar lefel strategol o fewn y sefydliad. Mae ARAC yn atebol am gael sicrwydd bod dulliau rheolaeth a rheoli digonol ar waith mewn perthynas â gwrth-dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd.

Caiff hyn ei gyflawni drwy ddiweddariadau chwarterol i ARAC gan yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol, a ategir gan adroddiad blynyddol ar waith atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd sy'n cydymffurfio â chanllawiau Awdurdod Atal Twyll y GIG mewn perthynas

â chynnwys yr holl safonau perthnasol ar gyfer twyll, llwgrwobrwyo a llygredd; ac yn rhoi diweddariad clir ar gynnydd yn erbyn amcanion y cynllun gwaith.

Rhaid i ARAC fodloni ei hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau digonol ar waith ar gyfer atal twyll mewnol ac adolygu canlyniadau'r gwaith hwnnw, a chydabod gwaith a gwblhawyd yn erbyn risgiau a gyflwynwyd a chynllun gwaith cytûn. Mae ARAC yn adolygu ac yn cymeradwyo'r trefniadau gwrth-dwyll mewnol yn flynyddol.

f) Trefniadau Cynllunio

Yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27 erbyn 31 Mawrth 2024 ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar 28 Mawrth 2024. Fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 09 Awst 2024, yn amodol ar Amodau Atebolrwydd. Datblygwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig gyda chyfranogiad ein rhanddeiliaid gan gynnwys ein staff. Datblygodd yr Ymddiriedolaeth ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28 yn ystod 2024/25, a chyflwynwyd hwn i Lywodraeth Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei gymeradwyo ddiwedd mis Mawrth 2025.

O fewn Aseiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2024, mewn perthynas â threfniadau cynllunio corfforaethol, nododd Archwilio Cymru y canlynol; *“Rydym yn ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio eu cyflawni. Gwelsom fod gan yr Ymddiriedolaeth ddull cadarn ar y cyfan o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys datblygu Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol uchelgeisiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd o hyd i gryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd o ddatblygiad a chyflawniad Cynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth.*

Mae'r Tîm Cynllunio wedi datblygu canllawiau cynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cynhwysfawr a chynllun prosiect a arweiniodd yr Ymddiriedolaeth drwy ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025-28 a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2025. Mae hyn yn mynd i'r afael ag argymhelliad Archwilio Cymru i gryfhau goruchwyliaeth y Bwrdd o Gynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth.

Mae gan y canllawiau broses lywodraethu a chymeradwyo glir o fewn ei ffrydiau gwaith, lle mae pwyntiau cyswllt mewn cyfarfodydd y Bwrdd ac yn ystod Diwrnodau Datblygu'r Bwrdd drwy gydol datblygiad y cynllun. Yn ogystal, mae craffu llawn yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd wrth i'r cynllun ddod i'w gymeradwyo.

Mae rhagor o fanylion am Gynllun Tymor Canolig Integredig a threfniadau cynllunio'r Ymddiriedolaeth wedi'u nodi yn yr Adroddiad Perfformiad a gynhwysir yn adran Trosolwg Perfformiad yr Adroddiad Perfformiad.

g) Datganiadau Datgelu

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau, yn unol â gofynion y Datganiad Llywodraethu bod:

- Mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn nodi ymrwymiad ystyrlon yr Ymddiriedolaeth i weithio gydag ein pobl i'w helpu i nodi, hyrwyddo a dathlu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys ein hymagwedd at gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae hefyd yn amlinellu sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ambiwlans, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig, yn cael mynediad a chanlyniadau cyfartal. Mae'r Cynllun ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth yma: [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru](#).
- Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr a gynhwysir yn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn digwydd yn unol â rheolau'r cynllun, a bod cofnodion aelodau yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.

- Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal asesiadau risg ac mae ganddi gynlluniau cyflawni carbon i gydymffurfio ag elfennau parodwydd ar gyfer argyfwng ac argyfyngau sifil posibl o ragamcanion tywydd 2009 UKCIP (Rhaglen Effeithiau Hinsawdd y DU) i fodloni rhwymedigaethau'r Ymddiriedolaeth o dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r Gofynion Adrodd ar Addasiadau. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tywydd Garw ar waith. Yn ogystal, mae tîm Parodwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys yn defnyddio gwybodaeth gan y Swyddfa Dywydd i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer tywydd garw, ac mae rhybuddion tywydd yn sbardun blaenoriaeth uchel yn ein hystyriaeth wythnosol o godi lefelau rhybudd yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gydag asiantaethau partner yn ein Fforymau Cydnerth Lleol i lywio unrhyw ymateb daearyddol aml-asiantaeth ac mae'r system Rhybudd Brys newydd yn caniatáu ar gyfer hysbysu a rhybuddio os bydd tywydd garw yn bygwth bywyd. Mae cynllunio, hyfforddi ac ymarfer yn agwedd allweddol ar gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer Argyfyngau Sifil Posibl fel ymatebydd categori un. Drwy gydol 2024/25 mae'r Ymddiriedolaeth wedi trafod ei dull o Gynllunio Ymaddasu ac wedi cynnwys ymrwymiad yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig 2024/27 i ffurfioli ei threfniadau Cynllunio Ymaddasu.

Mae gweithgor bellach wedi'i sefydlu ar draws meysydd Parodwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys, amgylcheddol, gwasanaeth, clinigol a chynllunio cyfalaf yr Ymddiriedolaeth i gwblhau gwaith sy'n weddill i asesu risg gan ddefnyddio pecyn cymorth cynllun addasu LIC. Bydd hyn yn edrych ar y rheolaethau presennol sydd ar waith i liniaru effeithiau newid hinsawdd ac yn ystyried y bylchau a'r cynlluniau y mae angen eu rhoi ar waith yn ogystal â'r rheolaethau presennol hyn fel Cynllun Addasu llawn ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

- Fel y nodir uchod, nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi adrodd am unrhyw ddiwyddiadau anffafriol difrifol yn ystod 2024/25 mewn perthynas â

diogelwch data. Yn ystod y cyfnod adrodd (01 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025), hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am dri digwyddiad. Yn dilyn hysbysiad, caewyd pob digwyddiad heb i'r ICO gymryd unrhyw gamau pellach.

Ansawdd y Data

Ystyrir bod ansawdd y data a gynhrychir ac a ddefnyddir gan feysydd gwasanaeth craidd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifoldeb ar y cyd, ond yn cael ei oruchwyllo gan y Gyfarwyddiaeth Ddigidol. Trwy biblinell ddata aeddfed a phrosesau cadarn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal lefel gref o ansawdd data drwyddi draw. Mae Polisi Ansawdd Data'r Ymddiriedolaeth yn amlinellu pwysigrwydd cynnal ansawdd data da ac yn egluro'r broses uwchgyfeirio ar gyfer datrys unrhyw faterion ansawdd data a ddarganfuwyd.

Bob mis, mae'r Ymddiriedolaeth yn adrodd am fetrigau perfformiad allweddol i Lywodraeth Cymru mewn Datganiad Ystadegau Swyddogol. Mae'r cyflwyniadau hyn yn gofyn am wiriadau trylwyr ar draws holl ddimensiynau ansawdd data (sef: cywirdeb, cyflawnder, cysondeb, dilysrwydd, amseroldeb ac unigrywiaeth), ar lefel galwad/digwyddiad ac wedi'u cydgrynhoi i'r safbwyntiau lefel uwch. Gall yr ymarfer hwn hefyd gynnwys ymchwilio o gofnodion data ar y lefel fwyaf gronynnog, lle gellir nodi unrhyw broblemau yn y system, proses neu adroddiadau a chynnig atebion; gan ddangos bod ansawdd data o fewn yr Ymddiriedolaeth yn mabwysiadu dull gweithredu llawn o'r dechrau i'r diwedd. Dim ond ar ôl i'r rhwystrau a gwrthbwysau gael eu cymeradwyo gan uwch staff gwybodeg y darperir y cyflwyniadau; o ystyried natur lem y sicrwydd ansawdd hwn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i henwi ar Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017, sy'n rhan o Ddeddf Ystadegau a Gwasanaethau Cofrestru 2007.

Yn yr un modd, cynigir gwybodaeth i'r Bwrdd trwy amrywiaeth o adroddiadau sy'n mynd trwy sawl rownd o brofion priodol a sicrwydd ansawdd yn gyntaf. Mae unrhyw newidiadau sylweddol a wneir i ddata neu adrodd yn amodol ar gymeradwyaeth gychwynnol gan y Bwrdd Cyngori ar Newidiadau i Wasanaethau Mewnwelediad a Data, ac os bydd canfyddiadau unrhyw ddadansoddiad effaith yn pennu bod angen lefel uwch o gymeradwyaeth, byddai hyn yn cael ei uwchgyfeirio ymhellach cyn ei

weithredu. O ran Gwasanaethau Mewnwelediad a Data a Gwasanaethau Digidol, cyhoeddir adroddiadau a dangosfyrddau i systemau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer defnyddwyr terfynol gan Wasanaethau Mewnwelediad a Data, ac fe'u defnyddir mewn modd llym a rheoledig i gynnal, lle bynnag y bo modd, "fersiwn sengl o'r gwir".

Yn 2024, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth Archwiliad Mewnol o Ansawdd Data ac ym mis Hydref 2024 derbyniodd y canlyniad terfynol o "Sicrwydd Rhesymol". Ar ben hynny, mae Gwasanaethau Mewnwelediad a Data bellach wedi recriwtio dau aelod staff ymroddedig i gynyddu capasiti yn y Tîm Ansawdd Data a gwneud cynnydd pellach o ran gwella ansawdd y data a gedwir ac a brosesir gan yr Ymddiriedolaeth.

Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Cyhoeddir Cyfarwyddiadau Gweinidogol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u cyhoeddiadau iechyd a gofal cymdeithasol a gellir eu gweld [yma](#). O'r Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 nid oedd yr un ohonynt yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth.

Cylchlythyrau Iechyd Cymru

Mae Cylchlythyrau Iechyd Cymru yn darparu dull cyfathrebu symlach, tryloyw ac olrheiniadwy rhwng GIG Cymru a sefydliadau'r GIG. Cafwyd nifer o Gylchlythyrau yn ystod y flwyddyn ac mae'r rhain wedi'u dyrannu i Gyfarwyddwr arweiniol sy'n gyfrifol am roi'r camau gofynnol ar waith. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw cofnod o gylchlythyrau.

h) Adolygiad o Effeithiolrwydd

Fel Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o'r system yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, a swyddogion gweithredol yr Ymddiriedolaeth sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Yn ogystal, gwnaed sylwadau gan Archwilio Cymru yn eu llythyr archwilio a'u hadroddiadau, gan gynnwys yr Aseiad Strwythuredig 2024, yr Adolygiad Dilynol o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd, a'r Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau – a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Rheolau Sefydlog, cylch gorchwyl y Pwyllgor a'r Cod Llywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau asesu effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu fel mater o drefn, y mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn rhan annatod ohonynt.

Fel y nodir uchod, mae pob Pwyllgor Bwrdd wedi cael adolygiadau effeithiolrwydd helaeth yn chwarter pedwar 2024/25 gan arwain at newidiadau i'r cylch gorchwyl i gryfhau sicrwydd a chraffu i'r Bwrdd.

Caiff perfformiad y Cadeirydd ei werthuso'n flynyddol gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol, a chynhelir asesiadau perfformiad blynyddol ar gyfer yr Is-gadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gan y Cadeirydd. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal gwerthusiadau o berfformiad Cyfarwyddwyr. Mae'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn cael sefyllfa alldro'r Prif Weithredwr ac amcanion y flwyddyn i ddod, yn ogystal â sicrwydd bod yr amcanion hyn yn cael eu rhaedru i'r Tîm Arwain Gweithredol.

Trefniant Goruchwyllo ac Uwchgyfeirio'r GIG

O dan Drefniadau Goruchwyllo ac Uwchgyfeirio'r GIG, mae Llywodraeth Cymru yn cyfarfod ag Arolygiaeth lechyd Cymru (AGIC) ac Archwilio Cymru i drafod yr asesiad cyffredinol o'r Ymddiriedolaeth.

Er bod y gwerthusiad tair rhan yn cynnwys asesu pob corff GIG yn seiliedig ar y gwaith a wneir gan yr aelodau tair rhan, Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n pennu statws uwchgyfeirio cyrff y GIG.

Yn y cyfarfod teiran diweddaraf, arhosodd statws uwchgyfeirio'r Ymddiriedolaeth yn ddigyfnewid yn y 'trefniadau arferol'. Hysbyswyd yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad y cyfarfod hwn ar 11 Mawrth 2025.

Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru

Cyhoeddodd adroddiad gan Arolygiaeth lechyd Cymru (AGIC) 'Adolygiad Cenedlaethol o Lif Cleifion: taith drwy'r llwybr strôc' yn 2023/24. Cynhyrchwyd

amrywiol gamau gweithredu ar draws y system o'r adroddiad hwn a chafodd y rhai a oedd yn ymwneud â'r Ymddiriedolaeth eu holrhain a'u monitro gan Bwyllgor QuEst. Cwblhawyd yr argymhelliad olaf sy'n gysylltiedig â'r adolygiad hwn ym mis Mawrth 2025. Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau AGIC yn 2024/25.

Cronfa Risg Cymru

Yn ystod 2024, cynhaliodd Cronfa Risg Cymru asesiad o bolisiâu, gweithdrefnau ac arferion yr Ymddiriedolaeth fel rhan o'i dyletswyddau goruchwylio. Nod yr asesiad oedd casglu sicrwydd ar brosesau lleol ar gyfer Pwyllgor Cynllun Rheoli Adnoddau Dynol, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth GIG Cymru; a darparu argymhellion i gefnogi'r sefydliad i wella'n barhaus yn y maes llywodraethu pwysig hwn. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2025 ac mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a fydd yn cael eu holrhain a'u monitro gan y Pwyllgor QuEst.

Roedd yr Aseswyr yn hyderus mai'r strwythur sefydliadol newydd sydd wedi'i weithredu yw'r dull cywir i'r Ymddiriedolaeth o ran ei phrosesau diogelwch cleifion a Gweithio i Wella. Gan fod rhai camau gweithredu heb eu cymryd o'r asesiad blaenorol ac anghysondeb yn y data, mae'r sgôr sicrwydd yn parhau i fod yn Sicrwydd Cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd yr Aseswyr yn hyderus, wrth i'r newidiadau sy'n cael eu gweithredu gan yr Ymddiriedolaeth ddod i rym, y bydd digon o dystiolaeth i gynyddu'r sgôr sicrwydd.


Archwilio Mewnol

Mae Archwilio Mewnol yn rhoi llif sicrwydd i'r Swyddog Atebol a'r Bwrdd ar y system rheolaeth fewnol. Comisiynodd y Swyddog Atebol raglen o waith archwilio a gyflawnwyd yn amodol ar newidiadau y cytunwyd arnynt ac yn unol â safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gydag ARAC a'r Tîm Arwain Gweithredol, ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn un o swyddogaethau'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg ac

mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y bu digon o sylw i archwiliadau mewnol yn ystod y cyfnod adrodd i roi Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynllun Archwilio Mewnol blynyddol ar y cyd ag Archwilwyr Mewnol. Mae'r cynllun yn seiliedig ar risg sy'n cyfeirio'r adolygiadau at feysydd lle mae'r rheolwyr ac ARAC o'r farn y gallai fod gwendidau posibl. Yn hyn o beth, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl cael rhai adroddiadau sicrwydd cyfyngedig ac ni ddylai'r rhain amharu ar y cynnydd cyffredinol y mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i'w wneud. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad bod:

	<p>Gall Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau sydd ar waith i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfedd, gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad i risg gweddilliol, hyd nes y cânt eu datrys.</p>
--	---

Mae'r casgliad hwn yn gyson â Barn Sicrwydd Rhesymol y Pennaeth Archwilio Mewnol a adroddwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 yr Ymddiriedolaeth.

Mae casgliad sicrwydd rhesymol 2024/25 yn deillio o 20 o adolygiadau Archwilio Mewnol.

Casgliad Sicrwydd Archwilio Mewnol	Nifer yr Adroddiadau
Sicrwydd Anfodddhaol	0
Sicrwydd Cyfyngedig	4
Sicrwydd Rhesymol	13
Sicrwydd Sylweddol	2
Cynghorol	1
Cyfanswm	20

Am y seithfed flwyddyn yn olynol, ni chafwyd unrhyw Adroddiadau Archwilio Mewnol 'Sicrwydd Anfodhaol' o fusnes yr Ymddiriedolaeth. Isod, nodir y pedwar adroddiad a ddaeth i gasgliad Sicrwydd Cyfyngedig a adroddwyd i ARAC yn ystod 2024/25.

Rheoli Damweiniau Cerbydau (Yswiriant Cyfyngedig)

Amcan yr archwiliad hwn oedd asesu rheolaeth damweiniau sy'n ymwneud â cherbydau'r Ymddiriedolaeth, a'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd i leihau cyfradd y digwyddiad.

Cydnabu'r Archwiliad Mewnol fod Polisi Gyrru yn y Gwaith yr Ymddiriedolaeth wedi'i adolygu, a bod fersiwn wedi'i diweddarau wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Pobl a Diwylliant ym mis Tachwedd 2024, bod cost damweiniau cerbydau i'r Ymddiriedolaeth yn isel ac ar hyn o bryd mae'n gallu amddiffyn hawliadau a wneir yn ei herbyn yn well.

Nodwyd chwe cham gweithredu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth o fewn yr adroddiad hwn; tri ohonynt yn cael eu categorio fel blaenoriaeth uchel. Roedd y rhain yn ymwneud â diffyg cofnodi, adrodd a monitro damweiniau cerbydau. Derbyniwyd yr adroddiad archwilio gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mawrth 2025 a bydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn ei fonitro drwy gydol 2025/26.

Polisi Adnoddau (Sicrwydd Cyfyngedig)

Amcan yr archwiliad hwn oedd adolygu Polisi Adnoddau'r Ymddiriedolaeth, ei gydymffurfedd â thelerau ac amodau cenedlaethol, ac asesu ei gymhwysiad fel galluogwr ar gyfer cynhyrchu adnoddau effeithiol. Nid oedd canlyniad barn sicrwydd cyfyngedig gan archwilwyr yn annisgwyl.

Cydnabu Archwilio Mewnol fod rhai Gweithdrefnau Gweithredu Safonol wedi'u cynhyrchu i gefnogi'r Polisi Adnoddau, a bod Gweithdrefnau Gweithredu Safonol swyddogaethol yn cael eu datblygu i gefnogi meysydd fel y Gwasanaeth 111 a'r Ddesg Gymorth Clinigol. Nodwyd hefyd fod adroddiadau Cynhyrchiant Oriau Uned (UHP) Wythnosol ar gyfer pob swyddogaeth, yn manylu ar y lefelau staffio

disgwyliedig yn erbyn y lefelau staffio gwirioneddol. Cynhyrchir yr adroddiadau hyn gan y System Amserlennu Hollgynhwysol (GRS) sydd â ffrwd byw, sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau tyniadau ar fyr rybudd. Mae yna hefyd adroddiadau rheolaidd ar Ddangosyddion Tyniadau a Chynhyrchu Ambiwylansys fel rhan o'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol, gan gynnwys dadansoddiad a sylwadau ar adnoddau, a adroddir ar lefel y Bwrdd a'r Pwyllgor.

Nodwyd pum cam gweithredu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn yr adroddiad hwn; dau ohonynt yn cael eu categorio fel rhai â blaenoriaeth uchel. Roedd y rhain yn ymwneud â'r angen i gynnal ymarfer mapio prosesau sylweddol i ddogfennu'r gwahanol ddulliau sy'n cael eu cymhwyso rhwng gwasanaethau a threfniadau lleol ledled Cymru, sy'n arwain at gymhwyso Polisi Adnoddau yn anghyson; ac i adolygu ac adrodd ar dorri'r Gyfarwyddeb Amser Gweithio. Derbyniwyd yr adroddiad archwilio gan ARAC ym mis Tachwedd 2024 a bydd y Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn ei fonitro drwy gydol 2025/26.

Dechrau Gweithdrefn Shifft (Sicrwydd Cyfyngedig)

Amcan yr archwiliad hwn oedd asesu cydymffurfedd â'r weithdrefn Dechrau Shifft, gan gynnwys paratoi cerbydau a sicrhau bod offer a meddyginiaethau allweddol ar gael. Nodwyd pum cam gweithredu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn yr adroddiad hwn; dau ohonynt yn cael eu categorio fel rhai â blaenoriaeth uchel.

Er bod Archwilio Mewnol wedi cydnabod, heb dystiolaeth ffurfiol, fod staff yn cwblhau gwiriadau priodol, mae tystiolaeth gyfyngedig ar gael i gefnogi hyn ac ychydig iawn o adrodd sydd ar gael i gadarnhau cydymffurfedd gyffredinol â'r disgwyliadau a nodir yng Ngweithdrefn Weithredu Safonol 'Dechrau a Gorffen Shifftiau' yr Ymddiriedolaeth. Derbyniwyd yr adroddiad archwilio gan yr ARAC yn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2025.

Gwefan 111 Cymru (Sicrwydd Cyfyngedig)

Amcan yr archwiliad hwn oedd asesu a yw gwefan 111 Cymru yn galluogi darpariaeth ddiogel ac effeithiol o wasanaethau i gleifion. Nododd yr adroddiad archwilio saith mater i'r Ymddiriedolaeth fynd i'r afael â nhw; categoriwyd dau ohonynt fel rhai

â blaenoriaeth uchel. Bydd yr adroddiad archwilio yn cael ei dderbyn gan yr ARAC yn ei gyfarfod ym mis Medi 2025.

Gellir cael copïau o'r holl adroddiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau cynnydd yn adran papurau'r Pwyllgor Archwilio ar wefan yr Ymddiriedolaeth. Mae Adroddiad llawn Pennaeth Archwilio Mewnol 2024/25 hefyd i'w weld ym mhapurau ARAC Mehefin 2024 sydd ar gael [yma](#) ac fe'i derbyniwyd gan yr ARAC yn ei gyfarfod ar 24 Mehefin 2025.

Archwiliad Allanol – Archwilio Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol yr Ymddiriedolaeth. Mae Archwilio Cymru yn craffu ar systemau a phrosesau ariannol, rheoli perfformiad a meysydd risg allweddol yr Ymddiriedolaeth.

Caiff adroddiadau eu llunio gan Archwilio Cymru yn unol â rhaglen waith blynyddol a gymeradwyir gan ARAC ac maent yn cynnwys ymatebion rheolwyr gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer adroddiadau sy'n cynnwys argymhellion. Ystyrir holl adroddiadau Archwilio Cymru gan ARAC a, lle bo'n briodol, y Pwyllgor perthnasol a'r Bwrdd. Mae eu hargymhellion yn cael eu cofnodi wedyn yn nhraciwr argymhellion archwilio'r Ymddiriedolaeth, a adroddir i bob cyfarfod ARAC i roi sicrwydd ar eu gweithrediad.

Yn ystod 2024 roedd yr Ymddiriedolaeth yn destun tri adolygiad gan Archwilio Cymru:

- Asesiad Strwythuredig 2024
- Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau
- Adolygiad Dilynol Llywodraethu Ansawdd

Mae manylion am ganlyniadau'r adolygiadau hyn wedi'u darparu isod.

Asesiad Strwythuredig 2024

Yr adroddiad llywodraethu blynyddol allweddol ar faterion yr Ymddiriedolaeth a gynhrychir gan Archwilio Cymru yw'r Asesiad Strwythuredig. Mae pob un o'r pum argymhelliad a nodwyd fel canlyniad yr Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2023 bellach wedi'u cwblhau.

Cynhaliwyd yr Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2024 rhwng mis Awst a mis Medi 2024 a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol a'i dderbyn gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac ARAC ym mis Tachwedd 2024.

Y ffocws allweddol oedd trefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd, gyda ffocws penodol ar ddull corfforaethol o gynllunio; systemau sicrwydd corfforaethol; tryloywder, cydlyniant ac effeithiolrwydd y bwrdd; a dull corfforaethol o reoli cyllid. Roedd yr Asesiad Strwythuredig hwn yn gadarnhaol a nododd welliant yn nhrefnlywodraethol gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, yng ngweithrediadau'r Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgorau, a sicrhau bod arolygaeth effeithiol o feysydd risg allweddol. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys y canlynol:

“Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol yn cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Yn gadarnhaol, mae'r Ymddiriedolaeth yn trawsnewid ei gwasanaethau clinigol i reoli pwysau a galw gweithredol yn well ac mae'n gwneud cynnydd da o ran gwella systemau allweddol sicrwydd i gryfhau ffocws y Bwrdd ar risgiau strategol. Er bod ei pherfformiad ariannol yn dda, mae angen i'r Ymddiriedolaeth symud i ffwrdd o'i dibyniaeth ar arbedion afreolaidd er mwyn cynnal gwydnwch sefydliadol.

Derbyniwyd yr argymhellion a wnaed yn Asesiad Strwythuredig 2024 a'r holl ymatebion gan reolwyr yn ymwneud â rhai o'r meysydd allweddol a amlygwyd uchod ac maent yn cael eu monitro gan ARAC. Gwnaed cyfanswm o dri argymhelliad yn yr adroddiad ac mae pob un wedi'i gwblhau. Mae adroddiad Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru ar gyfer 2024 ar gael [yma](#).

Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau

Rhwng mis Chwefror a mis Mai 2024, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad hefyd o drefniadau arbed costau'r Ymddiriedolaeth, gan archwilio'r dulliau o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd arbed costau cynaliadwy. Roedd yr adolygiad yn gadarnhaol gyda'r neges allweddol fel a ganlyn:

“Ar y cyfan, canfuom fod yr Ymddiriedolaeth wedi rhagori ar ei tharged arbedion cyffredinol ar gyfer 2023-24 ac mae'n parhau i wella ei threfniadau ar gyfer nodi, cyflawni a monitro effeithlonrwydd ac arbedion cost cynaliadwy. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i'r Ymddiriedolaeth leihau ei dibyniaeth ar arbedion afreolaidd,

cryfhau galluoedd ariannol ar draws y sefydliad, a mireinio ei hadroddiadau ar arbedion i'r Bwrdd. Mae'r adroddiad archwilio ar gael [yma](#).

Adolygiad Dilynol Llywodraethu Ansawdd 2024

Yn ystod 2021/22, adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol drefniadau llywodraethu ansawdd ar draws pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru. Canolbwyntiodd y gwaith hwnnw ar ddulliau gweithredol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd; diwylliant ac ymddygiadau sefydliadol; a llif gwybodaeth ac adrodd.

Mae copi o Adolygiad Dilynol Llywodraethu Ansawdd Archwilio Cymru ar gyfer 2024 ar gael [yma](#). Ceisiodd adolygiad 2024 ddilyn yr argymhellion o adolygiad 2022, yn ogystal ag asesu'r sicrwydd a roddwyd i'r Pwyllgor QuEST fod yr Ymddiriedolaeth wedi ymateb yn briodol i ofynion y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae sylwadau ynghylch allbwn ac argymhellion yr archwiliad hwn yn adran 'Llywodraethu Ansawdd' yr Adroddiad Atebolrwydd.

i) Casgliad

Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth yn amodi bod y Pwyllgorau wedi'u harfogi – o ran eu trefniadau gweithredu effeithiol ac aelodaeth – i gael a gweithredu ar ddirprwyaethau clir gan y Bwrdd. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth gan wybod bod y Pwyllgorau'n craffu ac yn goruchwyllo meysydd o fewn eu cylch gwaith gyda mwy o fanylder nag a fyddai'n bosibl yn y Bwrdd. Mae adroddiadau clir gan y Pwyllgorau ar sail rhybuddio, cynghori a sicrhau yn cryfhau'r hyder sydd gan y Bwrdd yn y fframwaith hwn.

Mae'r pwysau system gyfan ar draws y GIG yng Nghymru yn parhau i lywio amgylchedd gweithredol heriol yr Ymddiriedolaeth ac mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn parhau i uwchgyfeirio pryderon i'r Bwrdd ynghylch perfformiad, ansawdd ein gwasanaethau a niwed y gellir ei osgoi i'n cleifion. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i flaenoriaethu sut mae'r Ymddiriedolaeth yn lliniaru niwed i gleifion y gellir ei osgoi ym mhob un o'i gyfarfodydd ac mae'n parhau i geisio dylanwadu ar newid yn y system ehangach. Er bod nifer o gamau gweithredu wedi'u rhoi ar waith o safbwynt yr Ymddiriedolaeth, ni allant wrthbwysu effaith oedi cynyddol wrth drosglwyddo gofal.

Mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bwysau system parhaus, heriau ariannol, a phwysau'r gaeaf wedi cael effaith sylweddol ar y sefydliad a'r GIG ehangach yng Nghymru. Mae hyn wedi mynnu ymateb dynamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â heriau. Bydd goruchwyliaeth y Bwrdd o'r targedau perfformiad newydd ar gyfer ymateb ambiwlansys a'r rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol ehangach yn allweddol yn y flwyddyn beilot 2025/26.

Bydd y fframwaith llywodraethu corfforaethol yn parhau i wella yn 2025/26, gyda ffocws ar fframweithiau llywodraethu a sicrwydd integredig, cefnogaeth i awduron a chyflwynwyr adroddiadau, a gwelliant pellach i Weithdrefn Gweithredu Safonol y Bwrdd a'r Pwyllgorau i ddarparu cysondeb a gwella ansawdd ac amseroldeb papurau, gan gynnwys cofnodion. Bydd Gweithdrefn Gweithredu Safonol Ymweliadau'r Bwrdd yn parhau i gefnogi aelodau i driongli sicrwydd a hyrwyddo arweinyddiaeth weladwy.

Mae ymrwymiad i WASPT – unig Grŵp Cyngori'r Ymddiriedolaeth – gael ffocws strategol i gryfhau'r berthynas â'n partneriaid Undebau Llafur, gan ategu ac alinio ei drefniadau gweithredu â'r gyfres o Bwyllgorau'r Bwrdd sydd eisoes ar waith.

Fel Swyddog Atebol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, rwy'n cadarnhau bod y datganiadau a wnaed yn yr adroddiad hwn yn gywir ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, na fu unrhyw faterion mewnol na llywodraethu sylweddol, a chadarnhaf fod systemau cadarn o reolaeth fewnol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion polisi'r Ymddiriedolaeth.

Jason Killens

Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: 26 Mehefin 2025

j) Atodiadau Datganiad Llywodraethu

Atodiad 1: Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Rheoliadau Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990 (OS 1990 Rhif 2024) fel y'u diwygiwyd. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd sydd wedi'u cyflwyno yn y telerau ac amodau penodi, mae aelodau'r Bwrdd yn cyflawni nifer o rolau hyrwyddo hefyd ac yn gweithredu fel llysgenhadon ar gyfer y materion hyn.

Mae'r tabl isod yn nodi nifer y cyfarfodydd y mae pob aelod o'r Bwrdd wedi'u mynychu yn ystod 2024/25 (ffigurau presenoldeb y Pwyllgor fel y'u cofnodwyd yn Adroddiadau Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor a gyflwynwyd i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth).

Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
Peter Curran	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus: 7 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Preifat): 7 allan o 7 Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 6 allan o 6 Pwyllgor Elusen: 0 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 6 allan o 6 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 3 allan o 4
Colin Dennis	Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 7 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Preifat): 7 allan o 7 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Rhiannon Beaumont-Wood (penodwyd 11 Tachwedd 2024)	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 3 o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Preifat): 3 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 0 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 1 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Jayne Beeslee (penodwyd 19 Awst 2024)	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 4 o 4 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Preifat): 4 allan o 5 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 4 allan o 4 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 2 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael)

Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
Kevin Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol (Tan 30 Medi 2024)	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 2 allan o 4 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 3 allan o 4 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 3 allan o 4 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 2 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 1 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Bethan Evans	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 6 allan o 7 Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Elusen: 3 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 4 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 3 o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 3 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 1 allan o 4
Hayley Hutchings (penodwyd 11 Tachwedd 2024)	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 3 o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Preifat): 4 allan o 5 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Ceri Jackson	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 5 o 7 Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 5 allan o 6 Y Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd: 1 allan o 1 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Elusen: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 4 allan o 4
Hannah Rowan	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 4 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 4 allan o 7 Y Pwyllgor Partneriaeth Academiaidd: 4 allan o 4 Pwyllgor Elusen: 3 allan o 4 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 3 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 1 allan o 4
Joga Singh	Cyfarwyddwr Anweithredol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 2 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 1 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael)



Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
		Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 2 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 1 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 0 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Jason Killens	Prif Weithredwr	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 7 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 allan o 7 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 4 allan o 4 Pwyllgor Archwilio: 4 allan o 6 (ddim yn fynychwr angenrheidiol)
Lee Brooks	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 o Pwyllgor Elusen: 3 allan o 4 Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 5 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 3 o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 2 allan o 4
Carl Kneeshaw (o 01 Tachwedd 2024)	Cyfarwyddwr Pobl	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 3 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 3 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 3 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Angela Lewis (Newid yn y portffolio o 01 Tachwedd 2024)	Cyfarwyddwr Newid Diwylliant	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 7 allan o 8 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 allan o 7 Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 3 allan o 4 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 2 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 2 allan o 3 (o gyfarfodydd sydd ar gael) Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 1 allan o 2 (o gyfarfodydd sydd ar gael)
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 6 allan o 7 Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 4 allan o 4 Pwyllgor Elusen: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4
Rachel Marsh	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 allan o 7 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 2 allan o 6 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 2 allan o 4



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Enw	Swydd	Cofnod Presenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Presenoldeb gwirioneddol cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd neu gyfanswm y cyfarfodydd a oedd ar gael i'w mynychu, yn dibynnu ar ddyddiadau penodi)
Trish Mills	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 7 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 allan o 7 Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 3 allan o 4 Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 6 allan o 6 Pwyllgor Elusen: 3 allan o 4 Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 5 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 3 o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 3 allan o 4 Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth: 4 allan o 4
Jonny Sammut	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Preifat): 6 allan o 7 Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 1 allan o 4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 6 allan o 6 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch y Claf: 4 allan o 4
Andy Swinburn	Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 7 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 allan o 7 Y Pwyllgor Partneriaeth Academaidd: 4 allan o 4 Pwyllgor Elusen: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4
Chris Turley	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 7 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 7 allan o 7 Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 5 allan o 6 Pwyllgor Elusen: 4 allan o 4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 6 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 4 allan o 4
Liam Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio	Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus): 6 allan o 7 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeedig): 6 allan o 7 Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd: 2 allan o 6 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad: 3 allan o 6 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: 3 o 4 Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch: 4 allan o 4

Atodiad 2: Dyddiadau Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Mae'r tabl canlynol yn nodi dyddiadau cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgorau a gynhaliwyd yn 2024/25. Cafwyd cworwm ar gyfer holl gyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'i bwyllgorau yn 2024/25.

Teitl y Cyfarfod [cyfarfodydd a gynhaliwyd]	Dyddiadau Cyfarfodydd 2024/25
Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Cyhoeddus) [7]	30 Mai 2024; 12 Gorffennaf 2024 (eithriadol); 25 Gorffennaf 2024; 26 Medi 2024; 29 Tachwedd 2024; 30 Ionawr 2025; 27 Mawrth 2025
Bwrdd yr Ymddiriedolaeth (Caeddig) [7]	30 Mai 2024; 25 Gorffennaf 2024; 09 Medi 2024 (eithriadol); 26 Medi 2024; 29 Tachwedd 2024; 30 Ionawr 2025; 27 Mawrth 2025
Ymddiriedolwr Corfforaethol [3]	30 Mai 2024; 29 Tachwedd 2024; 30 Ionawr 2025
Y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd [4]	23 Ebrill 2024; 19 Gorffennaf 2024; 18 Tachwedd 2024; 23 Ionawr 2025
Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd [6]	20 Ebrill 2024; 07 Mehefin 2024; 10 Gorffennaf 2024; 12 Medi 2024; 21 Tachwedd 2024; 06 Mawrth 2025
Y Pwyllgor Elusen [4]	04 Ebrill 2024; 22 Awst 2024; 08 Hydref 2024; 14 Ionawr 2025
Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad [6]	14 Mai 2024; 16 Gorffennaf 2024; 17 Medi 2024; 19 Tachwedd 2024; 16 Ionawr 2025; 18 Mawrth 2025
Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant [4]	09 Mai 2024; 30 Awst 2024; 14 Tachwedd 2024; 18 Chwefror 2025
Y Pwyllgor Ansawdd, Profiad y Claf a Diogelwch [4]	07 Mai 2024; 13 Awst 2024; 05 Tachwedd 2024; 04 Chwefror 2025
Y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth [4]	21 Mai 2024; 29 Awst 2024; 05 Rhagfyr 2024; 13 Mawrth 2025

2.2 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 – Tryloywder mewn Cadwyni Cyflenwi

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i God Ymarfer Cyflogaeth Foesegol Llywodraeth Cymru mewn Cadwyni Cyflenwi ac mae wedi ymrwymo'n llwyr iddo. Mae hwn wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi mwy moesegol i gyflawni contractau ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a sefydliadau trydydd sector sy'n derbyn arian cyhoeddus. Mae'r swyddogaeth gaffael yn faes allweddol ar gyfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Mae hwn yn cael ei redeg gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y gwaith a wneir ar ran y Bwrdd Iechyd gan PCGC ar wefan y Bartneriaeth Cydwasanaethau.

2.3 Adroddiad ar Dâl a Staff

Mae'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff yn cynnwys gwybodaeth am dâl cydnabyddiaeth uwch reolwyr. Bydd yn manylu ar gyflogau a thaliadau eraill, polisi'r Ymddiriedolaeth ar dâl cydnabyddiaeth i uwch reolwyr ac a oedd unrhyw daliadau ymadael neu ddyfarniadau arwyddocaol eraill i uwch reolwyr presennol neu gyn-reolwyr.

Y diffiniad o uwch reolwyr fel y'i rhagnodir gan y Llawlyfr Cyfrifon 2024/25 Pennod tri yw: 'yr unigolion hynny mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfarwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol".

Ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, ystyrir mai'r uwch reolwyr yw aelodau'r Byrddau, h.y. y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol gan gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr; a phum Cyfarwyddwr pellach (heb hawliau pleidleisio).

Yn ogystal â chyflwyno data ar dâl cydnabyddiaeth i uwch reolwyr, mae'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth a Staff yn nodi aelodaeth Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yr Ymddiriedolaeth, a gwybodaeth staff o ran niferoedd, cyfansoddiad ac absenoldebau salwch, ynghyd â gwariant ar ymgynghoriaeth a gwariant oddi ar y gyflogres.

Aelodaeth y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth

Dangosir manylion aelodau'r Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth yn y Datganiad Llywodraethu, yn yr adran crynodeb o Bwyllgorau'r Bwrdd. Roedd y newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu'r newidiadau i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar y Bwrdd.

Datganiad o Bolisi ar Dâl Cydnabyddiaeth i Uwch Reolwyr

Mae holl gyflogau a thelerau ac amodau gwasanaeth yr uwch reolwyr yn cael eu pennu gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth o fewn y fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Asesir perfformiad uwch reolwyr yn erbyn amcanion personol a pherfformiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r broses yn pennu amcanion ar

gyfer y flwyddyn ac yn asesu perfformiad unigol yn erbyn yr amcanion. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud taliadau bonws perfformiad na thaliadau bonws cysylltiedig eraill.

Yn unol â Chylchlythyrau Llywodraeth Cymru ar gyflogau uwch reolwyr yn GIG Cymru ar gyfer 2024/25, cymhwyswyd codiad cyflog cyfunol o 5% i bob graddfeydd cyflog ar gyfer unigolion mewn swyddi gweithredol ac uwch, yn weithredol o 01 Ebrill 2024. Cytunwyd ar y codiad cyflog hwn ym mis Medi 2024 a'i gymhwyso'n ôl-weithredol.

Mae'r codiad hwn wedi'i gymhwyso i bob graddfa gyflog, gan gynnwys staff uwch yr Ymddiriedolaeth sydd ar gyfraddau yn y fan a'r lle a drafodir yn unigol yn unol â'r Cylchlythyrau cyflog. Nid yw'r codiad hwn yn berthnasol i Gyfarwyddwyr Anweithredol.

Polisi ar Hyd Contractau a Chyfnodau Rhybudd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio contractau cyflogaeth parhaol a chyfnod penodol yn ogystal â chyfleoedd secondiad. Ar gyfer aelodau staff eraill, mae'r rhybudd cytundebol y mae'n ofynnol i staff ei roi i'r Ymddiriedolaeth ac y mae gan staff hawl i'w gael, fel a ganlyn: Bandiau un i chwech yn bedair wythnos; Band saith yn wyth wythnos; Bandiau wyth a naw yn 12 wythnos.

Y darpariaethau rhybudd ar gyfer Bandiau Cyflog un i saith a amlinellir uchod yw'r cyfnodau rhybudd arferol. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau hyn yn diystyru'r gofynion rhybudd statudol y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth eu rhoi i'w staff. Yn ôl hyd gwasanaeth, efallai y bydd gan staff hawl i gyfnod rhybudd hwy a chael un wythnos o rybudd am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblhawyd hyd at a chan gynnwys 12 wythnos o rybudd ar ôl 12 mlynedd o gyflogaeth barhaus.

Mae hyn yn cyfeirio at y cyfnodau rhybudd y mae'n rhaid i staff eu rhoi; fodd bynnag, nid yw hyn yn atal unigolion rhag gofyn i gael eu rhyddhau o'u swyddi'n gynharach. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl y naill barti na'r llall i derfynu'r contract heb rybudd oherwydd ymddygiad y parti arall. Gall yr Ymddiriedolaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, dalu cyflog yn lle rhybudd.

Contractau a Dyfarniadau Uwch Reolwyr

Dangosir manylion contractau uwch reolwyr yn y tablau isod. Nid oedd unrhyw daliad am derfynu contractau uwch reolwyr yn gynnar yn ystod 2024/25.

Perthynas Tâl Cydnabyddiaeth

Nodir manylion perthynas tâl cydnabyddiaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth yn Nodyn 10.6 o Gyfrifon Blynyddol 2024/25.

Uwch Reolwyr mewn Swydd 2024/25

Enw	Teitl y Swydd	Categori Penodi	Dyddiad Dechrau yn y Swydd	Dyddiad Gorffen Dyddiad Gorffen
Rhiannon Beaumont-Wood	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cyfnod Penodol	11 Tachwedd 2024	10 Tachwedd 2028
Jayne Beeslee	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cyfnod Penodol	19 Awst 2024	18 Awst 2028
Peter Curran	Cyfarwyddwr Anweithredol	Dyddiad Gorffen	01 Chwefror 2024	31 Ionawr 2028
Colin Dennis	Cadeirydd	Dyddiad Gorffen	01 Hydref 2022	30 Medi 2026
Bethan Evans	Cyfarwyddwr Anweithredol	Dyddiad Gorffen	06 Rhagfyr 2019	5 Rhagfyr 2026
Hayley Hutchings	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cyfnod Penodol	11 Tachwedd 2024	10 Tachwedd 2028
Ceri Jackson	Is-gadeirydd	Cyfnod Penodol	01 Gorffennaf 2024	30 Mehefin 2028
Hannah Rowan	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cyfnod Penodol	01 Ebrill 2022	31 Mawrth 2026

Enw	Teitl y Swydd	Categori Penodi	Dyddiad Dechrau yn y Swydd	Dyddiad Gorffen Dyddiad Gorffen
Jason Killens	Prif Swyddog Gweithredol	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Christopher Turley	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Angela Lewis	Cyfarwyddwr Newid Diwylliant	Cyfnod Penodol	12 Medi 2022	31 Hydref 2026
Liam Williams	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio	Parhaol	01 Awst 2022	Ddim yn Berthnasol
Lee Brooks	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Rachel Marsh	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad	Parhaol	Cyn 01 Ebrill 2021	Ddim yn Berthnasol
Patricia Mills	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd	Parhaol	02 Awst 2021	Ddim yn Berthnasol
Jonathan Sammut	Cyfarwyddwr Digidol	Parhaol	27 Medi 2023	Ddim yn Berthnasol
Andrew Swinburn	Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth	Parhaol	01 Rhagfyr 2021	Ddim yn Berthnasol
Carl Kneeshaw	Cyfarwyddwr Pobl	Parhaol	01 Tachwedd 2024	Ddim yn Berthnasol

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau contract uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth yn 2024/25 yn y Tabl Tâl Cydnabyddiaeth (a'r Nodiadau) a nodir yn ddiweddarach yn yr

Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff hwn. Lle bu newidiadau i swyddi'r Cyfarwyddwyr, newidiadau i delerau neu ymddiswyddiadau yn ystod y flwyddyn, ceir rhagor o fanylion yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr (ar ddechrau'r Adroddiad Atebolrwydd).

Uwch Reolwyr yn llenwi swyddi dros dro yn ystod 2024/25

Nid oedd unrhyw rai yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Uwch Reolwyr a adawodd yr Ymddiriedolaeth yn ystod 2024/25

Enw	Teitl y Swydd	Categori Penodi	Dyddiad Dechrau yn y Swydd	Dyddiad Gadael
Yr Athro Kevin Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cyfnod Penodol	19 Rhagfyr 2014	30 Medi 2024
Anoop Joga Singh	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cyfnod Penodol	09 Rhagfyr 2019	31 Awst 2024

Crynodeb o'r Flwyddyn Ariannol (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Yn unol â chylchlythyrau Llywodraeth Cymru ar gyflogau, mae'r cynnydd cyflog o 5.5% i weithwyr sy'n dod o dan yr Agenda ar gyfer Newid a'r cynnydd cyflog o 5.0% i weithwyr sy'n dod o dan Swyddi Gweithredol a Swyddi Uwch wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau ar gyfer 2024/25.

Nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi'u haddasu i ystyried canllawiau diwygiedig y Llawlyfr Cyfrifon, dim ond ar gyfer 2024/25 y mae hyn wedi'i gymhwyso, felly mae cynlluniau aberthu cyflog yn dal i gael eu didynnu o ffigurau 2023/24 sydd wedi'u cynnwys o dan gyfanswm cyflog a buddion.

10.6.2 Percentage Changes	2023-24 to 2024-25	2022-23 to 2023-24
% Change from previous financial year in respect of Chief Executive	%	%
Salary and allowances	8.7	3.0
Performance pay and bonuses	0	0
% Change from previous financial year in respect of highest paid director		
Salary and allowances	8.7	3.0
Performance pay and bonuses	0	0
Average % Change from previous financial year in respect of employees taken as a whole		
Salary and allowances	7.8	5.0
Performance pay and bonuses	0	0

Nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi'u haddasu i ystyried canllawiau diwygiedig y Llawlyfr Cyfrifon; dim ond ar gyfer 2024-25 y mae hyn wedi'i gymhwyso. Mae'r 3.0% a adroddwyd yn 2023/24 yn ymwneud â'r dyfarniad cyflog a dderbyniwyd yn 2023/24, yn seiliedig ar bwynt canol y band.

Mae'r 8.7% a adroddwyd yn 2024/25 mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog a dderbyniwyd yn 2024/25 yn seiliedig ar bwynt canol y band, a'r eithriad o gynlluniau aberthu cyflog yn unol â'r canllawiau newydd.

Pe bai'r flwyddyn flaenorol wedi'i haddasu, byddai'r newid canrannol o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn 5.6%, yn seiliedig ar bwynt canol y band. Roedd y 5.0% yn 2023/24 o ran y cyflog cyfartalog fesul gweithwyr CALL yn gysylltiedig â'r dyfarniad cyflog a dderbyniwyd ac a gronwyd ar ei gyfer yn ystod 2023/24. Mae'r 7.8% a adroddwyd

yn 2024/25 yn ymwneud â'r codiadau cyflog y cytunwyd arnynt ar draws y sefydliad, heb gynnwys cynlluniau aberthu cyflog.

Pe bai'r flwyddyn flaenorol wedi'i haddasu, byddai'r newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â gweithwyr gyda'i gilydd yn 6.1%.

Hawliau Cyflog a Phensiynau Uwch Reolwyr

a) Tâl (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Name and Title	2024-25				2023-24			
	Salary £000 (bands of £5000)	Benefits in Kind £ Rounded to the nearest £100	Pension benefits £000 Rounded to the nearest £1000 (Note 23)	Total £000 (bands of £5000)	Salary £000 (bands of £5000) (Note 22)	Benefits in Kind £ Rounded to the nearest £100 (Note 26)	Pension benefits £000 Rounded to the nearest £1000	Total £000 (bands of £5000)
Colin Dennis (Chair)	40-45	2,000		45-50	40-45			40-45
Kevin Davies (Non Executive Director / Vice Chair) (Note 1)	0-5	100		0-5	15-20			15-20
Paul Hollard (Non Executive Director) (Note 2)					5-10			5-10
Martin Turner (Non Executive Director) (Note 3)					5-10			5-10
Anoop Joga Singh (Non Executive Director) (Note 4)	0-5	-		0-5	5-10			5-10
Bethan Evans (Non Executive Director)	5-10	100		5-10	5-10			5-10
Ceri Jackson (Non Executive Director / Vice Chair) (Note 5)	20-25	1,100		20-25	10-15			10-15
Hannah Rowan (Non Executive Director)	5-10	-		5-10	5-10			5-10
Peter Curran (Non Executive Director) (Note 6)	5-10	100		5-10	0-5			0-5
Jayne Beeslee (Non Executive Director) (Note 7)	5-10	200		5-10				
Rhiannon Beaumont-Wood (Non Executive Director) (Note 8)	0-5	100		0-5				
Hayley Hutchings (Non Executive Director) (Note 9)	0-5	200		0-5				
Jason Killens (Chief Executive) (Note 10)	175-180	1,400		175-180	170-175	-	-	170-175
Christopher Turley (Executive Director of Finance & Corporate Resources) (Note 11)	130-135	300	29	160-165	120-125	-	-	120-125
Dr Brendan Lloyd (Executive Director of Medical and Clinical Services) (Note 12)					60-65	-	-	60-65
Angela Lewis (Director of Culture Change) (Note 13)	95-100	-	25	120-125	110-115	-	27	140-145
Liam Williams (Executive Director of Quality and Nursing)	130-135	-	12	140-145	120-125	-	-	120-125
Estelle Hitchon (Director of Partnerships & Engagement) (Note 14)	110-115	-	42	155-160	105-110	-	-	105-110
Rachel Marsh (Executive Director of Strategy, Planning & Performance) (Note 15)	115-120	700		115-120	105-110	-	-	105-110
Lee Brooks (Executive Director of Operations) (Note 16)	120-125	1,500	33	155-160	110-115	-	30	140-145
Dr Leanne Smith (Interim Director of Digital Services) (Note 17)					60-65	-	13	75-80
Jonathan Sammut (Director of Digital Services) (Note 18)					55-60	-	2	60-65
Andrew Swinburn (Executive Director of Paramedicine) (Note 19)	120-125	1,700	23	145-150	110-115	-	-	110-115
Carl Kneeshaw (Director of People) (Note 20)	45-50	-	11	60-65				
Patricia Mills (Director of Corporate Governance / Board Secretary) (Note 21)	105-110	-	28	130-135	100-105	-	26	125-130

Note 1 - Kevin Davies was Vice Chair until 30th November 2023, and Non Executive Director from 1st December 2023 until leaving the Trust on 30th September 2024

Note 2 - Paul Hollard left the Trust on 31st March 2024

Note 3 - Martin Turner left the Trust on 31st January 2024

Note 4 - Anoop Joga Singh left the Trust on 31st August 2024

Note 5 - Ceri Jackson was Non Executive Director until 30th November 2023 and Interim Vice Chair from 1st December 2023. Ceri was appointed as Vice Chair from 1st July 2024

Note 6 - Peter Curran joined the Trust on 1st February 2024

Note 7 - Jayne Beeslee joined the Trust on 19th August 2024. Salary full year equivalent is 5-10 (bands of £5000)

Note 8 - Rhiannon Beaumont-Wood joined the Trust on 11th November 2024. Salary full year equivalent is 5-10 (bands of £5000)

Note 9 - Hayley Hutchings joined the Trust on 11th November 2024. Salary full year equivalent is 5-10 (bands of £5000)

Note 10 - Jason Killens' salary before a salary sacrifice of £9,501 was 185-190 (bands of £5000). 2023-24 salary before a salary sacrifice of £5,742 was 175-180 (bands of £5000)

Note 11 - Christopher Turley's salary before a salary sacrifice of £2,078 was 130-135 (bands of £5000) including £2,518 in terms of annual leave sold. 2023-24 salary before a salary sacrifice of £5,306 was 125-130 (bands of £5000) including £2,391 in terms of annual leave sold

Note 12 - Brendan Lloyd retired on 31st December 2023. Salary is based on 0.51 WTE (19 hours). Salary full year equivalent is 80-85 (bands of £5000)

Note 13 - Angela Lewis' job title changed from Director of Workforce & Organisational Development to Director of People & Culture from 20th April 2023. Angela was appointed Director of Culture Change from 1st November 2024 on a 0.6 WTE basis (22.5 hours), salary full year equivalent is 115-120 (bands of £5000)

Note 14 - Estelle Hitchon's salary includes £2,162 in terms of annual leave sold. 2023-24 salary included £2,054 in terms of annual leave sold

Note 15 - Rachel Marsh's salary before a salary sacrifice of £5,006 was 120-125 (bands of £5000) including £2,281 in terms of 2024-25 annual leave sold and £1,550 in terms of 2023-24 annual leave sold. 2023-24 salary before a salary sacrifice of £5,006 was 110-115 (bands of £5000)

Note 16 - Lee Brooks' salary before a salary sacrifice of £10,415 was 130-135 (bands of £5000). 2023-24 salary before a salary sacrifice of £10,415 was 125-130 (bands of £5000)

Note 17 - Dr Leanne Smith was appointed Interim Director of Digital Services from 1st August 2022 until 11th October 2023. Salary full year equivalent is 115-120 (bands of £5000)

Note 18 - Jonathan Sammut was appointed Director of Digital Services from 27th September 2023. Salary before a salary sacrifice of £14,689 was 125-130 (bands of £5000). 2023-24 salary before a salary sacrifice of £2,448 was 60-65 (bands of £5000)

Note 19 - Andrew Swinburn salary before a salary sacrifice of £11,555 was 135-140 (bands of £5000) including £2,518 in terms of 2024-25 annual leave sold and £2,430 in terms of 2023-24 annual leave sold. 2023-24 salary before a salary sacrifice of £9,629 was 120-125 (bands of £5000)

Note 20 - Carl Kneeshaw joined the Trust on 1st November 2024, with pension contributions from 4th November 2024 due to an overlap in employments. Salary full year equivalent is 115-120 (bands of £5000)

Note 21 - Patricia Mills' job title was changed from Board Secretary to Director of Corporate Governance/Board Secretary from 8th March 2024

Note 22 - The 2023-24 salary column includes an increase of 5% on top of the pay scales for employees covered by executive and senior pay terms and conditions of service

Note 23 - In line with Disclosure of Senior Managers' Remuneration (Greenbury) 2025 guidance, pension benefits are only included where the calculation results in a positive figure

Note 24 - Payments to past directors Claire Vaughan and Andrew Hayward were made for £86.79 and £474.02 respectively relating to 2022/23 back pay which was not disclosed previously in a directors' remuneration report, in accordance with the Manual for Accounts

Note 25 - Benefit in kind includes home to work travel and business miles for the Non Executive Directors, and company car for the Directors

Note 26 - The benefit in kind figures for the Non Executive Directors for 2023-24 were included in the salary column

Hawliau Cyflog a Phensiynau Uwch Reolwyr

b) Buddion Pensiwn (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Name and title	Accrued pension at pension age as at 31/3/25 and related lump sum (bands of £5,000) £'000	Real increase in pension and related lump sum at pension age (bands of £2,500) £'000	Cash Equivalent Transfer Value at 31 March £'000	Cash Equivalent Transfer Value at 31 March £'000	Real increase in Cash Equivalent Transfer £'000
Jason Killens (Chief Executive)	60-65 plus lump sum of 150-155	0-2.5 plus lump sum of 0	1,312	1,222	-
Christopher Turley (Executive Director of Finance & Corporate Resources)	60-65 plus lump sum of 155-160	0-2.5 plus lump sum of 0	1,382	1,245	37
Angela Lewis (Director of Culture Change)	5-10 plus lump sum of 0-5	0-2.5 plus lump sum of 0	113	76	19
Liam Williams (Executive Director of Quality and Nursing)	40-45 plus lump sum of 105-110	0-2.5 plus lump sum of 0	953	885	14
Estelle Hitchon (Director of Partnerships & Engagement)	35-40 plus lump sum of 100-105	2.5-5 plus lump sum of 0-2.5	867	755	47
Rachel Marsh (Executive Director of Strategy, Planning & Performance)	55-60 plus lump sum of 65-70	0-2.5 plus lump sum of 0	1,044	957	9
Lee Brooks (Executive Director of Operations)	45-50	0-2.5	639	562	24
Jonathan Sammut (Director of Digital Services) *	-	-	-	56	-
Andrew Swinburn (Executive Director of Paramedicine)	50-55 plus lump sum of 130-135	0-2.5 plus lump sum of 0	1,166	1,052	29
Carl Kneeshaw (Director of People) **	0-5	0-2.5	53	24	5
Patricia Mills (Director of Corporate Governance / Board Secretary)	5-10	0-2.5	155	112	22

* Jonathan Sammut chose not to be covered by the NHS pension arrangements from 1 February 2024

** Carl Kneeshaw paid pension contributions from 4th November 2024 due to an overlap in pensionable employments

Niferoedd Staff (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae dadansoddiad o niferoedd staff yn ôl categori yn ystod 2024/25 wedi'i nodi isod. Mae'r ffigurau'n ymwneud â nifer cyfartalog y cyflogeion o dan gontract gwasanaeth ym mhob mis o'r flwyddyn ariannol, wedi'i rannu â 12 (a'i dalgrynnu i'r cyfwerth ag amser llawn [CALI] agosaf). Cyfrifwyd y ffigurau hyn i gynnwys secondiadau o'r tu allan a staff asiantaeth ac i gysoni â'r cyfrifon ariannol.

Categori	2024/25	2023/24	2022/23
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	1,974	2,070	2,078
Staff Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	3	3	4
Staff Gweinyddol, Clerigol ac Aelodau o'r Bwrdd	690	634	618
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	1,162	1,103	1,092
Ystadau ac Ategol	65	58	64
Meddygol a Deintyddol	1	1	1
Nyrsio a Bydwreigiaeth	196	192	196
Cyfanswm	4,091	4,061	4,053

Cyfansoddiad Staff

Nodir dadansoddiad o nifer y bobl o bob rhyw sy'n uwch reolwyr yr Ymddiriedolaeth (hy. Cyfarwyddwyr Anweithredol, Cyfarwyddwyr Gweithredol, Cyfarwyddwyr, Ysgrifennydd y Bwrdd) ar 31 Mawrth 2025 isod (ac eithrio'r rhai a secondiwyd allan o'r Ymddiriedolaeth). Mae hyn yn cymharu â chyfansoddiad staff yr Ymddiriedolaeth gyfan o 51% o fenywod, 49% o ddynion.

Rhywedd	Nifer y bobl	%
Benyw	10	53
Dyn	9	47
Cyfanswm	19	100

Data Absenoldeb Oherwydd Salwch

	2024/25	2023/24	2022/23
Diwrnodau a gollwyd (hirdymor)	85,949.54	93,684.07	88,732.85
Diwrnodau a gollwyd (tymor byr)	30,280.98	32,961.72	47,226.89
Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd	116,230.52	126,645.79	135,959.74
Cyfanswm y blynyddoedd staff	338.88	338.43	335.66
Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd	17.86	19.43	21.09
Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod (nifer y bobl)	4,381	4,354	4,315

Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn ystod y cyfnod na fuont yn absennol (nifer y bobl)	1262	1,025	917
Canran y staff na fuont yn absennol oherwydd salwch	28.65%	24.93%	21.09%

Nodyn 1: Mae canran a chyfanswm nifer y staff na fuont yn absennol yn ystod y flwyddyn wedi dod o adroddiad safonol Gwybodaeth Busnes (BI) y Cofnod Staff Electronig (ESR). O ran yr adrodd mewn perthynas â chanran y staff sydd â 'dim salwch', nid yw'r adroddiad Gwybodaeth Busnes safonol yn cynnwys newydd-ddyfodiaid a hefyd penodiadau banc. Felly, mae nifer y staff sydd wedi cael blwyddyn gyfan heb unrhyw absenoldeb oherwydd salwch yn cael ei rannu'n nifer llai na chyfanswm y cyfrif pennau ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae rheolaeth agos o absenoldeb oherwydd salwch yn unol â pholisi a gweithdrefnau yn parhau ac nid yw'r Ymddiriedolaeth allan o gyswllt â sector ambiwlans ehangach y DU.

Bu gostyngiad mewn absenoldeb o 7.67% ym mis Mawrth 2024 i 7.35% ym mis Mawrth 2025 ac mae'r sefydliad yn parhau i weithio i leihau'r ffigur hwn gan nodi bod lefelau'r gostyngiad yn dod yn fwyfwy heriol wrth i'r ffigur leihau. Mae'r camau gweithredu'n cynnwys:

- Ymgorffori dulliau arferion tosturiol ymhellach i leihau niwed i weithwyr o brosesau sefydliadol.
- Defnyddio cyfleoedd fel trefniadau gweithio hyblyg dros dro neu barhaol i gefnogi cydweithwyr i aros yn y gwaith a chynnal eu cyflogaeth.
- Adrodd i'r Tîm Arwain Gweithredol, y Pwyllgor Pobl a Diwylliant a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gan gynnwys ymchwiliadau manwl i faterion penodol a meysydd ar gyfer goruchwyllo a llywodraethu.
- Cyflawni prosiectau arloesol a gwaith gwella diwylliannol er budd profiad gweithwyr, sydd, yn ei dro, yn helpu i leihau absenoldeb oherwydd salwch.

- Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Undebau Llafur ar feysydd sy'n effeithio ar bresenoldeb fel oedi wrth drosglwyddo a staff yn gallu cymryd Amser i Ffwrdd yn Lle hynny pan fyddant ei angen a phan fyddant eisïau.
- Cymorth a dulliau rheoli newid ymroddedig ac effeithiol ar gyfer prosiectau trawsnewid ac ailstrwythuro.
- Cefnogaeth reolaidd a rhagweithiol gan y Tîm Gwasanaethau Pobl gan gynnwys adolygiadau achosion gydag uwch reolwyr er mwyn sicrhau gwelededd ac atebolrwydd.

Polisiâu Staff a Gymhwyswyd yn ystod y Flwyddyn

Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith polisi cynhwysfawr sy'n amlinellu datblygiad, adolygiad a chymeradwyaeth ei pholisiâu a'i gweithdrefnau cyflogaeth mewn partneriaeth. Drwy gydol 2024/25 mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu, adolygu a diweddarau nifer o bolisiâu mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Undeb a thrwy ymgynghoriadau staff; gyda'r nod o symleiddio prosesau'r Ymddiriedolaeth ymhellach.

Caiff yr holl bolisiâu a gweithdrefnau cyflogaeth cymeradwy eu hasesu o ran effaith cydraddoldeb yn erbyn y naw nodwedd warchoddedig, gyda'r Gymraeg yn cael ei hystyried hefyd i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu nac yn anfantais i unrhyw unigolion. Mae'r polisiâu hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hintegreiddio'n llawn i arferion recriwtio, dethol a chyflogaeth yr Ymddiriedolaeth, gan adlewyrchu gwerthoedd craidd ac ymddygiadau'r sefydliad.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig ystod eang o bolisiâu cyflogaeth sy'n cwmpasu meysydd fel recriwtio a dethol, hyfforddi a datblygu, gweithio hyblyg, iechyd a diogelwch, lles, a rheoli heintiau. Cefnogir y polisiâu hyn gan Gynllun Pobl a Diwylliant a Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ymddiriedolaeth. Gall staff gael mynediad at bob polisi cyflogaeth drwy Fewnrwyd yr Ymddiriedolaeth.

Materion Gweithwyr/Staff Eraill

Gwnaed cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i gyflawni amcanion cydraddoldeb strategol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r gweithgaredd ar draws yr Ymddiriedolaeth i hyrwyddo'r amcanion hyn fel a ganlyn: -

Diogelwch Rhywiol, Casineb at Fenywod a Thrais yn Erbyn Menywod a Merched

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i greu amgylcheddau gwaith diogel a dileu aflonyddu rhywiol ac ymddygiadau digroeso yn y gweithle. Rydym wedi datblygu cynllun hyfforddi aml-lefel i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol. Nod y dull cynhwysfawr hwn yw sicrhau gweithle diogel a pharchus i bob gweithiwr a bydd yn helpu i greu amgylcheddau gwaith mwy diogel a chynhwysol.

Hyfforddiant Cynghreiriaeth a Gwylwyr Gweithredol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i weithredu ei Hyfforddiant Cynghreiriad a Gwylwyr Gweithredol i staff a gwirfoddolwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth. Nod yr hyfforddiant hwn yw gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r heriau y mae grwpiau lleiafrifol a grwpiau gwarchodedig yn eu hwynebu, yn ogystal ag unigolion sy'n agored i niwed a dan anfantais. Mae'r hyfforddiant yn hyrwyddo dulliau ymyriad gwylwyr gweithredol, gan annog staff i gael gwared ag ymddygiadau gwahaniaethol yn weithredol a meithrin cydraddoldeb. Cafodd yr hyfforddiant ei gydnabod fel rhaglen waith enghreifftiol yn 2024 pan enillodd yr Ymddiriedolaeth Wobr Cymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd Cymru.

Rhwydweithiau Pobl a'n Gwirfoddolwyr

Mae ein Rhwydweithiau Pobl yn parhau i ddatblygu gyda'r rhwydweithiau canlynol yn gweithredu'n weithredol ar draws yr Ymddiriedolaeth:

- *Y Rhwydwaith Menywod*
- *Rhwydwaith BEAM*
- *Rhwydwaith LHDT+*
- *Rhwydwaith Cymorth Cyfoedion i Ofalwyr*
- *Rhwydwaith PurpleSpace*
- *Hyrwyddwyr Diwylliant*
- *Lleisiau WAST*
- *Cymuned Newid*

- *Rhwydwaith Cymraeg*

Rydym wedi cysylltu â'n gwirfoddolwyr ac wedi estyn gwahoddiad iddynt ymuno â'n rhwydweithiau pobl. Mae ein gwirfoddolwyr yn llawer mwy amrywiol na'n gweithlu presennol ac yn haeddu mynediad cyfartal at ein rhwydweithiau cymorth. Rydym hefyd yn cydnabod gwerth a phrofiad bywyd ein gwirfoddolwyr a all ein helpu i yrru ein mentrau rhwydwaith pobl ymlaen.

Cymorth i Ofalwyr

Dyfarnwyd Lefel 1 Hyderus o ran Gofal i'r Ymddiriedolaeth ac mae'n parhau i ddarparu cefnogaeth i'n gweithlu sy'n darparu gofal di-dâl i eraill. Hefyd, gweithredwyd ymgyrch hyrwyddo am Ddeddf Absenoldeb Gofalwr i ddarparu rhagor o gefnogaeth i ofalwyr a rheolwyr llinell. O ganlyniad i gyhoeddusrwydd ynghylch Gwobr Hyderus o ran Gofal, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cydweithwyr sy'n dymuno ymuno â'n Rhwydwaith Gofalwyr.

Diweddariad ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Yn dilyn lansio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol wedi'i ddiweddarau gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2024, mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu'r cynnydd a wnaed hyd yma ac wedi datblygu cynllun gweithredu lleol newydd. Eleni, rydym wedi gwneud cynnydd yn y meysydd canlynol:

Menter Recriwtio Cynhwysol o fewn y Tîm Digidol

Cyflwynwyd tair sesiwn hyfforddi ar ragfarn ddiarwybod i chwe rheolwr recriwtio, a chynhaliwyd dau weithdy ar gyfer ymgeiswyr o dras ethnig amrywiol. Cefnogodd y Tîm Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Tîm i gysylltu â chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd i dargedu eu gweithgaredd recriwtio. Mae dadansoddiad cynnar o'r gweithgaredd recriwtio a gynhaliwyd hyd yma wedi dangos cynnydd amlwg yn nifer yr ymgeiswyr o blith ymgeiswyr amrywiol o ran ethnigrwydd a phenodiadau llwyddiannus o ymgeiswyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. Hyrwyddwyd y gwaith hwn yng Nghynhadledd Meistroli Amrywiaeth Cymru, lle arweiniodd yr Ymddiriedolaeth y 'Parth Digidol' a oedd yn canolbwyntio ar recriwtio cynhwysol o fewn y sector digidol, gyda phwyslais ar fenywod a chroestoriadoldeb.

Menter Tôn Croen Mamolaeth

Mae ein Hyrwyddwr Diogelwch Lleol Bydwragedd wedi trefnu i gaffael modelau efelychu tôn croen du i wella hyfforddiant ar gyfer genedigaeth. Mae hyn yn cynnwys model efelychu genedigaeth, modelau newyddenedigol, modelau CardioPR oedolion, pecyn gwnïo a braich fewnwythiennol. Mae ein Cofrestrydd Iechyd Cyhoeddus wedi dadansoddi data poblogaeth i nodi'r ardaloedd â'r nifer uchel o enedigaethau gofal brys ethnig leafrifol ac o ganlyniad, bydd y modelau hyn yn cael eu hychwanegu at ein hystafelloedd hyfforddi yn Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd. Bydd yr adnoddau hyfforddi hefyd yn cael eu benthyg i feysydd eraill i sicrhau bod cyfle i bob aelod o staff hyfforddi gyda modelau efelychu tôn croen du.

Digwyddiad Ramadan ac Iftar

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn meithrin perthnasoedd â'n cymunedau Mwslimaidd. Yn ogystal ag ymweld â mosgiau lleol a grwpiau cymunedol, hwylusodd Rhwydwaith BEAM newydd yr Ymddiriedolaeth bresenoldeb yr Ymddiriedolaeth yn nigwyddiad Halal Expo yng Nghaerdydd ym mis Chwefror. Gwelodd y digwyddiad hwn tua 3000 o ymwelwyr drwy gydol y dydd lle bu staff yn gweithio gyda phlant i ymarfer sgiliau CardioPR, yn gwrandao ar brofiadau defnyddwyr gwasanaeth, ac yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli a recriwtio o fewn yr Ymddiriedolaeth. Ym mis Mawrth, cynhaliodd y rhwydwaith ddigwyddiad Iftar cyntaf yr Ymddiriedolaeth a gafodd bresenoldeb da gyda chynrychiolaeth o Fwrdd ein Hymddiriedolaeth, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol, a rhoddodd gyfle i ddysgu am Ramadan a thorri'r ymryd. Gwahoddwyd staff a gwirfoddolwyr i rannu bwyd traddodiadol gyda'n cydweithwyr Mwslimaidd a gwyllo gweddïau. Roedd Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Mwslimiaid Cymru hefyd yn bresennol a rhoddodd anerchiad am Ramadan. Roedd y mynychwyr yn gwerthfawrogi'r digwyddiad a gwnaethant sylwadau ar faint a ddysgon nhw am ddiwylliant Mwslimaidd a fydd yn ein helpu i greu cynghreiriaeth a deall anghenion ein cydweithwyr Mwslimaidd a defnyddwyr gwasanaeth yn well.

Cymorth i Gymunedau LHDTTC+

Yn dilyn adborth gan ein cymunedau LHDTTC+, eleni, cynyddodd yr Ymddiriedolaeth ei phresenoldeb mewn digwyddiadau Balchder ledled Cymru. Mynychodd staff a gwirfoddolwyr ddigwyddiadau Balchder yn ne, gogledd a gorllewin Cymru lle roedd aelodau'r rhwydwaith yn gallu dod ynghyd â'n cymunedau lleol i ddysgu am rai o'r heriau penodol y maent yn eu hwynebu. Mae Cadeirydd ein Rhwydwaith Staff LHDTTC+ wedi defnyddio'r adborth a'r ymgysylltiad hwn i helpu i lywio datblygiad Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwylans ar gyfer 2025 sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cefnogaeth i Gadeiryddion Rhwydwaith LHDTTC+, diweddarar adnodd Datblygiad Proffesiynol Parhaus o amgylch Darparu Gofal Da i Bobl sy'n Byw gyda HIV, a datblygu adnodd iechyd meddwl LHDTTC+ newydd.

Gwariant ar Ymgynghoriaeth

Y gwariant yn ystod 2024/25 mewn perthynas â chostau ymgynghori oedd £583,645.36 (yn 2023/24 roedd yn £496,519.09) ar draws y meysydd canlynol:

154,158.00	Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau
96,999.80	Trefniadaeth a Rheoli Newid
57,351.81	Adnoddau Dynol, hyfforddiant ac addysg
	Technoleg Gwybodaeth/Gwasanaethau
-	Gwybodaeth
71,198.30	Eiddo ac Adeiladu
-	Marchnata a Chyfathrebu
157,868.90	Strategaeth
32,904.80	Cyllid
13,163.75	Technegol

- Gwasanaethau Cyfreithiol

583,645.36

Gwariant ar Staff Dros Dro

Cymhariaeth naratif rhwng 2024/25 a 2023/24

Y gwariant yn ystod 2024/25 mewn perthynas â chostau staff dros dro oedd £1.407m (2023/24 £1.104m). Mae'r cynnydd o £0.303mil oherwydd staff asiantaeth ddigidol sydd mewn swydd ar sail afreolaidd i gynorthwyo i gyflawni targedau y Cynllun Tymor Canolig Integredig y cytunwyd arnynt, mae hyn yn bennaf oherwydd yr anawsterau wrth recriwtio i faes mor arbenigol.

Ymrwymadau Oddi ar y Gyflogres

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw elw yn 2024/25 ar gyfer ymrwymadau oddi ar y gyflogres. Mae hyn yn gyson â'r hyn a adroddwyd yn 2023/24.

Pecynnau Ymadael (gwybodaeth wedi'i harchwilio)

Mae gan yr Ymddiriedolaeth gost o £164,365 yn 2024/25 ar gyfer pum pecyn ymadael i staff yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn cymharu ag enillion o £53,678 yn 2023/24. Disgrifir pecynnau ymadael yn Nodyn 10.5 yn y datganiadau ariannol.

2.4 Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru

Mae Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru yn darparu gwybodaeth am faterion fel rheoleidd-dra gwariant, ffioedd a thaliadau, a'r dystysgrif archwilio a'r adroddiad.

Rheoleidd-dra Gwariant

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau rheoleidd-dra ei hincwm a'i gwariant. Darparwyd tystiolaeth ddigonol o sicrwydd hyn fel rhan o'r archwiliad o'r broses gyfrifon a daw'r dystysgrif archwilio ar gyfer y cyfrifon i'r casgliad bod y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol, ym mhob ffordd berthnasol, wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd Cymru a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau bod ei gwariant ar gyfer y flwyddyn yn rheolaidd.

Ffioedd a Chostau

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod cost lawn darparu gwasanaethau masnachol yn cael ei throsglwyddo yn ei ffioedd a'i thaliadau ac mae'n cadarnhau bod rheolaethau priodol ar waith yn 2024/25 ynghylch sut, pryd ac ar ba lefel y codwyd taliadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cadarnhau bod ei ffioedd a'i thaliadau yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Rhwymedigaethau Digwyddiadol Materol Pell

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol materol o bell o fewn ei chyfrifon ar gyfer 2024/25. Mae hyn yn gyson â'r hyn a adroddwyd yn 2023/24.

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilio

Mae tystysgrif ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i Senedd Cymru wedi'u hatodi ar y tudalennau a ganlyn.

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglir a'u haddasir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o amgylchiadau Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ar 31 Mawrth 2025, ac o'i gwared ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y cawsant eu dehongli a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi yn briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan y ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o ddatganiadau ariannol endidau'r sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Rwyf fi a'm staff yn annibynnol o'r ymddiriedolaeth ac yn gweithredu'n unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marnau.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad ei bod yn briodol defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes hyfyw o gyfrifo am gyfnod o o leiaf ddeuddeg mis o'r adeg yr awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae sail busnes hyfyw cyfrifyddu Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a fabwysiadwyd wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail busnes hyfyw cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr adroddiad blynyddol.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn ddiamwys fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, fod yna gamddatganiad sylweddol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am hyn.

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar dâl cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2006, a chyfarwyddiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru;

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan gyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Ystyriaethau yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth yr Ymddiriedolaeth a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau materol perthnasol yn yr adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- na ddatgelwyd gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- na wneir datgeliadau penodol o daliadau a nodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF neu nid yw rhannau o'r Adroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys EF.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol;
- paratoi datganiadau ariannol ac adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnol y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Ymddiriedolaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r

Prif Weithredwr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn darganfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl iddynt yn rhesymol, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, y pennaeth archwilio mewnol a'r rhai oedd yn gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru sy'n ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig; a
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll wrth ddiystyru rheolwyr a chydabod gwariant;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru;
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd parti cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- wrth ymdrin â'r risg o dwyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol y busnes.

Cyfathrebais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob aelod o'r tîm archwilio ac arhosais yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad. Mae i ba raddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll yn cael ei effeithio gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol, www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

Cyfrifoldebau archwilwyr eraill

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
27 Mehefin 2025

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

RHAN 3:- DATGANIADAU ARIANNOL

Rhagair

Mae'r cyfrifon hyn ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 wedi'u paratoi i gydymffurfio â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a fabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) Trysorlys EF, gan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru o dan atodlen 9 adran 178 Para 3 (1) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) yn y ffurf y cyfarwyddodd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Cefndir statudol

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ym 1998. Rydym yn gwasanaethu ardal o ryw 8,000 milltir sgwâr sydd â phoblogaeth o fwy na 3 miliwn ac mae ein hardal amrywiol yn cwmpasu encilion gwledig tawel, cyrchfannau glan môr prysur a bwrdeistrefi trefol mawr.

Mae ein gwasanaethau amrywiol a modern wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer gwahanol anghenion amgylcheddol a meddygol pob cymuned, o feiciau i geir ymateb cyflym, ambiwlansys rheng flaen a nyrsys yn ein canolfannau rheoli.

Rydym yn ateb mwy na 250,000 o alwadau mewn argyfwng bob blwyddyn, dros 50,000 o alwadau brys ac yn cludo dros 1.3 miliwn o gleifion nad ydynt yn achosion mewn argyfwng i dros 200 o ganolfannau triniaeth ledled Cymru a Lloegr.

Ein staff ymroddedig yw ein hased mwyaf, ac rydym yn cyflogi tua 4,000 o bobl. Mae tua 70% o'n gweithlu yn ein gwasanaethau meddygol brys sy'n cynnwys ein Canolfannau Cyswllt Clinigol, ac mae tua 640 o staff yn gweithio yn ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS). Mae ein gwasanaethau sy'n delio â chleifion hefyd yn cael eu cefnogi gan gydweithwyr sy'n gweithio o fewn ein swyddogaethau corfforaethol a chymorth (tua 500 o staff) a'n gweithlu gwirfoddol estynedig gwerthfawr, gan gynnwys dros 1,000 o Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned (CFRs) a thua 300 o Yrwyr Ceir Gwirfoddol.

Rydym yn gweithredu o dros 90 o orsafoedd ambiwlans, tair canolfan gyswllt, pedair swyddfa ranbarthol a thri gweithdy cerbydau.

Mae gennym hefyd ein Coleg Hyfforddi Cenedlaethol ein hunain i sicrhau bod ein staff yn aros ar frig eu proffesiwn ac yn derbyn datblygiad proffesiynol rheolaidd.

Rydym yn cynnig hyfforddiant parhaus o ansawdd uchel, cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol.

Rydym hefyd yn darparu gwasanaeth 111 GIG Cymru, sef gwasanaeth cyngor a gwybodaeth iechyd 24 awr y dydd i'r cyhoedd ac elfennau ateb galwadau llinell flaen a brysbennu clinigol gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.

Rheoli Perfformiad a Chanlyniadau Ariannol

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054 yn disodli WHC/2015/014 'Dyletswyddau Ariannol Statudol a Gweinyddol Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol' ac mae'n egluro ymhellach ddyletswyddau ariannol statudol cyrff GIG Cymru ac mae'n weithredol ar gyfer 2024-2025. Mae'r ddyletswydd ariannol flynyddol wedi'i dirymu ac mae'r ddyletswydd adennill costau statudol wedi dychwelyd i ddyletswydd tair blynedd, gyda'r asesiad cyntaf o'r ddyletswydd hon yn 2016-2017.

O dan Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae rhwymedigaethau ariannol Ymddiriedolaeth y GIG wedi'u cynnwys yn Atodlenni 4 2(1) a 4 2(2). Rhaid i bob ymddiriedolaeth y GIG sicrhau nad yw ei refeniw yn llai na digon, gan ystyried un flwyddyn ariannol gydag un arall, i gwrdd â gwariant y gellir ei godi'n briodol ar y cyfrif refeniw. Roedd yr asesiad cyntaf o berfformiad yn erbyn y ddyletswydd statudol 3 blynedd o dan Atodlenni 4 2(1) a 4 2(2) ar ddiwedd 2016-2017, sef y cyfnod.